GRŴP COMISIYNYDD YR HEDDLU
A THROSEDDU GWENT

# DATGANIAD O GYFRIFON

2020/21

**Cynnwys**

Adroddiad Naratif ... 3
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ... 9
Datganiad o Gyfrifoldebau ... 11
Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ... 12
Gwent a Phrif Gwnstabl Gwent ... 12
**CYFLWYNIAD** ... 12
Yr 17 safon wedi eu rhoi ar waith ar draws y chwech egwyddor ... 16
Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ... 41
Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant ... 42
Mantolen ... 44
Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Grŵp y PCC 2020/21 ... 45
Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Grŵp y PCC 2019/20 ... 46
Datganiad Llif Arian ... 47
Cyfrif Pensiynau'r Heddlu ... 48
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer Grŵp y PCC ... 49
Nodyn 1-Polisïau Cyfrifo ... 49
Nodyn 2 - Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto ... 56
Nodyn 3 - Dyfarniadau critigol wrth gyflwyno polisïau cyfrifyddu ... 56
Nodyn 4 - Rhagdybiaethau a wnaed am ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon y dyfodol, a ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon eraill ... 56
Nodyn 5 -Eitemau Incwm a Gwariant Perthnasol ... 57
Nodyn 6 -Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen ... 57
Nodyn 7 -  - Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid ... 58
Nodyn 8 - Addasiadau rhwng y Sylfaen Gyfrifyddu a'r Sylfaen Ariannu o dan Reoliadau ... 60
Nodyn 9 - Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi ... 62
Nodyn 10 - Gwariant Gweithredu Arall ... 64
Nodyn 11 - Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi ... 64
Nodyn 12 - Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol ... 64
Nodyn 13 - Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar ... 65
Ymrwymiadau Cyfalaf ... 66
Nodyn 14 - Asedau Anniriaethol ... 67
Nodyn 15 - Eiddo Buddsoddi, Asedau Cymunedol ac Asedau Treftadaeth ... 67
Nodyn 16 - Offerynnau Ariannol ... 68
Nodyn 17 – Rhestrau Eiddo ... 71
Nodyn 18 - Dyledwyr ... 72
Nodyn 19 - Arian Parod ac Eitemau sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ... 72
Nodyn 20 - Asedau i'w Gwerthu ... 72
Nodyn 21 - Credydwyr ... 73
Nodyn 22 - Darpariaethau ... 74
Nodyn 23 - Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio ... 75
Nodyn 24 - Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir eu Defnyddio ... 76
Nodyn 25 - Llif Arian Parod o Weithgareddau Gweithredu ... 79
Nodyn 26 - Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi ... 80
Nodyn 27 - Llif Arian o Weithgareddau Ariannu ... 80
Nodyn 28 - Lwfansau Aelodau ... 80
Nodyn 29 – Tâl Swyddogion a Staff yr Heddlu Grŵp y PCC ... 81
Tâl Uwch Swyddogion yr Heddlu ac Uwch Aelodau Staff yr Heddlu Perthnasol ... 83

Nodyn 30 - Buddion Terfynu Swydd ........ 86
Nodyn 31 - Costau Archwilio Allanol ........ 87
Nodyn 32 - Incwm Grant ........ 88
Nodyn 33 - Partïon Cysylltiedig ........ 89
Nodyn 34 - Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf ........ 90
Nodyn 35 – Prydlesi'r PCC ........ 91
Nodyn 36 - Mentrau Cyllid Preifat (PFI) a Chontractau Tebyg ........ 92
Nodyn 37 – Cydweithio ........ 93
Nodyn 38- Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig ........ 95
Sylfaen ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau ........ 102
Nodyn 39 - Asedau a Rhwymedigaethau Amodol ........ 103
Nodyn 40 - Natur a Graddfa Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol ........ 104
Nodyn 41 - Addasiadau Rhyng-grŵp ........ 107
Nodyn 42 - Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT) ........ 108
Geirfa ........ 109

## Adroddiad Naratif

**Cyflwyniad**
Diben y Datganiad Cyfrifon yw darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad, atebolrwydd rheoli o ran adnoddau, risgiau ac ansicrwydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent (y Comisiynydd) sy'n ddefnyddiol i ystod eang o ddefnyddwyr. Gallai defnyddwyr y datganiadau ariannol gynnwys y cyhoedd, y Llywodraeth, cyrff sy'n dyfarnu grantiau, gweithwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr a chontractwyr y Comisiynydd.

Mae atebolrwydd am adnoddau cyhoeddus a rolau a chyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a nodir mewn statud yn cael eu dogfennu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd wedi'i nodi yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd, a gyhoeddir fel rhan o'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae'r Datganiad Cyfrifon hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a chafodd y cyfnod adrodd ei effeithio gan y pandemig Coronafeirws. Mae'r adran 'Edrych Ymlaen' o'r adroddiad naratif yn amlygu'r effaith bosibl ar drefniadau plismona a chomisiynu trwy gydol 2021/22 a thu hwnt.

**Fframwaith Statudol ar gyfer y Datganiadau Ariannol**
Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (PRSRA) bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl yn y gyfraith fel 'corfforaeth undyn' - endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u personoliaeth gyfreithiol eu hunain. Mae'n ofynnol i bob corfforaeth undyn lunio ei Datganiad o Gyfrifon endid unigol ei hun, ac mae'r Comisiynydd yn llunio Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y Grŵp (Grŵp y PCC) a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Felly, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gyllid Grŵp y PCC ac mae'n rheoli'r asedau, y rhwymedigaethau a'r cronfeydd wrth gefn. Hefyd, mae'r Comisiynydd yn derbyn yr holl incwm a chyllid ac mae'n gwneud yr holl daliadau ar gyfer Grŵp y PCC, gan gynnwys taliadau i swyddogion a staff, o Gronfa Gyffredinol yr Heddlu. Hefyd, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ariannu rhwymedigaethau pensiwn, yn y tymor byr a'r hirdymor. Yn ei dro, mae'r Prif Gwnstabl yn cyflawni ei swyddogaethau o dan y PRSRA ar sail cyllideb ddirprwyedig flynyddol, a bennir gan y Comisiynydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff Llywodraeth Leol baratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Nodir bod Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (y Cod) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn cynrychioli arferion priodol.

Mae'r Cod yn berthnasol i gyrff Llywodraeth Leol a nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 y mae'n ofynnol iddynt baratoi cyfrifon i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Diwygiwyd adran 12 o'r Ddeddf hon gan y PRSRA i ddisodli'r cyfeiriad at Awdurdodau Heddlu â Chomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi eu Datganiadau Ariannol yn unol â Fframwaith y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) ar gyfer Paratoi a Chyflwyno Datganiadau Ariannol (Fframwaith IASB) fel y'i dehonglir gan y Cod. Mae Fframwaith yr IASB yn nodi'r cysyniadau sy'n sylfaen i'r gwaith o baratoi a chyflwyno datganiadau ariannol ar gyfer defnyddwyr allanol y cyfrifon. Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn parhau i ddilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Datganiad Cyfrifon**
Mae Datganiad o Gyfrifon Grŵp y PCC a'r Comisiynydd un endid ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2021, yn unol â'r Cod yn y Deyrnas Unedig 2020/21, yn cynnwys:

- **Adroddiad Naratif** – sy'n cynnwys cyflwyniad i'r Datganiad o Gyfrifon ac yn amlygu materion arwyddocaol a nodwyd yn y Cyfrifon;

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol –** sy'n cadarnhau barn yr archwilydd ynglŷn ag a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiynydd a'r Grŵp, a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod;

- **Datganiad o Gyfrifoldebau** - sy'n nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon;

- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** – sef datganiad ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, sy'n disgrifio sut mae'r system o reolaeth fewnol wedi sicrhau bod eu swyddogaethau wedi cael eu cyflawni mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol yn ystod y flwyddyn;

- **Datganiadau Ariannol:**

  - **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES**) – Mae hwn yn dangos cost gyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth Heddlu a Chomisiynu yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) yn hytrach na'r swm a ariennir o grantiau a threthi'r Llywodraeth;

  - **Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** - Mae hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn o'r gwahanol fathau o gronfeydd wrth gefn ac arian ymrwymedig a gedwir gan y Comisiynydd ac mae'n darparu cysoniad rhwng y cyllid a'r gost o ddarparu gwasanaethau a nodwyd yn y CIES;

- **Mantolen** – Mae hon yn dangos gwerth asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn (gwerth net) y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2021;

- **Datganiad Llif Arian Parod** – Mae hwn yn crynhoi'r newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae llif arian parod wedi'i gategoreiddio'n weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido;

- **Cyfrif Pensiynau'r Heddlu** - Mae hwn yn darparu gwybodaeth am drafodion ariannol Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu. Yn ôl deddfwriaeth (Rheoliadau Cronfeydd Pensiwn yr Heddlu 2007), mae'n rhaid i bob Prif Gwnstabl unigol weithredu Cronfa Bensiwn gan ddefnyddio arian a ddarparwyd gan y Comisiynydd; a

- **Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol** – Mae'r rhain yn darparu dadansoddiad ac esboniadau pellach o eitemau incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn o fewn y prif ddatganiadau cyfrifyddu a nodir uchod. Mae'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid. Mae hyn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r Llywodraeth, y dreth gyngor ac ardrethi busnes). Hefyd, mae'n dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Grŵp y PCC, y Prif Gwnstabl a gwasanaethau/adrannau cysylltiedig.

**Perfformiad Ariannol Grŵp y PCC**

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi trosolwg o sefyllfa ariannol a pherfformiad Heddlu Gwent ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021.

**Incwm a Gwariant Refeniw**

Cymeradwywyd y gofyniad cyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn, sef £138.991 miliwn, gan y Comisiynydd ar 6 Mawrth 2020. Ar ôl ystyried Grant Fformiwla'r Swyddfa Gartref gwerth £46.749 miliwn, y Grant Cynnal Refeniw gwerth £21.828 miliwn a'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol gwerth £9.873 miliwn, y swm i'w gasglu o'r Dreth Gyngor oedd £60.541 miliwn. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r hyn y gwariwyd yr arian hwn arno a sut y cafodd ei ariannu yn ystod y flwyddyn.

| | **2020/21 %** | **2020/21 £m** | **2019/20 £m** |
|---|---|---|---|
| Costau swyddogion yr heddlu a staff gan gynnwys pensiynau | 77 | 131.0 | 124.0 |
| Costau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau (adeiladau, cludiant, cyflenwadau a gwasanaethau, gwasanaethau asiantaeth a chontract) | 23 | 37.6 | 40.4 |
| Costau gwasanaeth eraill (dibrisiant, gwariant cyfalaf nad yw'n gwella) | 0 | 0.6 | 0.6 |
| **Gwariant Gros y Gwasanaethau** | **100** | **169.2** | **165.0** |
| Llai: grantiau ac incwm | | (14.8) | (14.2) |
| **Cost Net Gwasanaethau Plismona** | | **154.4** | **150.8** |
| Addasiadau cyfrifyddu (pensiynau, dibrisiant, symudiadau cronfeydd wrth gefn y Gronfa Gyffredinol) | | (15.4) | (21.8) |
| **Gofyniad Cyllideb** | | **139.0** | **129.0** |
| | | | |
| Grantiau Llywodraeth heb eu neilltuo | 49 | 68.6 | 63.1 |
| Incwm o Ardrethi Annomestig | 8 | 9.9 | 9.9 |
| Y Dreth Gyngor | 43 | 60.5 | 56.0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **100** | **139.0** | **129.0** |

Mae dadansoddiad pellach o sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu i'w weld yn y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yn y Datganiadau Ariannol.

Deilliodd yr arbedion o'r arbedion rheolaidd a ragwelwyd trwy gyflymu cynlluniau effeithlonrwydd trwy gyfrwng Rhaglen Gwella Gwasanaethau'r Heddlu a lleihau gwariant yn erbyn cyllidebau a arweinir gan alw. Trosglwyddwyd hyn i Gronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio. Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl y trosglwyddiadau hyn oedd £41.807 miliwn (£46.107 miliwn yn 2019/20). Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio yw'r Gronfa Gyffredinol a'r cronfeydd ymrwymedig eraill a neilltuir o'r Gronfa Gyffredinol er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol, er enghraifft disodli Pencadlys presennol yr Heddlu. Mae Nodyn 9 i'r Datganiadau Ariannol yn darparu mwy o wybodaeth am hyn.

**Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf**
Yn ystod 2020/21, cyfanswm y gwariant cyfalaf oedd £16.0 miliwn yn erbyn cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £26.4 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli arian a gafodd ei wario at ddibenion prynu, uwchraddio a gwella asedau fel eiddo, cerbydau a chyfrifiaduron, cyfathrebu a chyfarpar. Ariannwyd gwariant cyfalaf gan gronfeydd wrth gefn, grant penodol, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw, fel y nodir yn y crynodeb isod:

| | 2020/21 % | 2020/21 £m | 2019/20 £m |
|---|---|---|---|
| Tir ac adeiladau | 1 | 0.1 | 0.0 |
| Cerbydau, peiriannau, dodrefn a chyfarpar | 11 | 1.7 | 2.4 |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 88 | 14.1 | 2.9 |
| Asedau anniriaethol | 1 | 0.1 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **100** | **16.0** | **5.5** |

Mae'r gwaith parhaus yn gysylltiedig yn bennaf â chodi adeilad pencadlys newydd a'r adleoli cysylltiedig a fydd yn dod i ben mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol. Mae'r cyllid ar gyfer y prosiectau hyn yn sylweddol ac mae'r cyllid ar gyfer y rhain wedi'i gynnwys mewn Cronfeydd Cyfalaf a glustnodwyd.

**Mantolen**
Mae'r tabl isod yn grynodeb o fantolen Grŵp y PCC ar 31 Mawrth 2021 Mae'n crynhoi asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn y Grŵp.

| | 2020/21 £m | 2019/20 £m |
|---|---|---|
| Asedau diriaethol (Eiddo, cerbydau, peiriannau a chyfarpar) | 47.3 | 34.6 |
| Asedau anniriaethol (Meddalwedd gyfrifiadurol) | 0.2 | 0.4 |
| Asedau wedi'u cadw i'w gwerthu a dyledwyr hirdymor | 0.2 | 0.0 |
| Stociau | 0.5 | 0.5 |
| Dyledwyr (arian sy'n ddyledus i Heddlu Gwent) | 14.1 | 11.6 |
| Credydwyr (arian sy'n ddyledus gan Heddlu Gwent) | (15.2) | (13.8) |
| Buddsoddiadau ac adneuon dros dro | 36.1 | 41.6 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 6.2 | 5.8 |
| Darpariaethau | (1.5) | (1.4) |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | (1,685.5) | (1,447.5) |
| Llai: Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio | 1,639.8 | 1,599.3 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau** | **42.2** | **46.1** |
| **Ariannwyd gan:** | | |
| Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio | (42.2) | (46.1) |
| | **(42.2)** | **(46.1)** |

**Benthyca Cyfalaf ac Ad-dalu Dyledion**

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd mewn perthynas â gwariant cyfalaf wedi'i gymeradwyo yn ystod y flwyddyn ac yn dilyn ad-dalu pob benthyciad yn y blynyddoedd ariannol blaenorol, nid oedd unrhyw ddyledion benthyciad ar 31 Mawrth 2021.

Yn 2005/6 ymrwymodd Grŵp y PCC i gontract hirdymor o dan y PFI, lle'r oedd y contractwr yn gyfrifol am ddylunio, adeiladu, ariannu a chynnal a chadw uned y ddalfa 31 cell a gorsaf Heddlu yn Ystrad Mynach. O ganlyniad, daeth y contract PFI i ben ar 31 Ionawr 2020, ac felly nid oes unrhyw rwymedigaethau na thaliadau pellach ar ôl y dyddiad hwn.

**Rhwymedigaeth pensiynau**

Mae'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Swyddogion yr Heddlu yn gynllun heb ei ariannu. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cyfrifo rhwymedigaeth bosibl cynlluniau'r Heddlu yn seiliedig ar adolygiad actiwaraidd, gan ddefnyddio data pensiwn a chyflogres.
O safbwynt Staff yr Heddlu, mae Heddlu Gwent yn gorff sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen), sy'n gynllun a ariennir.

Mesurir effaith y cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun o ganlyniad i ddyfarniad McCloud/Sargeant ar sail hawliadau o wahaniaethu anghyfereithlon yn deillio o Ddarpariaethau Trosiannol Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015 trwy'r broses o brisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig. Bwriedir cynnal prisiad nesaf Pensiwn yr Heddlu yn 2020 gan weithredu'r canlyniadau yn 2023/24. Caiff effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniad achos McCloud / Sargeant ei phennu trwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gynnal cronfa bensiwn yr heddlu sy'n derbyn cyfraniadau gan swyddogion a'r cyflogwr ac yn gwneud taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr heddlu ddigon o arian i dalu costau pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd y swm sy'n ofynnol i dalu'r diffyg yn cael ei dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Comisiynydd ar ffurf grant atodol gan y Llywodraeth ganolog. Mae'r amcan o effaith dyfarniad McCloud/Sargeant wedi cael ei adlewyrchu yn y costau gwasanaeth yn y gorffennol, rhwymedigaethau tybiannol y cynllun a datgeliadau IAS19 y ddau gynllun pensiwn ar gyfer 2019/20 a 2020/21.

Mae'r amcan o rwymedigaethau net ar gyfer y ddau gynllun wedi codi yn ystod y flwyddyn o £1,447.5 miliwn i £1,670.4 miliwn, cynnydd o 15.4%, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd a dyfarniad McCloud/Sargeant. Nid yw'r colledion neu enillion net nas gwireddwyd ar y ddau gynllun yn cael effaith uniongyrchol ar gost gwasanaethau yn y datganiad cynhwysfawr o incwm a gwariant a chydnabyddir y rhwymedigaeth dybiannol yn y fantolen yn unig.

Yn dilyn ail brisiad o bensiynau'r sector cyhoeddus, mae heddluoedd yn wynebu cynnydd mewn costau pensiynau swyddogion heddlu o ryw £330 miliwn y flwyddyn o 2019/20 ymlaen. Fel rhan o Brisiad Pensiwn 2016, mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi 'Cyfarwyddiadau' Prisio Pensiynau Sector Cyhoeddus, gyda'r nod o gynyddu Cyfraniadau'r Cyflogwr o 2019/20 ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Sector Cyhoeddus (gan gynnwys Cynllun Pensiwn yr Heddlu). Y prif newid yw'r gostyngiad i'r 'gyfradd ddisgownt', a ddefnyddir i drosi taliadau pensiwn y dyfodol i werth taliadau pensiwn heddiw. Mae'r gyfradd yn adlewyrchu barn Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am y rhagolwg economaidd cenedlaethol a oedd, yn ei dro, yn adlewyrchu cyfnod arbennig o ansicr cyn Brexit. Ar y pryd roedd diffyg cyffredinol o arian gan y Llywodraeth o ryw £13 miliwn yn genedlaethol. Fodd bynnag, gan fod swyddogion a staff heddlu wedi derbyn dyfarniad cyflog 2.5% ym Medi 2020, a gan fod nifer sylweddol o swyddogion Heddlu Gwent yn newydd i'r Gwasanaeth Heddlu ac felly'n derbyn cyflog cynyddrannol, mae'r diffyg amcangyfrifedig yn y pensiwn (gan gymryd grant pensiwn arian gwastad) wedi codi £1.098 i £1.703 miliwn ar gyfer 2021/22. Bydd y diffyg hwn yn cael ei dalu o gyfraniad o gronfeydd wrth gefn ac arian wedi'i neilltuo ac nid o Braesept Y Dreth Gyngor. Rydym wedi cymryd yn y rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd i ddod y bydd y Pensiwn Grant Penodol yn cael ei ddarparu'n rheolaidd i dalu'r costau pensiwn rheolaidd, ond nid oes sicrwydd o hyn eto.

**Edrych Ymlaen**

Ers 2010/11, yn dilyn yr argyfwng economaidd byd-eang a rhaglen gyni gysylltiedig y Llywodraeth, cafwyd effaith ddigynsail ar blismona gan fod y Swyddfa Gartref yn un o adrannau'r Llywodraeth na ddiogelwyd eu cyllidebau yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad, cafwyd y gostyngiad unigol mwyaf mewn cenhedlaeth yng nghyllid y Llywodraeth ganolog ar gyfer plismona. Yn gefnlen i hyn, bu Heddlu Gwent yn rhagweithiol wrth ymateb i raglen gyni'r Llywodraeth trwy lunio'r Rhaglen Aros ar y Blaen. Dechreuwyd y rhaglen gan yr Heddlu i fynd i'r afael â gofynion effeithlonrwydd, gyda'i ethos isorweddol i i wella ei wasanaeth trwy newid trawsnewidiol, i fodloni galw presennol ac yn y dyfodol a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Hyd at ddiwedd 2020/21 felly, mae Heddlu Gwent wedi sicrhau arbedion cylchol cronnol y gellir eu troi yn arian parod gwerth £52.075 miliwn. Cyflawnwyd hyn diolch i lwyddiant parhaol Rhaglen Aros ar y Blaen; sydd wedi dod yn fusnes craidd yr Heddlu o fewn yr Adran Strategaeth, Perfformiad a Newid dros y blynyddoedd diwethaf. Hefyd, mae Proffiliau Gwerth am Arian Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) yn ddull allweddol o nodi meysydd posibl ar gyfer cyfleoedd cynlluniau arbed arian.

Yn ogystal â'r uchod, mae ansicrwydd Brexit ers 2016 wedi golygu heriau ariannol ychwanegol; gyda chyllid y Llywodraeth yn cael ei roi o'r naill du ar gyfer senarios Brexit heb gytundeb; ansicrwydd y farchnad yn cynyddu costau pensiwn yn y tymor byr i'r tymor canolig; a chost chwyddiant yn cynyddu cyllidebau ar gyfer gwaith adeiladu a buddsoddiadau TGCh. Mae'r ddwy her olaf wedi ychwanegu miliynau o bunnau o bwysau ariannol at gyllidebau plismona yng Ngwent.

Wrth bennu cyllideb 2021/22, cafwyd ansicrwydd sylweddol pellach:

- Roedd yr Etholiad Cyffredinol yn golygu bod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2019 disgwyliedig (a fyddai wedi pennu cyllidebau adrannau'r Llywodraeth am y tair i'r pum blynedd nesaf o 2020/21) wedi ei ohirio tan fis Gorffennaf 2020. Cyhoeddwyd 'Cylch Gwariant' am flwyddyn a arweiniodd at gynnydd 6.3% i gyllideb y Swyddfa Gartref mewn termau real rhwng 2019/20 a 2020/21. Fodd bynnag, ers dechrau mis Ionawr 2020 mae effaith economaidd byd-eang y pandemig Coronafeirws (Covid-19) wedi amlygu a gohiriwyd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant unwaith eto. Cyhoeddwyd cylch gwariant am flwyddyn arall ym mis Tachwedd 2020, gan arwain at gynnydd 4.9% pellach mewn termau real i gyllideb y Swyddfa Gartref;

- Gohiriwyd adolygiad y Swyddfa Gartref o Fformiwla Ariannu'r Heddlu ymhellach gan effaith ddilynol gohirio'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. I roi'r cefndir, ar ôl i'r Swyddfa Gartref bennu maint cyffredinol y gyllideb blismona (trwy'r broses Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant/Cylch Gwariant), mae Fformiwla Ariannu'r Heddlu yn pennu lefel y cyllid a ddarperir i

bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'n hysbys bod y fformiwla bresennol yn hen, yn rhy gymhleth, yn anodd ei deall a bod angen ei hadolygu. Ar ôl gohirio'r broses adolygu yn ystod hanner olaf 2015, roedd yr adolygiad yn ôl ar y trywydd iawn yn fuan wedyn, a'r bwriad oedd cyflwyno'r canfyddiadau erbyn mis Chwefror/Mawrth 2017, a'u gweithredu yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Fodd bynnag, credir bod goblygiadau sylweddol trafodaethau Brexit, canlyniad Etholiad Cyffredinol byr rybudd mis Mehefin 2017 (a'r un dilynol ym mis Rhagfyr 2019); a'r cynnydd sylweddol yn y bygythiad o derfysgaeth wedi gohirio'r broses o weithredu'r canfyddiadau. Gan fod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant arfaethedig ar gyfer 2019 a 2020 wedi cael eu trosi'n gylch gwariant am flwyddyn, a gan nad oes unrhyw ddiweddariadau pellach ar gael, disgwylir unwaith y bydd y gwaith yn ail ddechrau yn ystod 2021 yn rhan o Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant posibl ar gyfer 2021 (yn dilyn ymgynghoriad llawn gydol 2022/23), rhagdybir na fydd unrhyw effaith i'w weld tan flwyddyn ariannol 2023/24;

- Ar 25 Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Canghellor ganlyniad cylch gwariant 2020, gan amlinellu cyfanswm gwariant cyhoeddus ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 yn unig. Hwn oedd cylch gwariant cyntaf y Canghellor ers iddo olynu'r Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS ym mis Chwefror 2020. Yn ystod ei araith, dywedodd y Canghellor fod cylch gwariant 2020 yn "Fuddsoddiad unigryw mewn seilwaith creu swyddi, yn dilyn y dirywiad economaidd mwyaf mewn dros 300 o flynyddoedd." Cyn y cyhoeddiad, disgwyliwyd efallai y byddai'r Canghellor yn cyfyngu ymhellach ar gyflogau sector cyhoeddus o ystyried y cefndir ariannol heriol. Yn ystod haf 2020, awgrymodd y Canghellor gan fod cyflogau sector preifat wedi dioddef ergyd drom, y dylai gweithwyr sector cyhoeddus rannu'r baich "er mwyn tegwch". Fodd bynnag, o ystyried bod cyflogau sector cyhoeddus wedi cwympo i'w lefel isaf mewn degawdau o'u cymharu â chyflogau sector preifat, roedd yn hysbys y byddai undebau a gweithwyr sector cyhoeddus yn gwrthwynebu'r fath gyhoeddiad yn chwyrn. At hynny, disgwyliwyd cyhoeddiadau seilwaith a gwariant 'gwyrdd' ynghyd â ffocws gan y Llywodraeth ar ei agenda Codi'r Gwastraff (Northern Powerhouse, Midlands Engine ac ati). Gan ragweld hyn, o ystyried yr amddiffyniadau a roddwyd eisoes i'r GIG, Addysg ac Amddiffyn, disgwyliwyd y byddai gwasanaethau heb eu hamddiffyn gan gynnwys llywodraeth leol a charchardai mewn llawer mwy o berygl o wynebu toriadau; ac

Ynghyd â'r Adolygiad o Wariant ym mis Tachwedd 2020, rhyddhaodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol. Mae'r Rhagolwg Economaidd a Chyllidol yn pwysleisio'r effaith sylweddol mae Covid-19 wedi ei gael ar economi'r DU ac oherwydd ansicrwydd yr effaith, cyflwynodd dair senario. Yn seiliedig ar y senario ganolog (lle mae angen cadw mesurau iechyd cyhoeddus cyfyngol nes y gwanwyn a phan fydd brechlynnau'n cael eu cyflwyno'n fwy araf, gan arwain at ddychweliad arafach at lefelau gweithgarwch cyn y feirws ar ddiwedd 2022) nodwyd mai'r prif effeithiau ar wariant economaidd a chyhoeddus oedd:

- Yn ystod y don gyntaf o heintiadau, aeth y DU i gyfyngiadau symud yn hwyrach ac am gyfnod hwy na rhai o'i chymdogion Ewropeaidd a phrofi cwymp dyfnach ac adferiad arafach mewn gweithgarwch economaidd. Mae ton newydd o heintiadau i'w gweld ar draws Ewrop a Gogledd America yn awr, gan arwain at dynhau cyfyngiadau iechyd cyhoeddus ac ail orfodi cyfyngiadau symud cenedlaethol gan fynd â'r gwynt o hwyliau adferiad a oedd eisoes yn gwywo. Mae hyn yn cynnwys y DU, lle (yn seiliedig ar senario ganolog y Rhagolwg Economaidd a Chyllidol) y disgwylir i'r Cynnyrch Domestig Gros gwympo 11% eleni - y cwymp mwyaf mewn cynnyrch blynyddol ers Rhew Mawr 1709, cyn dechrau tyfu eto yn 2021. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i'r economi ddychwelyd at lefelau cyn yr argyfwng nes diwedd 2022; gyda difrod hirdymor yn golygu yn 2025 bydd yr economi rhyw 3% yn waeth na'r hyn a ddisgwyliwyd cyn Covid-19.
- Mae'r feirws wedi gwneud difrod sylweddol a chynyddol i gyllid cyhoeddus hefyd. Yn y rhagolwg canolog, disgwylir i dderbyniadau eleni fod £57 biliwn yn is, a gwariant £281 biliwn yn uwch, na'r llynedd. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo symiau anferth i drin y bobl sydd wedi'u heintio; rheoli lledaeniad y feirws; A lleddfu ei effaith ariannol ar gartrefi a busnesau. Wrth i'r cymorth ehangu ac ymestyn, gan gynnwys o ganlyniad i'r ail don o heintiadau, mae cyfanswm y gost eleni wedi codi o £181 biliwn adeg Diweddariad Economaidd yr Haf, i £218 biliwn adeg Cynllun Economi'r Gaeaf, i £280 biliwn yn rhagolwg mis Tachwedd.
- Disgwylir i chwyddiant aros yn isel dros y tair blynedd nesaf, gan ddychwelyd at y targed 2% erbyn diwedd 2024.
- Yn wahanol i ddirwasgiadau blaenorol, mae'r gyfran fwyaf o gost gyllidol Covid-19 yn codi o ymateb polisi dewisol y Llywodraeth yn hytrach na'r ergyd i'r economi a achoswyd gan y feirws. O'r adolygiad benthyca ar i fyny o £339 biliwn rhwng rhagolygon canolog mis Mawrth a mis Tachwedd, mae oddeutu tri chwarter oherwydd mesurau polisi (yn benodol gwariant ychwanegol ar y GIG a'r cynllun ffyrlo) ac mae'r gweddill oherwydd llai o weithgarwch economaidd (yn bennaf oherwydd derbyniadau treth is). At hynny, mae'r cysylltiad rhwng cyfyngiadau iechyd cyhoeddus a'r lefelau cefnogaeth a gynigiwyd i weithwyr a busnesau yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli'r feirws er mwyn ffrwyno cost tymor hirach Covid-19.
- Yn olaf, ac yn fwyaf difrifol i'r Gwasanaeth Plismona, mae dadansoddiad Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn awgrymu'n rhesymegol y bydd heriau v(C)SR wrth bennu cyllidebau ar gyfer 2022/23 a thu hwnt. Gyda chyllid wedi'i flaenoriaethu wedi cael ei neilltuo eisoes ar gyfer gwariant Iechyd, Addysg ac Amddiffyn, gallai gwariant ar wasanaethau cyhoeddus eraill fod £9 biliwn yn is mewn cymhariaeth â chyfansymiau 2021/22. Byddai hyn yn awgrymu bod gwariant ar wasanaethau cyhoeddus megis yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub a llywodraeth leol yn debygol o fod yn ddisymud ar y cyfan yn nhermau real fesul pen o'r boblogaeth yn 2022/23.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd (a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Datganiad Cyfrifon hwn) yn rhoi mwy o fanylion am ddull Heddlu Gwent o ymdrin â'r pandemig; y costau uniongyrchol diweddaraf; a'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i ddysgu yn sgil yr argyfwng hwn.

Fodd bynnag, yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr 2020; pandemig Covid-19; a'r Swyddfa Gartref yn darparu'r modd ariannol i gwrdd ag addewid y Prif Weinidog i recriwtio 20,000 yn fwy o swyddogion heddlu erbyn Mawrth 2023, roedd buddsoddiad a'r sefydlogrwydd ariannol cysylltiedig mewn plismona yn edrych yn fwy cadarnhaol nag yr oedd ers degawd. Dechreuodd cynlluniau go iawn i recriwtio swyddogion heddlu tua diwedd 2019/20 a dechrau 2020/21 ac, yn bwysig, darparwyd cyllid ychwanegol ar gyfer y seilwaith cysylltiedig yr oedd ei angen i wneud y swyddogion heddlu newydd hynny mor effeithiol â phosibl.

Ym mis Chwefror 2021, ar ddiwedd rownd pennu cyllideb 2021/22, er gwaethaf y problemau uchod, roedd y dyfodol ariannol ar gyfer plismona yng Ngwent yn edrych yn gadarnhaol. Roedd Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig 2021/22 yn cynnwys y cyfnod pum mlynedd at 2025/26 yn nodi'r gyllideb yr oedd gofyn amdani a'r cyllid ar gael. Gan gymryd bod arbedion pellach o £0.676 miliwn yn cael eu cyflawni yn 2021/22, roedd y Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig yn cyflwyno cyllideb wedi mantoli ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Dros gyfnod pum mlynedd y Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig, ceir ansicrwydd lleol ychwanegol, gan gynnwys y twf yng nghostau seilwaith TGCh cenedlaethol yn y dyfodol; effaith Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru yng Ngwesty'r Celtic Manor ar blismona; a chyllido Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu. Ar ôl myfyrio ar Setliad Terfynol 2021/22; effaith amcangyfrifedig Adolygiad o Wariant Cynhwysfawr 2020; Brexit, a'r adolygiad o Fformiwla Ariannu'r Heddlu; a phwysau cyllid ychwanegol, rhagwelwyd mai'r diffyg cyllid cylchol ar gyfer 2025/26 fyddai £7.341 miliwn. O ganlyniad roedd arbedion pellach wedi cael eu targedu, gan arwain at ddiffyg cyllid net ar ôl arbedion o £3.563 miliwn erbyn 2025/26.

Mae'r pwysau a'r datblygiadau gwasanaeth hyn yn gyson â'r rhai a nodwyd ar gyfer blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd 2017-2021 ac yn y Gofyniad Plismona Strategol. Mae'r meysydd ffocws a buddsoddi hyn yn adeiladu ar 'Strategaeth Fuddsoddi' yr Heddlu, a ymgorfforwyd yng nghylch pennu cyllideb 2017/18 ac sydd wedi ennill momentwm sylweddol yn ystod blynyddoedd ariannol 2017/18, 2018/19 a 2019/20. Yn benodol, roedd yr Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig yn ceisio:

- Cyflawni chwe maes Gweledigaeth Plismona 2025, sy'n cyflwyno gweledigaeth ar gyfer plismona dros y pum mlynedd nesaf, gan lywio penderfyniadau ynglŷn â sut mae heddluoedd yn defnyddio adnoddau i gadw pobl yn ddiogel. Y chwe maes yw teilwra plismona lleol i ddiwallu anghenion y gymuned; gwella galluoedd arbenigol; datblygu sgiliau ac amrywiaeth y gweithlu; plismona digidol; galluogi cyflenwi busnes; a sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd clir;
- Gwella ansawdd y gwasanaeth a sicrhau arbedion effeithlonrwydd;
- Rheoli tirwedd sy'n newid – mae troseddu'n cynyddu ac yn mynd yn fwy cymhleth; mae newid technolegol yn cyflymu; mae bygythiadau terfysgaeth yn cynyddu; ac mae llai o arian ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus;
- Blaenoriaethu a chanolbwyntio ar Fygythiad, Risg a Niwed;
- Mynd i'r afael â'r galw cynyddol ym meysydd Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a phobl agored i niwed, a darparu gwasanaethau arloesol i nodi a chefnogi pobl agored i niwed; a
- Datblygu gwaith cydweithredol i ateb y galw, gwella systemau, a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Mae'n amlwg, ar yr union adeg pan oedd plismona'n teimlo ei fod yn rhydd rhag cyni'r deng mlynedd diwethaf a bod buddsoddiad mewn plismona'n cael ei ystyried unwaith eto, bod Heddlu Gwent yn wynebu cyfnod sylweddol o ansicrwydd ariannol yn awr. Serch hynny, mae gan Heddlu Gwent hanes cadarn o weithredu o fewn cyfyngiadau ariannol ac felly bydd yn parhau i reoli lleihad mewn cyllid mewn termau real gan y Llywodraeth a chyhoedd Gwent, trwy gydol cyfnod y Rhagamcan Ariannol Tymor Canolig. Bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno cenhedlaeth newydd o gynlluniau arbedion a chynnal amserlen fanwl o waith cynlluniedig i adolygu swyddogaethau ac adrannau; wedi'i gydbwyso yn erbyn anghenion plismona gweithredol Gwent.

**Llofnod:**

**Darren Garwood-Pask FCCA**
**Prif Swyddog Cyllid**
**Dyddiad: 28 Gorffennaf 2021**

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

**Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

**Barn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent;
- Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent; a
- Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn cynnwys y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, y Datganiad am Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig.
Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn cynnwys y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp a Datganiad Llif Arian y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:
- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent; Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent; a Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent ar 31 Mawrth 2021 ac o'u hincwm a'u gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

**Sylfaen ar gyfer barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn wedi'u disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gronfa Bensiwn ap yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi dod o hyd iddi yn ddigonol ac yn briodol i roi sylfaen i'm barn.

**Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd i chi, lle:
- nad yw'n briodol defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent neu Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent i barhau i fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Naratif a'r cyfrifon.  Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Naratif ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ynglŷn â hynny.

Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn anghywir sy'n seiliedig ar, neu'n anghyson â'r wybodaeth y des o hyd iddi wrth gwblhau'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

**Adroddiad ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21;
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Ar sail y wybodaeth a'r ddealltwriaeth yn ymwneud â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent, Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent a Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent, a'u hamgylchedd, a amlygwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn cyflwyno adroddiad i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu cywir wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, gan gynnwys datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gwent, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am waith rheoli mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol er mwyn gallu paratoi datganiadau o gyfrifon nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a Grŵp Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo angen, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu, oni bai y bernir bod hynny'n amhriodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, naill ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu'n gyfanredol, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n cael eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 30 Gorffennaf 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
F11 9LJ

*Cyfrifoldeb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yw cynnal a chadw ac uniondeb ei wefan; nid yw'r gwaith a gyflawnwyd gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan am y tro cyntaf.*

## Datganiad o Gyfrifoldebau

Diben y datganiad hwn yw nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r Prif Swyddog Cyllid mewn perthynas â'r Datganiad o Gyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Comisiynydd**

Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd:

(i) Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny, sef y Swyddog Adran 151 (yn unol â'r statud);

(ii) Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau; a

(iii) Chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Cymeradwyaf y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21

**Llofnod:**

**Jeff Cuthbert**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent**
**Dyddiad: 28 Gorffennaf 2021**

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) yn gyfrifol am baratoi'r Datganiad o Gyfrifon yn unol ag arferion priodol fel y'u nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain (y Cod Ymarfer).

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

(i) Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;

(ii) Llunio barn ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddoeth; a

(iii) Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Hefyd, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

(i) Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol; a

(ii) Chymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Ardystiaf fod y Datganiad o Gyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2020 ac o'i incwm a'i wariant am y cyfnod a ddaeth i ben bryd hynny.

**Llofnod:**
(Swyddog Arian Cyfrifol)

**Dyddiad: 28 Mai 2021**
**Darren Garwood-Pask FCCA**
**Prif Swyddog Cyllid**

**Llofnod:**
(cyn cymeradwyaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu)

**Dyddiad: 28 Gorffennaf 2021**
**Darren Garwood-Pask FCCA**
**Prif Swyddog Cyllid**

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a Phrif Gwnstabl Gwent

**CYFLWYNIAD**

Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yw egluro sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Gwent wedi cydymffurfio â'u Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd (MoCG) yn ystod 2020/21 ac yn benodol, Cod Llywodraethu Corfforaethol y Llawlyfr.

I'r perwyl hwn, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i ysgrifennu mewn dwy ran. Mae rhan un yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu ar waith yn ystod 2020/21. Mae rhan dau yn adrodd ar yr adolygiad o effeithiolrwydd a chanlyniadau'r trefniadau hyn.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn asesu'r trefniadau llywodraethu ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, felly bydd y cyfnod asesu cyfan yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r pandemig Coronafeirws. At hynny, dylai casgliad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynghylch a yw'r trefniadau llywodraethu'n addas i'r diben, adlewyrchu gweithrediadau arferol ar y cyfan. Fodd bynnag, gan fod rhaid i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fod yn gyfredol pan gaiff ei gyhoeddi (fel arfer ar 31 Gorffennaf ond mae'n bosibl y caiff ei oedi o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws), bydd unrhyw effaith ar y trefniadau llywodraethu o 1 Ebrill 2021 nes y dyddiad cyhoeddi'n cael ei adlewyrchu.

**RHAN 1**

**Cwmpas y Cyfrifoldebau**

Mae trefniadau llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi'u cynllunio i sicrhau atebolrwydd priodol a chynorthwyo arweinyddiaeth effeithiol. Creodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 ddwy ‘gorfforaeth undyn' ar wahân ym mhob heddlu: y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae gan y naill a’r llall rolau a chyfrifoldebau clir ac ar wahân sydd wedi’u nodi mewn statud.

Swyddogaethau statudol craidd y Comisiynydd yw sicrhau bod yr heddlu yn cael ei gynnal; sicrhau bod yr heddlu yn effeithlon ac yn effeithiol; a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am arfer ei swyddogaethau a swyddogaethau personau sydd o dan ei chyfarwyddyd a'i rheolaeth. Hefyd, mae gan y Comisiynydd:

- Gyfrifoldeb am sicrhau diogelwch cymunedol a lleihau troseddu;
- Y gallu i roi grantiau lleihau troseddu ac anhrefn o fewn ardal yr heddlu;
- Dyletswydd i sicrhau bod pob cytundeb cydweithio gyda Chomisiynwyr a heddluoedd eraill yn sicrhau gwell gwerth am arian neu'n gwella effeithiolrwydd galluoedd a chydnerthedd plismona; a
- Chyfrifoldeb ehangach am wella gwaith cyfiawnder troseddol yn lleol.

Un o nodweddion cyffredinol y swyddogaethau hyn yw cyfrifoldeb am sicrhau bod busnes yn cael ei gwblhau yn unol â'r gyfraith a safonau priodol; bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano; a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabl yn cael ei diogelu mewn deddfwriaeth. Mae ganddi gyfrifoldeb statudol am reoli, cyfarwyddo a chyflenwi gwasanaethau plismona gweithredol a ddarperir gan yr heddlu. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am sicrhau bod pwerau'r heddlu yn cael eu harfer yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, ac mae’n atebol i'r Comisiynydd am ddarparu plismona effeithiol ac effeithlon; rheoli adnoddau; a gwariant yr heddlu.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu materion a hwyluso'r broses o arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod system reolaeth fewnol gadarn yn cael ei chynnal gydol y flwyddyn a bod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli risg.

Mae'r trefniadau rheoli ariannol yn cydymffurfio'n bennaf â gofynion llywodraethu *Datganiad ar Rôl Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a *Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Cymru a Lloegr (fersiwn newydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018)* y Swyddfa Gartref. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar gyfer ‘Sicrhau Llywodraethu Da' ar gyfer Cyrff Plismona gan CIPFA ym mis Gorffennaf 2016, ac ychwanegwyd atynt gan ganllawiau ym mis Chwefror 2021 'Defnyddio'r Fframwaith Llywodraethu Da 2020/21', mewn ymateb i effaith parhaol pandemig Coronafeirws ar lywodraethu. Mae Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (Cod Rheolaeth Ariannol) yn rhoi canllawiau ar gyfer rheolaeth ariannol dda a chynaliadwy mewn awdurdodau lleol (gan gynnwys yr heddlu) hefyd, a bydd yn rhoi sicrwydd bod awdurdodau'n rheoli adnoddau'n effeithiol. 2021/22 yw'r flwyddyn lawn gyntaf ar gyfer cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol, ond mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod y bydd angen amser ar eu sefydliadau i fyfyrio ar gynnwys y Cod Rheolaeth Ariannol a byddant yn defnyddio 2020/21 i ddangos sut maent yn gweithio i gydymffurfio. Gan hynny mae trefniadau llywodraethu rheolaeth ariannol cyfredol ac ar gyfer y dyfodol wedi cael eu hystyried, wrth adolygu ein trefniadau llywodraethu ac wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd sy'n gorfod ategu'r Datganiad o Gyfrifon.

Dyma'r trydydd tro i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl lunio un Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd. Mae llawer o'r fframwaith llywodraethu yn cael ei rannu, ond mae'r Datganiad hwn yn amlygu'r ychydig feysydd lle mae trefniadau llywodraethu yn wahanol.

**Diben y Fframwaith Llywodraethu**

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn eu defnyddio i gyfarwyddo a rheoli eu gweithgareddau, ymgysylltu â'r gymuned a bod yn atebol iddi. Mae'r fframwaith yn eu galluogi i ddylanwadu ar y gwaith o gyflawni amcanion Plismona a Lleihau Troseddu strategol, a'u monitro, ac ystyried a yw'r amcanion hyn wedi cyflawni Cynllun yr Heddlu a Throseddu mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Mae'r system reoli fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwn ac mae wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol a rhagweladwy. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; mae'n gallu darparu sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd yn unig.

Mae'r system reoli fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i:

- Nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion;
- Gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hyn eu gwireddu a'r effaith pe caent eu gwireddu; a
- Rheoli risgiau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus.

Caiff canfyddiadau'r adolygiad o'r system reoli fewnol eu hadolygu gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u hadolygu'n annibynnol gan y Cydbwyllgor Archwilio.

Bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r MoCG ac i'r fframwaith yn ffurfiol bob blwyddyn fel rhan o'r adolygiad llywodraethu.

**Egwyddorion Llywodraethu Da**

Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fabwysiadu a chydymffurfio ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Hefyd, mae'n amlygu'r disgwyliad y bydd y berthynas rhwng yr holl bartïon yn seiliedig ar egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, didwylledd ac ymddiriedaeth.

Adlewyrchir hyn yn y ddogfen Egwyddorion Perthynas y cytunwyd arni gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n rhan o'u MoCG.

Hefyd, mae'r MoCG yn gyson â saith egwyddor graidd llywodraethu da a nodir yn y Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus[1]: -

1. *Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith;*
2. *Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid;*
3. *Diffinio canlyniadau o safbwynt manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;*
4. *Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig;*
5. *Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo;*
6. *Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref;*
7. *Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.*

Cyflwynodd y Cod Moeseg a gyhoeddwyd gan y Coleg Plismona ddwy egwyddor ychwanegol i saith egwyddor Nolan: Tegwch a Pharch (gweler Egwyddorion 'estynedig' Nolan fel y'u nodir isod).
Mae Egwyddorion Nolan yn cyfeirio at Arweinyddiaeth o safbwynt hyrwyddo a chefnogi egwyddorion Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus, ond mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo'n benodol i ddarparu ymateb cadarn, amserol a gofalgar i ddigwyddiadau sy'n effeithio ar y cyhoedd a'n cymunedau. Adlewyrchir hyn mewn datganiad clir yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2017-2021, "Sicrhau Gwent Mwy Diogel", y flaenoriaeth a roddir i atal niwed ac amddiffyn dioddefwyr (yn enwedig pobl sy'n agored i niwed); a gweithio gydag asiantaethau partner lleol er budd y cyhoedd. mynd i'r afael â'r bygythiadau i ddiogelwch cymunedol; a gweithio gydag asiantaethau partner lleol er budd y cyhoedd.

**Anhunanoldeb:** Gwneir penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig, ac nid er budd ariannol personol neu fudd arall, boed hynny i'r cyfryw berson, ei deulu neu ei ffrindiau.

[1] Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (CIPFA/IFAC 2014)

**Uniondeb:** Ni fydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion na'u staff yn eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu unrhyw ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd:** Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddion, bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn gwneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

**Atebolrwydd:** Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a byddant yn derbyn pa bynnag graffu sy'n briodol i'r swydd.

**Bod yn Agored:** Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'u camau gweithredu. Bydd rhesymau dros benderfyniadau ar gael, ac ni fydd gwybodaeth yn cael ei chyfyngu oni bai bod angen gwneud hynny er budd y cyhoedd yn ehangach.

**Gonestrwydd:**Bydd gan y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â dyletswyddau cyhoeddus, a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd.

**Arweinyddiaeth:**Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth a thrwy esiampl.

**Tegwch:** Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn gweithredu mewn ffordd deg a diduedd.

**Parch:** Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn gweithredu mewn ffordd sy'n dangos hunanreolaeth a goddefgarwch, gan drin aelodau o'r cyhoedd a chydweithwyr â pharch a chwrteisi.

**Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn dangos sut mae'r Safonau hyn wedi'u cymhwyso yng ngwaith y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, yn ogystal â nodi mesurau a fydd yn cael eu cyflwyno yn 2021/22.**

## TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Nod y fframwaith llywodraethu hwn yw canolbwyntio'n gadarn ar y ffactorau sy'n sbarduno plismona yn Heddlu Gwent, a sicrhau bod yna lwybr clir rhwng y penderfyniadau a wneir a'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Dyma brif elfennau'r fframwaith:

### Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi sefydlu MoCG ar y cyd. Mae'r MoCG yn cynnwys Cynllun Dirprwyo, Rheoliadau Ariannol, Egwyddorion Cysylltiadau a Rheolau Sefydlog yn ymwneud â chontractau. Hefyd, mae'n cynnwys fframwaith gwneud penderfyniadau sy'n sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod holl benderfyniadau'r Comisiynydd yn cael eu cyhoeddi a'u bod ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt.

### Egwyddorion Cysylltiadau

Mae'r ddogfen hon yn cydnabod cyfrifoldebau gweithredol y Prif Gwnstabl, oddi mewn i'r fframwaith polisi ac atebolrwydd a bennwyd gan y Comisiynydd. Mae'r Egwyddorion yn galluogi'r Comisiynydd i ddilyn ei fwriadau polisi sy'n cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gweithredol ar gyfer yr Heddlu ac atebolrwydd y Prif Gwnstabl am eu cyflawni. Er gwaethaf eu statws 'corfforaeth undyn' ffurfiol, mae'r berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn seiliedig ar gydweithio er budd pobl Gwent o dan enw cyffredin 'Heddlu Gwent'.

Hefyd, mae'r egwyddorion yn nodi y bydd y berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn seiliedig ar ymddiriedaeth, hyder a thryloywder. Mae'r trefniadau llywodraethu a fabwysiadwyd yn gyson â'r angen i sicrhau atebolrwydd rhwng y partïon, ac atebolrwydd i'r cyhoedd. Mae dull tryloyw ac archwiliadwy wedi'i fabwysiadu, ac roedd yn parhau i fod yn ddilys yn 2020/21.

### Y Cod Rheolaeth Ariannol

Fel y dangosir uchod, ym mis Hydref 2019 cyhoeddodd CIPFA ei God Rheolaeth Ariannol. Nod y Cod Rheolaeth Ariannol yw cefnogi arfer da mewn rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol (a chyrff dynodedig eraill megis Plismona) i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Felly am y tro cyntaf mae'r Cod Rheolaeth Ariannol yn gosod safonau rheolaeth ariannol ar gyfer nifer o gyrff cyhoeddus.

Un o brif amcanion y Cod Rheolaeth Ariannol yw gwella cadernid ariannol sefydliadau, trwy ymgorffori gwell safonau rheolaeth ariannol. Yn anochel, mae effaith pandemig Coronafeirws wedi rhoi prawf ar y cadernid ariannol hwnnw yn 2020/21 a bydd yn parhau i wneud hynny mewn blynyddoedd i ddod. Am y rheswm hwn, mae rhoi'r Cod Rheolaeth Ariannol ar waith yn y flwyddyn gysgodi yn parhau i fod yn dasg hollbwysig. Mae cysylltiadau amlwg rhwng y Cod Rheolaeth Ariannol a'r Fframwaith Llywodraethu, yn enwedig o ran ei ffocws ar gyflawni canlyniadau cynaliadwy.

Am y rhesymau hyn, bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 yn cynnwys casgliad cyffredinol asesiad o gydymffurfiaeth Heddlu Gwent ag egwyddorion y Cod Rheolaeth Ariannol. Lle ceir materion heb eu cyflawni neu feysydd y mae angen eu gwella, bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu yn Rhan 2 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn. Chwe Egwyddor y Cod Rheolaeth Ariannol a fydd yn cael eu hasesu yw:

1. ***Arweinyddiaeth** Sefydliadol - dangos cyfeiriad strategol clir yn seiliedig ar weledigaeth lle mae rheolaeth ariannol wedi'i ymgorffori yn niwylliant y sefydliad.*
2. ***Atebolrwydd** – yn seiliedig ar gynllunio ariannol tymor canolig sy'n ysgogi'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol trwy reoli risg yn effeithiol, data cefnogi ansawdd a chostau bywyd cyfan.*
3. *Mae **tryloywder** wrth wraidd rheolaeth ariannol a chaiff ei gyflawni trwy ddefnyddio data cyson, ystyrlon a dealladwy, sy'n destun adroddiadau rheolaidd gyda thystiolaeth o gamau gweithredu cyfnodol gan swyddogion a phenderfyniadau gan aelodau etholedig.*
4. *Mae'r tîm arweinyddiaeth yn hybu glynu wrth **safonau** proffesiynol a gellir dangos tystiolaeth o hyn.*
5. *Mae ffynonellau **sicrwydd** yn cael eu cydnabod fel dulliau effeithiol wedi'u prif ffrydio i mewn i reolaeth ariannol, gan gynnwys craffu gwleidyddol a chanlyniadau archwiliad allanol, archwiliad mewnol ac arolwg.*
6. *Mae **cynaliadwyedd** hirdymor gwasanaethau lleol wrth wraidd yr holl brosesau rheolaeth ariannol ac yn cael ei ddangos trwy ddefnydd darbodus o adnoddau cyhoeddus.*

Mae dyletswydd ar Heddlu Gwent i lynu wrth egwyddorion rheolaeth ariannol. Er mwyn galluogi Heddlu Gwent i roi prawf ar eu cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Rheolaeth Ariannol Da CIPFA, mae'r Cod Rheolaeth Ariannol yn trosglwyddo'r egwyddorion hyn yn 17 safon rheolaeth ariannol ar draws saith adran o'r Cod Rheolaeth Ariannol. Bydd y safonau rheolaeth ariannol hyn yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd ymarferol, yn unol â gwahanol amgylchiadau pob corff cyhoeddus perthnasol.

Mae adrannau 1 a 2 y Cod Rheolaeth Ariannol (sy'n cynnwys safonau A i E) yn rhoi sylw i ffactorau cyd-destunol pwysig y mae angen rhoi sylw iddynt o'r cychwyn er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol gadarn. Mae'r cyntaf yn ymdrin â chyfrifoldebau y Prif Swyddog Ariannol a'r tîm arweinyddiaeth, ac mae'r ail yn ymdrin â dull llywodraethu a rheolaeth ariannol y sefydliad.

Mae adrannau 3 i 7 sy'n weddill (sy'n cynnwys safonau F i Q) yn rhoi sylw i ofynion y cylch rheolaeth ariannol, gydag adran 3 yn datgan yr angen am ddull hirdymor o werthuso cynaliadwyedd ariannol. Mae angen i holl elfennau'r cylch fod yn addas i'r diben cyn y gellir gwneud penderfyniadau gwybodus. Ni fydd datblygu strategaeth ariannol hirdymor ansawdd uchel yn hybu cynaliadwyedd ariannol ynddo'i hun os yw, er enghraifft, proses pennu cyllideb flynyddol y sefydliad (adran 4), ymgysylltu â rhanddeiliaid ac achosion busnes (adran 5) a threfniadau monitro perfformiad (adran 6) yn annigonol. Mae'r cylch yn cael ei gwblhau gan adran 7, sy'n dangos sut mae adroddiadau ariannol ansawdd uchel o gymorth i'r cylch rheolaeth ariannol trwy sicrhau eu bod yn seiliedig ar wybodaeth ariannol gadarn.

Yr 17 safon wedi eu rhoi ar waith ar draws y chwech egwyddor :



**Fframwaith Llywodraethu**

Fel y nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19, cwblhawyd adolygiad yn 2018, a daeth i'r casgliad mai'r ffordd orau o adlewyrchu egwyddorion cydweithredu (fel y'u nodir yn yr Egwyddorion ac yn y MoCG) fyddai sefydlu strwythur cyfarfod ac adrodd newydd ar gyfer y Prif Gwnstabl, sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r Cynllun Heddlu a Throseddu, gan fynd i'r afael â materion perfformiad a chyflawni.

Mae'r Bwrdd Craffu Gweithredol (sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl) yn cyfrannu at gyfarfod misol Bwrdd Gweithredol y Prif Swyddogion ac, yn y pen draw, at y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad chwarterol.

Yn ogystal, mae materion sy'n deillio o'r Grŵp Cynllunio Strategol Ar y Cyd yn parhau i gael eu hadrodd i Fwrdd Gweithredol y Prif Swyddogion ac i Fwrdd Strategaeth a Pherfformiad y Comisiynydd. Hefyd, mae'r ddau Fwrdd hyn yn coladu argymhellion o gyfarfodydd mewnol eraill gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Moeseg Annibynnol a'r Bwrdd Strategaeth Ystadau.

Adolygwyd strwythur y cyfarfodydd llywodraethu hyn eto yn 2018/19, 2019/20 a 2020/21, er mwyn gwneud rhai newidiadau eraill iddo, ac mae'r diagram isod yn nodi'r strwythur cyfarfodydd diwygiedig oddi fewn i'r Heddlu a rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent (OPCC). Fodd bynnag, nid yw'r diagram isod, sy'n adlewyrchu gweithredu arferol, yn cynnwys strwythur cyfarfodydd rheoli Aur/Arian Coronafeirws, a sefydlwyd ar 18 Mawrth 2020 i drefnu ymateb Heddlu Gwent i'r pandemig. Caiff gwaith y grŵp hwn ei esbonio'n fwy manwl yn Rhan Dau.

Mae'r allwedd lliw i'r diagram fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Byrddau Gweithredol; |
| Oren | Cyfarfod Craffu; |
| Glas Golau | Byrddau Llywodraethu Thematig; |
| Melyn | Cyfarfodydd Adrannol a ffynonellau diweddaru sy'n cyfrannu at Fyrddau Llywodraethu a |
| Llwyd | Cyfarfodydd OPCC a Byrddau a chyrff annibynnol sy'n effeithio ar y Strwythur Llywodraethu ac yn cyfrannu at drefniadau llywodraethu. |

## Governance Structure



**Rhan Dau**

**Adolygiad o Effeithiolrwydd**

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gwblhau adolygiad, o leiaf unwaith y flwyddyn, o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system reoli fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan:

- Waith Prif Swyddogion ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu;
- Adroddiadau blynyddol ar yr Archwiliadau Mewnol;
- Adroddiad blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio;
- Barn yr archwilydd allanol trwy'r llythyr archwilio blynyddol; ac
- Adroddiadau gan arolygiaethau adolygu eraill.

Yn unol â hyn, mae tair prif linell o fethodoleg sicrwydd:




Mae'n bwysig nodi bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd a'r gwaith o'i baratoi yn adnodd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl werthuso eu trefniadau llywodraethu.

Cyflwynir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w ystyried gan y Grŵp Cynllunio Strategol Ar y Cyd a'r Cyd-bwyllgor Archwilio, cyn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd Strategaeth a Pherfformiad y Comisiynydd.Hefyd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ystod ei ddatblygiad, gan adrodd (drwy eithriad) os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, fel rhan o'r Adroddiad Archwilio Blynyddol.

Dyma fanylion swyddogaethau'r cyrff gwahanol:

**Cydbwyllgor Archwilio**
Ar y cyd â'r Prif Gwnstabl, sefydlodd y Comisiynydd Gyd-bwyllgor Archwilio annibynnol sy'n rhoi sicrwydd er mwyn gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yng ngwaith llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r Cod Ymarfer ar Reoli Ariannol sy'n nodi y dylai corff cyfun o'r fath ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Hefyd, mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn ystyried adroddiadau gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) mewn perthynas â'r Proffiliau Gwerth am Arian blynyddol ac adroddiadau perthnasol eraill o natur anweithredol. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn cynghori'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn unol ag egwyddorion llywodraethu da, gan ddarparu:
- Sicrwydd annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn â digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig;
- Craffu'n annibynnol ar berfformiad ariannol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd;
- Goruchwylio'r broses adrodd ariannol a fabwysiadwyd o Ganllawiau Ymarferol Pwyllgorau Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol CIPFA.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn darparu sylwadau, cyngor a sicrwydd ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag amgylchedd rheolaeth fewnol yr Heddlu a'r OPCC. Hefyd, mae'n goruchwylio materion llywodraethu cyffredinol. Mae gan y Cyd-bwyllgor Archwilio gyfrifoldeb penodol i ddarparu sicrwydd annibynnol yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, gan gynnwys rheoli risg a'r

amgylchedd rheoli mewnol. Yn ystod 2020/21, roedd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn cynnwys pum unigolyn a benodwyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i weithredu fel cynghorwyr annibynnol.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Cynhelir pedwar cyfarfod pwyllgor chwarterol ffurfiol bob blwyddyn yn ogystal â chyfarfod eithriadol i ystyried y Datganiad o Gyfrifon, a Diwrnod Hyfforddi Cymru Gyfan ar gyfer aelodau o'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

Mae gan y Cyd-bwyllgor Archwilio gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n ymdrin â'i swyddogaethau craidd, ac maent wedi'u nodi yn yr MoCG ar y cyd hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfeiriad at swyddogaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, a chynnal trosolwg o'r fframwaith rheoleiddio. Adolygwyd a diwygiwyd cylch gwaith y Cydbwyllgor Archwilio yn ystod 2019/20 mewn ymateb i gyhoeddiad CIPFA 'Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police 2018 Edition'. Caiff y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl eu cynrychioli yn holl gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.

**Cadarnhaodd Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer 2020/21 fod y Cyd-bwyllgor Archwilio yn fodlon o hyd y gellir rhoi sicrwydd rhesymol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fod y sefyllfa o ran rheolaeth, risg a llywodraethu ar gyfer 2020/21 yn briodol.**

**Pwyllgor Moeseg Annibynnol:**
Sefydlwyd y pwyllgor hwn ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ym mis Ebrill 2015. Mae'n cynnwys deg aelod annibynnol yn ogystal â swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu. Mae'r Pwyllgor Moeseg Annibynnol yn darparu cyngor, cefnogaeth a chymorth yn ymwneud â heriau moesegol sy'n deillio o faterion gweithredol, gweinyddol neu drefniadol sy'n wynebu Heddlu Gwent.

**Archwilio mewnol**
Mae'r archwilwyr mewnol yn cwblhau adolygiadau amrywiol sy'n seiliedig ar gynllun archwilio y cytunwyd arno, gan gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae'r cynllun archwilio yn ystyried risgiau ac mae'n cydnabod bod angen adolygu systemau ariannol allweddol a meysydd eraill o risg busnes ehangach ar sail gylchol er mwyn darparu sicrwydd o reoli mewnol a systemau llywodraethu. Caiff y cynllun ei gytuno gan Brif Swyddogion Cyllid y ddwy gorfforaeth undyn, ac fe'i cyflwynir i'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer sylwadau.

Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r system reoli fewnol sydd angen ei chynnal yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol. Mae'r ddwy gorfforaeth undyn (y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl) yn gyfrifol am gyflawni swyddogaeth archwilio mewnol effeithlon. Mae'r PSIAS yn diffinio rôl a safonau Archwilio Mewnol. Mae'r PSIAS yn cwmpasu'r diffiniad o Archwilio Mewnol, Cod Moeseg a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol. Mae angen i'r Archwiliad Mewnol roi barn sicrwydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol. Hefyd, maent yn rhoi sicrwydd yn ymwneud â rheoli risgiau busnes ariannol a gweithredol, llywodraethu corfforaethol a'r fframwaith rheoli yn ei gyfanrwydd.

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg (a gofnodir yn y Gofrestr Risg ar y cyd sy'n cael ei chadw gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd) yn cael sylw weithiau yn y cynllun archwilio blynyddol.
Hefyd, gall materion llywodraethu corfforaethol a rheoli risg godi trwy adolygiadau eraill a gynhelir gan yr archwilwyr mewnol. Yn yr achosion hyn, bydd y materion yn cael eu trafod i ddechrau yn yr adroddiad archwilio perthnasol.

Wedyn, mae Archwilwyr Mewnol yn cyflwyno eu hadroddiadau ar ddigonolrwydd y rheolaethau yn y systemau a archwiliwyd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio, gan nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

**Gwaith Archwilio Mewnol yn ystod 2020/21**
Roedd y gwaith archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yn seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar risgiau ariannol a gweithredol sylweddol. TIAA yw'r gwasanaeth archwilio mewnol presennol ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, yn dilyn ei ail benodi ar 1 Ebrill 2019.

Fodd bynnag, oherwydd bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn aelodau o'r Gwasanaethau Adnoddau a Rennir (SRS) ar gyfer darparu gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Dinas Casnewydd, o fis Mai 2016 dewiswyd gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Torfaen i gwblhau'r cynllun archwilio ar gyfer yr SRS. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod dull archwilio cyson yn cael ei fabwysiadu gan holl bartneriaid yr SRS, ac felly cynghorwyd TIAA yn ffurfiol na fyddai disgwyl iddo barhau i ddarparu sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer y gwasanaethau TGCh sy'n cael eu gweithredu gan Heddlu Gwent.
Mae cynnydd ar gyflwyno'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer gwasanaethau TGCh yn cael ei adrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio ynghyd â'r cynllun archwilio a gyflwynir gan TIAA. Bydd y cyfryw sicrwydd yn cael ei ddarparu gan swyddogaeth archwilio mewnol TCBS, a bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfeirio at hynny wrth ystyried y fframwaith rheoli ar gyfer y swyddogaethau TGCh.

Yn ystod 2020/21, cynhaliodd TIAA 22 archwiliad (gan gynnwys 12 a gynhaliwyd yn gydweithredol ar draws pob heddlu yng Nghymru), ac aseswyd bod 10 ohonynt yn darparu sicrwydd sylweddol (7 yn 2019/20), 12 yn darparu sicrwydd rhesymol (10 yn 2019/20), 0 yn darparu sicrwydd cyfyngedig (2 yn 2019/20).

| | |
|---|---|
| Rheoli Ystâd - Strategaeth | Rhesymol |
| Rheoli Adnoddau Dynol – Lles | Sylweddol |
| Gwrth-dwyll - Caffael | Sylweddol |
| Cyfathrebu Corfforaethol | Rhesymol |
| Treuliau a Thaliadau Ychwanegol | Rhesymol |
| Rhaglen Cyfalaf | Sylweddol |
| Plismona Lleol - Eiddo ac Arian (Ymweliad 1) | Rhesymol |
| Themâu'r Bwrdd Gwella Gwasanaeth | Rhesymol |
| Rheoli Contractau | Rhesymol |
| Rheoli Perfformiad | Rhesymol |
| Fetio Contractwyr (Cydweithredol) | Sylweddol |
| Rheoli Risg - Rheolaethau Lliniaru (Cydweithredol) | Rhesymol |
| Microsoft Office 365 (Cydweithredol) | Rhesymol |
| Cynllunio Adnoddau Strategol (Cydweithredol) | Sylweddol |
| Caffael - Arweiniad Strategol (Cydweithredol) | Sylweddol |
| Rheoli Cyllidebol (Cydweithredol) | Sylweddol |
| Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (Cydweithredol) | Sylweddol |
| Rheoli Fflyd - Defnydd Tanwydd (Cydweithredol) | Rhesymol |
| Cyfriflyfr Cyffredinol (Cydweithredol) | Rhesymol |
| Credydwyr (Cydweithredol) | Sylweddol |
| Dyledwyr (Cydweithredol) | Rhesymol |
| Cyflogres (Cydweithredol) | Sylweddol |

Arweiniodd yr adroddiadau hyn at 54 o argymhellion. Nid oedd dim o’r rhain yn rhai brys, ystyriwyd bod 26 yn bwysig a chafodd 28 eu categoreiddio fel rhai arferol.

Fel rhan o'r rhaglen archwilio, cynhaliodd yr archwilwyr mewnol 2 archwiliad dilynol hefyd er mwyn gwirio cynnydd yn erbyn pob Argymhelliad Blaenoriaeth 1 a 2. Trafodwyd yr adroddiadau hyn yn y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Gohiriwyd un archwiliad tan 2020/21 ar gais y rheolwyr oherwydd (Plismona Lleol – Eiddo ac Arian (Ymweliad 2)).

**Barn Flynyddol TIAA oedd bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi cael ei gyflawni i'w galluogi nhw i ddod i gasgliad cadarnhaol bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli risg a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith. Yn eu barn nhw, mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli'r broses o gyflawni eu hamcanion ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn unig ac nid yw'n farn ar yr holl elfennau o'r prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu na hyfywedd ariannol parhaus na'n gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent eu cael o'u gwahanol ffynonellau sicrwydd.**

Yn ystod 2020/21 cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 9 archwiliad, sy'n cynnwys 1 a ohiriwyd o 2018/19 (Seiberddiogelwch) ac 1 a ohiriwyd o 2019/20 (Swyddfa Gefn (ail enwyd yn Rheolaeth Busnes)). Yn ogystal, roedd un archwiliad a oedd i fod i gael ei gynnal yn 2020/21 (Rheolaeth TG) a chafodd hwnnw ei ohirio tan chwarter cyntaf 2021/22, ar gais y rheolwyr. Mae'r asesiadau o'r 9

archwiliad a gynhaliwyd yn cadarnhau fel a ganlyn: aseswyd bod 7 ohonynt yn darparu sicrwydd sylweddol (5 yn 2019/20), 0 yn darparu sicrwydd rhesymol (5 yn 2019/20), 0 yn darparu sicrwydd cyfyngedig (2 yn 2019/20) ac roedd 2 yn archwiliadau cynghorol nad oedd yn cynnwys unrhyw asesiad.

| | |
|---|---|
| Rheoli Busnes | Sylweddol |
| Wal dân | Sylweddol |
| Canolfan Ddata | Sylweddol |
| Rheoli Pensaernïaeth Menter | Sylweddol |
| CCTV/Ystafell Reoli | Sylweddol |
| Rheoli Asedau Meddalwedd | Sylweddol |
| Seiberddiogelwch | Sylweddol |
| Rheoli Risg | Cynghorol |
| System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth | Cynghorol |

Arweiniodd yr adroddiadau hyn at 33 o argymhellion. Nid oedd yr un ohonynt yn uchel, roedd 25 ohonynt yn ganolig ac 8 ohonynt wedi'u categoreiddio'n isel ac yn cadarnhau gwelliant sylweddol ar berfformiad archwiliad y flwyddyn flaenorol.

**Barn Flynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen oedd eu bod yn fodlon bod gwaith archwilio mewnol digonol wedi cael ei gyflawni i arwain at farn gyffredinol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheoli fframwaith llywodraethu SRS. Roedd Barn Flynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn foddhaol ac roedd yn cydnabod parhad o'r gwelliannau o flynyddoedd blaenorol.**

Diffinnir y farn hon fel:

- Efallai bod nifer cyfyngedig o wendidau risg canolig wedi cael eu nodi, ond ar y cyfan dim ond gwendidau risg isel sydd wedi bod mewn aseiniadau unigol; ac
- Nid oes gan unrhyw un o’r adroddiadau aseiniadau unigol ddosbarthiad cyffredinol o risg gritigol.

**Archwilio Allanol**

Mae’r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru asesu a yw'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer defnyddio adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn archwilio datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, yn ogystal â chyfrifon y Grŵp, ac mae’n adrodd (drwy eithriad) ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd os nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion.

Yn ei hadroddiad archwilio blynyddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyflwyno sylwadau ar yr agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau rheolaeth ariannol fewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredd.

Caiff cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol o'r fath, gan gynnwys y llythyr archwilio blynyddol, eu hystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio ar adegau priodol yn ei gylch blynyddol o gyfarfodydd.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ddyletswydd i ymateb i adroddiadau gan yr archwilydd allanol.

**Cyrff Eraill**
Mae angen enillion ariannol ar Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a nifer o gyrff eraill er mwyn monitro gwariant ar refeniw a chyfalaf. Mae telerau ac amodau llym ar waith i lywodraethu cyllid allanol ychwanegol a dderbynnir gan y cyrff hyn.

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS/yr Arolygiaeth)**
Swyddogaeth yr HMICFRS (sydd hefyd â chyfrifoldebau Gwasanaeth Tân yn Lloegr yn unig) yw hyrwyddo darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon trwy arolygu sefydliadau a swyddogaethau'r heddlu er mwyn sicrhau bod safonau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni a'u cynnal; bod arfer da yn cael ei ledaenu; a bod perfformiad yn gwella. Mae HMICFRS yn arolygu swyddogaethau’r Prif Gwnstabl, nid y Comisiynydd. Hefyd, mae’n darparu cyngor a chymorth i'r partneriaid teirochrog (yr Ysgrifennydd Cartref, y Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabliaid).

Mae HMICFRS yn annibynnol ar y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ei gylch gwaith yw asesu gwaith heddluoedd mewn meysydd busnes gwahanol, gan gynnwys plismona yn y gymdogaeth, troseddu difrifol a

chyfundrefnol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a mynd i'r afael â bygythiadau mawr megis terfysgaeth. Hefyd, mae’r Arolygiaeth yn monitro perfformiad yr Heddlu mewn perthynas â'i gynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol yn sgil y gostyngiadau sylweddol mewn grantiau yn deillio o Adolygiadau Cynhwysfawr o Wariant diweddar. Hyd yn hyn, mae adroddiadau yn y maes arolygu hwn wedi bod yn gadarnhaol ac yn galonogol. Cyhoeddir adroddiadau ar y wefan ganlynol: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/

Mae adroddiadau'r Arolygiaeth yn cael eu hanfon at y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd er mwyn cael eu hystyried a’u gweithredu'n briodol.
Mae'r Arolygiaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o roi gwybod i'r Comisiynydd a'r cyhoedd am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu heddluoedd ac, wrth wneud hynny, hwyluso atebolrwydd y Comisiynydd i'r cyhoedd.

Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd yn ôl y gyfraith i ymateb i unrhyw adroddiad gan HMICFRS o fewn 56 diwrnod i'w gyhoeddi, gan anfon unrhyw ymateb at yr Ysgrifennydd Cartref a HMICFRS. Dylai ymatebion gynnwys diweddariad ar unrhyw gamau gweithredu y mae’r Heddlu yn eu cymryd/nad yw’n eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion a wneir o fewn yr adroddiad.

**Gwaith Arolygu yn ystod 2020/21**
Yn ystod pandemig parhaus Coronafeirws cafodd gweithgarwch yr Arolygiaeth ei ohirio rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020 ac yna ail ddechreuodd gweithgarwch. Roedd adroddiadau HMICFRS yn ystod 2020/21 yn cefnogi'r broses o fonitro a datblygu llawer o flaenoriaethau'r Heddlu. Hefyd, lluniwyd cyfres o ddangosyddion gwerth am arian (er yn hwyrach na'r arfer oherwydd pandemig Coronafeirws) i herio meysydd gwariant, galw a pherfformiad eithriadol o’i gymharu â'r heddluoedd mwyaf tebyg i Heddlu Gwent. Mae canlyniadau'r meincnodau yn llywio rhaglen newid yr Heddlu.

**Asesiad PEEL gan HMICFRS**
Yn ystod 2020/21, cyhoeddodd HMICFRS ei asesiadau o heddluoedd a fyddai'n galluogi’r cyhoedd i ddysgu am berfformiad yr heddlu lleol. Cyfeirir atynt fel **asesiadau** PEEL (ac maent yn ystyried Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu):

- **Effeithiolrwydd**: i ba raddau y mae'r heddlu yn cyflawni ei gyfrifoldebau, gan gynnwys lleihau troseddu, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymdrin ag argyfyngau a galwadau eraill am wasanaeth;

- **Effeithlonrwydd**: i ba raddau y mae’r heddlu yn darparu gwerth am arian;

- **Cyfreithlondeb**: i ba raddau y mae'r heddlu yn darparu gwasanaeth teg sy'n trin pobl yn briodol ac o fewn y gyfraith.

Mae arolwg/asesiad PEEL nesaf Heddlu Gwent wedi cael ei drefnu ar gyfer Tachwedd 2022 yn awr. Mae'r amserlen hon yn rhoi cyfle i ddatblygu gwaith yn erbyn yr argymhellion sy'n weddill a meysydd i'w gwella a rhoi sylw i unrhyw feysydd mae'r Heddlu wedi eu nodi.

Er mwyn cyd-destun, mae'r asesiadau PEEL a roddwyd i Heddlu Gwent o raglen waith 2019/20 fel a ganlyn:

- I ba raddau mae'r Heddlu yn **effeithiol** yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu - **Da** ar y cyfan:
  - Atal Troseddu a Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - **Da**;
  - Ymchwilio i Droseddau - **Da**;
  - Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed - **Da**; a
  - Mynd i'r Afael â Throseddau Difrifol a Chyfundrefnol - **Da**.

- I ba raddau mae'r Heddlu yn **effeithlon** yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu - **Da** ar y cyfan:
  - Bodloni Galw Presennol a Defnyddio Adnoddau - **Da**; a
  - Chynllunio ar gyfer y Dyfodol - **Da**.

- I ba raddau y mae'r heddlu yn **gyfreithiol** yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu - **Angen Gwella** ar y cyfan:
  - Trin y Cyhoedd yn Deg (Stopio a Chwilio) - **Angen Gwella**;
  - Gweithlu Moesegol a Chyfreithlon - **Angen Gwella**; a
  - Thrin y Gweithlu'n Deg - **Da**.

Mewn perthynas â'r meysydd sydd 'Angen Gwella', mae'r Heddlu yn cydnabod:

- Pwysigrwydd gweithio'n agos gyda chymunedau, a bod swyddogion a staff heddlu'n deall pwysigrwydd trin pobl yn deg a gyda pharch. Serch hynny, cydnabuwyd bod swyddogion rheng flaen a staff heddlu'n amrywio o ran gwybodaeth o ragfarn ddiarwybod;
- Bod y gweithlu yn deall sut a phryd i ddefnyddio 'Stopio a Chwilio', fodd bynnag, mae angen gwella'r gwaith o fonitro 'Stopio a Chwilio'.
- Bod angen gwneud mwy i sicrhau bod holl aelodau'r gweithlu'n cael eu fetio'n briodol ar gyfer y swyddi maent yn eu dal. Yn ogystal, mae angen monitro pobl sy'n ymgeisio am swyddi, i weld a ydynt yn perthyn i grwpiau lleiafrifol gwarchodedig penodol; a
- Bod angen gwella sut mae'n canfod a rheoli risgiau llygredd a sicrhau bod digon o bobl ac adnoddau ar gael i gyflawni'r gwaith hwn.

**Hefyd, cynhaliodd HMICFRS nifer o adolygiadau cenedlaethol/thematig yn 2020/21: Roedd Gwent yn destun y canlynol:**

- Hydref 2020 - arolwg pandemig Coronafeirws:
  - Roedd adborth cynnar yn gadarnhaol iawn ac mae Heddlu Gwent yn aros am yr adroddiad cenedlaethol terfynol mewn ymateb i'r pandemig.

- Chwefror 2021 - arolwg Twyll dilynol ac ail ymweliad mewn perthynas ag argymhellion a meysydd i'w gwella:
  - Yr adborth a dderbyniwyd oedd bod cynnydd wedi ei wneud yn erbyn yr holl argymhellion a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2021.

- Mawrth 2021 – uwch-gŵyn - Heddlu sy'n cyflawni Cam-drin Domestig:
  - Mae'r adborth dechreuol wedi cael ei rannu gydag arweinyddion yr adran Amddiffyn y Cyhoedd a Safonau Proffesiynol. Bydd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn adolygu'r agwedd ar gamymddygiad ac ymddygiad. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021.

- Mawrth 2021 - Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol:
  - Roedd yr adborth dechreuol yn gadarnhaol ac mae Heddlu Gwent yn aros am yr adroddiad trosfwaol cenedlaethol sy'n cael ei baratoi gan Arolygiaeth Carchardai a Phrawf EM (i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2021).

**Panel yr Heddlu a Throseddu**
Mae Panel yr Heddlu a Throseddu (y Panel) yn gyfrifol am gefnogi'r broses o arfer swyddogaethau'r Comisiynydd yn effeithiol trwy adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, gan y Comisiynydd wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Nid yw'r Panel yn craffu ar berfformiad y Prif Gwnstabl a'r Heddlu yn uniongyrchol – dyna rôl y Comisiynydd.

Mae'r Panel yn cynnwys deuddeg Cynghorydd lleol, sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol yng Ngwent, ynghyd â dau aelod annibynnol.

Mae cyfrifoldebau a phwerau'r Panel yn cynnwys:

- Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion ynglŷn â chamau gweithredu a/neu benderfyniadau'r Comisiynydd;
- Craffu ar y fersiwn drafft o Gynllun yr Heddlu a Throseddu;
- Gofyn i'r Comisiynydd, a'i staff, ateb cwestiynau'r cyhoedd;
- Craffu ar gyllideb yr heddlu a phraesept y dreth gyngor, gan roi feto arnynt o bosibl os oes mwyafrif o ddwy ran o dair;
- Craffu ar benodiad y Prif Gwnstabl, gan roi feto arno o bosibl os oes mwyafrif o ddwy ran o dair;
- Cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer staff uwch y Comisiynydd (gan gynnwys Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid);
- Ymdrin â chwynion lefel is yn erbyn y Comisiynydd.

Mae agendâu a chofnodion y Panel yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ganlynol:

http://www.gwentpcp.org.uk/cy/hafan/

***Yn ystod 2020/21 roedd gwaith y Panel yn cynnwys ystyried y canlynol:***

- Cynllun yr Heddlu a Throseddu;
- Craffu ar dystiolaeth OPCC ar gyfer monitro Perfformiad yr Heddlu;
- Ymateb yr Heddlu a OPCC i'r pandemig Coronafeirws;
- Defnydd Heddlu Gwent o dechnoleg adnabod wynebau awtomatig;
- Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig;
- Cynnig y Praesept ar gyfer 2021/22;
- Strategaeth yr Ystâd;
- Gweithredu Safonau'r Gymraeg ar draws Heddlu Gwent - Adroddiad Blynyddol;
- Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys;

Cynhaliwyd 5 cyfarfod o Banel yr Heddlu a Throseddu yn 2020/21.

**Strwythur Rheoli Coronafeirws**

Yn ogystal â'r gwahanol gyrff a grwpiau sy'n allweddol yn nhermau Llywodraethu yn ystod gweithrediadau arferol, paratôdd yr Heddlu ar gyfer Coronafeirws trwy roi strwythur rheoli Aur/Arian newydd ar waith ar draws yr Heddlu cyfan cyn y 'cyfyngiadau symud', ar 18 Mawrth 2020.

Sefydlwyd cyfarfod Aur dyddiol i reoli'r Heddlu, dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, yn ogystal â dau gyfarfod Arian dyddiol (dan gadeiryddiaeth Prif Uwch-arolygydd neu aelod cyfatebol o staff yr heddlu) er mwyn sicrhau dilyniant o ran Plismona Gweithredol a swyddogaethau Cymorth Busnes. Roedd cynrychiolwyr o bob swyddogaeth gweithredol a busnes ar draws yr heddlu'n bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn, ynghyd â'r Cymdeithasau Staff a chynrychiolydd OPCC. Cynhaliwyd cyfarfodydd Aur ac Arian bob dydd tan 15 Mehefin, pan ddaethant yn rhan o fusnes arferol Cyfarfod Rheoli Dyddiol yr Heddlu.

Gofynnwyd i bob adran ledled yr Heddlu (gan gynnwys OPCC) am gynlluniau parhad busnes yn gynnar ym mis Mawrth 2020, i helpu i gynllunio ar gyfer absenoldeb staff ac unrhyw ddiffygion o ran cyflenwadau a chyfarpar. Mae'r rhain wedi cael eu cadw'n gyfredol ac maent yn cael eu hadolygu'n gyson gan benaethiaid adrannau. Roeddent yn effeithiol iawn yn sicrhau bod Heddlu Gwent yn gallu parhau i ddarparu ei ystod lawn o wasanaethau i gymunedau trwy gydol y pandemig.

Cefnogwyd y cynlluniau gan allu TG symudol Heddlu Gwent, a sicrhaodd fod swyddogion a staff wedi eu paratoi eisoes â ffonau symudol a dyfeisiau gliniadur. Sicrhaodd hyn fod staff anweithredol yn gallu gweithio gartref heb golli gallu. Roedd cyfarfodydd a chyfathrebiadau'n ddi-dor a pharhaodd trefniadau llywodraethu i fod yn gadarn, oherwydd bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu wedi mabwysiadu ateb ar-lein a ddarparwyd gan Microsoft 'TEAMS', yn hytrach na chyswllt wyneb yn wyneb. Rhannwyd y defnydd o TEAMS â'n partneriaid, a sicrhaodd fod cyfarfodydd a gwaith amlasiantaeth, gan gynnwys diogelu'r rhai sy'n agored i niwed, yn gallu parhau.

Defnyddiwyd staff o'r Adran Gwella Parhaus i gyflwyno Cell Logisteg yn gyflym ac yn effeithlon. Roedd y Gell hon yn cydgysylltu dyraniad y Cyfarpar Diogelu Personol; yn adolygu echdyniadau dyddiol; yn neilltuo gliniaduron ychwanegol i staff a oedd yn hunanynysu; ac yn trefnu apwyntiadau profion Coronavirus-19 gyda chanolfannau profi Iechyd Cyhoeddus. Hefyd, dechreuodd y Gell lunio adroddiad perfformiad dyddiol newydd ar gyfer y Cyfarfod Aur. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y data dyddiol diweddaraf am Drosedd, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, digwyddiadau casineb, cam-drin domestig a meysydd gwaith eraill, fel y gall y sefydliad ymateb i fygythiadau, risgiau neu dueddiadau niwed. Rhoddodd yr adroddiad yr wybodaeth ddiweddaraf gyson i'r staff drwy grynhoi'r diweddariadau diweddaraf oddi wrth lywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol a chyrff plismona. Yr oedd hefyd yn cynnwys canlyniadau'r gwaith craffu ar orwelion yr Heddlu er mwyn sicrhau bod Heddlu Gwent â'u golwg ar ddatblygiadau posibl yn y dyfodol, ac felly'n gallu rhoi cynlluniau priodol ar waith.

Ymatebodd yr Heddlu i'r achosion cychwynnol drwy ddarparu'r holl Gyfarpar Diogelu Personol a oedd ar gael i swyddogion a staff. O ganlyniad i'r prinder cychwynnol y dioddefodd pob asiantaeth ledled y wlad, defnyddiwyd 'Ceir COVID' (cerbydau a oedd â swyddogion a oedd yn gallu cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol gwell ar unwaith) i ymateb i ddigwyddiadau lle'r oedd amheuaeth ynghylch presenoldeb y feirws. Cydnabuwyd yn genedlaethol bod hyn yn arfer gorau ac mae rhai Heddluoedd yn dal i ddefnyddio'r dull hwn. Yn sgil hynny, cafodd dull Heddlu Gwent ei wella fel bod gan bob cerbyd Plismona Ymateb ddau git Cyfarpar Diogelu Personol gwell, gan droi pob cerbyd yn 'Gar COVID'. Darparwyd Cyfarpar Diogelu Personol yn llwyddiannus drwy sianeli lleol a chenedlaethol er mwyn sicrhau bod digon o gyflenwad o fewn cyfnod byr. Ni chafodd yr Heddlu y cynnydd sydyn mewn absenoldebau a ragwelwyd o ganlyniad i'r Coronafeirws. Hwyluswyd hyn gan reolaeth ddyddiol gadarn, canllawiau clir a gweithdrefnau cofnodi a gyhoeddwyd trwy strategaeth gyfathrebu fewnol a chyswllt rheolaidd â swyddogion a staff a oedd yn sâl neu â symptomau. Sefydlwyd llinell adrodd ganolog newydd er mwyn i swyddogion a staff allu ffonio os oeddent yn sâl, a symleiddiodd y broses gan wneud y gwaith o adrodd absenoldeb yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Darparwyd llety prifysgol i swyddogion a staff a oedd yn pryderu ynglŷn â byw gartref yn ystod yr achosion o'r Coronafeirws, oherwydd eu bod yn byw gydag aelodau o'r teulu a oedd yn agored i niwed. Galluogodd y ddarpariaeth hon swyddogion a staff i barhau i weithio yn ystod y pandemig, gan ddarparu lefel o ddiogelwch i aelodau o'u teulu.

Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi rhoi blaenoriaeth i gymorth lles i swyddogion a staff sydd wedi gweithio'n agos gyda Chell Logisteg yr Heddlu a Grŵp Cydgysylltu Strategol Gwent (fforwm amlasiantaeth sy'n cyfarwyddo ymateb y bartneriaeth i'r argyfwng o dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol). Bu pwyslais ar drefnu profion Coronafeirws ar gyfer swyddogion a staff ac ar ddarparu canllawiau clir ynghylch hunanynysu a gwarchod. Roedd Cymdeithasau Staff yn rhan o'r broses ac yn cyfrannu o bell at gyfarfodydd Aur/Arian bob dydd i ddarparu cymorth ychwanegol.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu gallu gweithredol, rhoddwyd gliniadur i swyddogion a staff a oedd yn hunanynysu ond a oedd yn gallu gweithio gartref (os nad oedd ganddynt un i'w ddefnyddio eisoes) a rhoddwyd gwaith pwysig i'r sefydliad iddyn nhw ei wneud. Gweithredodd yr Heddlu broses strwythuredig i sicrhau bod y swyddogion a'r staff hynny yn cael eu cefnogi'n briodol a'u bod yn cael gwaith yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys cyswllt ffôn personol â goruchwylydd, a oedd yn rhoi cyfle i wirio lles ac i asesu sgiliau a galluoedd. Dyma enghreifftiau o'r gwaith a wnaed:

- Defnyddio Swyddogion Cadw yn y Ddalfa a oedd yn gwarchod eu hunain i gwblhau tasgau heb eu cwblhau yn System Rheoli Cofnodion yr Heddlu (Niche);
- Defnyddio Swyddogion Cyswllt Ysgolion mewn meysydd gwaith eraill, megis Ystafell Reoli'r Heddlu; a
- Staff o bob rhan o'r Heddlu, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol, clerciaid trawsgrifio cyfweliadau, Swyddogion Ymholiadau'r Orsaf a swyddogion cymorth busnes yn:
    - Cynnal adolygiad o gofnodion y ddalfa;
    - Gwella ansawdd y data yn NICHE;
    - Prosesu ôl-groniadau o swyddfeydd tocynnau canolog;
    - Cwblhau trawsgrifiadau cyfweliadau ar dâp; ac
    - Adolygu ymchwiliadau agored.

Mae canolfan Pwynt Cyswllt Cyntaf Heddlu Gwent (Ystafell Reoli) wedi parhau i weithredu fel arfer ar ôl cael ei hailgynllunio a'i hadleoli i dri safle ar wahân er mwyn sicrhau diogelwch swyddogion a staff.

Bu cynnydd sylweddol yn y galw ar y Ddesg Cyfryngau Cymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth hon wedi helpu i sicrhau bod modd parhau i ymdopi â'r galw am gysylltu â'r Heddlu.

O ran hyfforddi swyddogion, cyflwynodd yr Adran Dysgu a Datblygu 'addysg rithwir' ar-lein ar gyfer y swyddogion dan hyfforddiant newydd a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2020. Pan oedd angen dysgu yn yr ystafell ddosbarth o hyd, cyflwynwyd mesurau cadw pellter cymdeithasol a rhannwyd y dosbarthiadau yn grwpiau llai er mwyn darparu amgylchedd mwy diogel. Trefnwyd cyfweliadau 'Skype' ar-lein hefyd ar gyfer y garfan nesaf o ddarpar recriwtiaid i Heddlu Gwent.

Os bydd trydydd cynnydd sydyn yn y pandemig Coronafeirws, bydd y trefniadau uchod sydd wedi'u profi yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn cyflawni'r ymateb plismona.

**Asesiad Blynyddol a Chynlluniau Gweithredu**

**Saith Egwyddor Graidd Llywodraethu Da**

Mae'r diagram isod yn dangos y berthynas rhwng saith egwyddor graidd llywodraethu da. Mae'r ddwy egwyddor ganolog yn sylfaen i'r fframwaith cyfan ac maent yn ymwneud â 'gweithredu er budd y cyhoedd'. Mae'r ddwy egwyddor hyn ymhlyg yn y pum egwyddor arall sy'n ymwneud â 'chyflawni llywodraethu da'.



Roedd yr asesiad o effeithiolrwydd yn ystyried yr ystod o dystiolaeth sydd ar gael: Deunydd mewnol ac allanol sydd wedi'i gyhoeddi; barn broffesiynol annibynnol; a barn uwch reolwyr, Panel yr Heddlu a Throseddu ac arweinwyr proffesiynol. Ceir crynodeb o'r dystiolaeth i ategu'r asesiad yn Atodiad 1.

**Dangosir crynodeb o asesiad 2020/21 isod:**

| Categori Llywodraethu Da | | Sicrwydd |
|---|---|---|
| Gweithredu er Budd y Cyhoedd | Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg | Rhesymol |
| | Ymddwyn yn Agored ac Ymgysylltu | Rhesymol |
| Sicrhau Llywodraethu Da | Canlyniadau Cynaliadwy | Rhesymol |
| | Penderfynu Ymyriadau | Rhesymol |
| | Gallu ac Arweinyddiaeth | Rhesymol |
| | Risgiau a Pherfformiad | Rhesymol |
| | Tryloywder ac Atebolrwydd | Rhesymol |

| Diffiniadau o Sicrwydd | |
|---|---|
| Sylweddol | Nodwyd bod gan bob maes a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol a bod gofynion allanol ar waith. Roedd tystiolaeth dda o ymddygiad a chanlyniadau ac mae'r risgiau yn erbyn cyflawni amcanion yn cael eu rheoli'n dda. |
| Rhesymol | Nodwyd bod gan y rhan fwyaf o'r meysydd a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol a bod gofynion allanol ar waith. Roedd tystiolaeth dda o'r rhan fwyaf o ymddygiad a chanlyniadau, ac yn gyffredinol, mae'r risgiau yn erbyn cyflawni amcanion yn cael eu rheoli'n dda. |
| Rhannol | Nodwyd nad oedd gan nifer o feysydd a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol ac nad oedd gofynion allanol ar waith. Roedd tystiolaeth dda o rywfaint o ymddygiad a chanlyniadau, ond nid oedd risgiau allweddol yn erbyn cyflawni amcanion yn cael eu rheoli'n dda. |
| Dim | Nodwyd nad oedd gan nifer sylweddol o feysydd a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol ac nad oedd gofynion allanol ar waith. Nid oedd tystiolaeth dda o ymddygiad a chanlyniadau ac nid oedd risgiau yn erbyn cyflawni amcanion wedi'u rheoli'n dda. |

**Cynllun Gweithredu 2020/21**

Ni nodwyd unrhyw broblemau llywodraethu sylweddol ar gyfer 2020/21; fodd bynnag, mae'r cynllun gweithredu canlynol yn ymdrin â'r materion a nodwyd:

| Categori | Maes Risg / Gwendid | Camau i'w Cyflawni yn 2021/22 a Thu hwnt |
|---|---|---|
| **Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg;** | Mae angen i agendau ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol OPCC ddatgan bod angen i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod sicrhau bod penderfyniadau a thrafodaethau yn y cyfarfod yn cefnogi ac yn parchu:<br>• Gwerthoedd OPCC;<br>• Ein cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg;<br>• Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; ac<br>• Egwyddorion y Cod Moeseg: Atebolrwydd, Uniondeb, Bod yn Agored, Tegwch, Arweinyddiaeth, Parch, Gonestrwydd, Gwrthrychedd ac Anhunanoldeb. | Bydd hyn yn cael ei roi ar waith o 1 Mehefin 2021. |
| **Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg;** | Dylai proses Adolygiad o Berfformiad a Datblygiad (PDR) OPCC gofnodi tystiolaeth o werthoedd ac ymddygiad moesegol. | Bydd hyn yn cael ei roi ar waith ar gyfer proses PDR Chwarter 1 2021/22. |
| **Penderfynu Ymyriadau.** | Mae angen mwy o waith i ddangos tystiolaeth bod cyllidebau, cynlluniau gwasanaeth ac amcanion yn cyd-fynd. | Bydd y broses o bennu'r gyllideb flynyddol yn mabwysiadu agwedd 'o'r gwaelod i fyny', gyda gofynion adran/ffrwd gwaith unigol yn cyd-fynd ag anghenion strategol y sefydliad; risgiau strategol; a gofynion cenedlaethol. Yn ogystal, bydd yr Adran Gyllid yn chwarae rhan allweddol yn rhoi Datganiad Rheoli'r Heddlu at ei gilydd.<br><br>Yn nhermau cynllunio cyd-gysylltiedig yn y tymor byr, bydd cynlluniau busnes adrannau/ffrydiau gwaith yn cael eu datblygu yn ystod 2021/22, a byddant yn cael eu hymgorffori yn y gwaith o bennu cyllideb 2022/23 a Datganiad Rheoli'r Heddlu. |
| | Parhau i ddatblygu strategaethau gadael a datgomisiynu i ddangos y newidiadau. | Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad o'i Fframwaith a Strategaeth comisiynu sy'n ystyried yn fanwl yr agwedd tuag at ddatgomisiynu gwasanaethau. Disgwylir y bydd yr agwedd newydd hon yn cadarnhau effaith penderfyniadau datgomisiynu yn ystod 2021/22. |

| | | |
|---|---|---|
| **Risgiau a Pherfformiad** | Ar 23 Mawrth 2021, torrwyd trothwy o fewn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys o ran gwerth yr arian yng nghyfrif banc y Comisiynydd. Parti i gontract oedd ar fai am hyn, nad oedd wedi talu benthyciad o £3 miliwn yn ôl ar y diwrnod yr oedd yn ddyledus. Derbyniodd y parti i gontract gyfrifoldeb a thalodd y ffioedd gorddrafft ar gyfer y toriad hwn. | Mae swyddogion yn yr Adran Gyllid wedi atgoffa'r parti i gontract am yr angen i ad-dalu'n brydlon; a bydd swyddogion yn fwy rhagweithiol wrth gysylltu â phartïon i gontract os nad yw arian wedi cael ei ad-dalu erbyn 10am ar y dyddiad dyledus.<br><br>At hynny, bydd gweithdy Adran Gyllid ehangach yn rhoi sylw i nifer o brosesau Rheoli'r Trysorlys i sicrhau eu bod yn gadarn. |
| **Risgiau a Pherfformiad** | Yn ystod 2020/21 ni phrofodd Swyddfa'r Comisiynydd unrhyw achos o fynediad diawdurdod at ddata.<br><br>Ymhellach, profodd yr Heddlu 61 achos o fynediad diawdurdod at ddata yn ystod 2020/21. Nid ystyriwyd bod unrhyw un o'r achosion hyn yn risg yr oedd angen hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano. Aseswyd a chaewyd pob un o'r 61 achos a rhoddwyd cyngor priodol mewn perthynas â nhw. | Atgoffir swyddogion a staff yn barhaol am bwysigrwydd diogelwch data a gofynion a goblygiadau ehangach y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data (GDPR). Mae pecynnau NCALT gorfodol ar gael, y gellir monitro eu cwblhad.<br><br>Mae manylion achosion o fynediad diawdurdod, effaith, camau lliniaru a chanlyniadau'n cael eu cofnodi a'u cadw gan y Swyddog Adolygu Cofnodion (OPCC) a'r Swyddog Diogelu Data (Heddlu) yn unol â MOPI a GDPR. |
| **Risgiau a Pherfformiad** | Parhau i wella cynlluniau gwireddu Buddiannau a monitro adroddiadau. | Mae'r Heddlu wedi penodi swyddog Gwireddu Buddiannau gyda'r nod o wella gwaith targedu, llunio adroddiadau, monitro a chyflawni gwireddu buddiannau. |

**Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu 2019/20**

| Categori | Maes Risg / Gwendid | Camau i'w Cyflawni yn 2020/21 a Thu hwnt |
|---|---|---|
| **Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg; a Gallu ac Arweinyddiaeth.** | Mae angen penderfynu pa mor effeithiol yw hyfforddiant ymwybyddiaeth foesegol ac i ba raddau mae'n sail i ddiwylliant sefydliadol. (OPCC a'r Heddlu) | Bydd y Pwyllgor Moeseg yn sefydlu'r dull mwyaf priodol ar gyfer pennu effeithiolrwydd. Bydd y dull a argymhellir ganddo yn cael ei ddarparu fel cynllun gweithredu trwy gydol 2020/21.<br><br>**Diweddariad 2020/21**<br>Parhaus - mae Pwyllgor Moeseg mewnol wedi cael ei sefydlu (dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl), a fydd yn cwblhau gwaith y Pwyllgor Moeseg allanol (y mae ei aelodaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd). Bydd cylch gwaith y Pwyllgor Moeseg mewnol newydd yn ystyried pa mor effeithiol yw hyfforddiant ymwybyddiaeth moeseg yn ystod 2021/22. |
| **Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg;Canlyniadau Cynaliadwy; a Gallu ac Arweinyddiaeth.** | Mae angen sicrhau bod polisiau chwythu'r chwiban yn eu lle a'u bod yn gweithio'n effeithiol. (OPCC a'r Heddlu) | Bydd canfyddiadau Archwiliad Mewnol 2019/20 yn cael eu rhoi ar waith.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Roedd Adroddiad Mewnol 2019/20 yn argymell Polisi Chwythu'r Chwiban unigol a fyddai hefyd yn mabwysiadu camau ychwanegol i esbonio a ddylid trin pryder fel chwythu chwiban, neu fel ffurf arall ar gŵyn. Mae'r polisi wedi'i ddiweddaru yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan yr Adran Safonau Proffesiynol a Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd. |
| **Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg;** | Mae angen dangos rhyngweithio dwy ffordd rhwng Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd a chynlluniau cymunedol awdurdodau lleol. (OPCC a'r Heddlu) | Bydd presenoldeb parhaus staff OPCC ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn cynorthwyo i ymgorffori manteision rhyngweithio dwy ffordd rhwng swyddogaethau datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli yng Nghymru.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Cwblhawyd - Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus ac yn ystyried blaenoriaethau ein gilydd. Mae gwaith cyfredol pob bwrdd gwasanaeth cyhoeddus yn dangos y rhyngweithio dwy ffordd hwn.<br><br>Yn fewnol, mae'r Fframwaith a Strategaeth Comisiynu a |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddiwygiwyd yn ddiweddar yn penderfynu'n rhagweithiol ar y cydberthnasau effeithiol a chanlyniadau cyflawniadau rhwng OPCC a'i bartneriaethau sy'n cael eu hariannu. |
| **Canlyniadau Cynaliadwy, Rheoli Risgiau a Thryloywder ac Atebolrwydd.** | Mae angen dangos bod Heddlu Gwent yn gweithredu yn unol ag asesiadau ac argymhellion HMICFRS. (OPCC a'r Heddlu) | Caiff hyn ei gyflawni trwy'r strwythur cyfarfodydd diwygiedig o fewn yr Heddlu a rhwng yr OPCC.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Cwblhawyd - Mae adroddiadau Meysydd y mae angen eu Gwella'n cael eu cynhyrchu ar gyfer cyfarfod misol y Bwrdd Craffu ac Effeithiolrwydd. |
| **Risgiau a Pherfformiad** | Mae angen asesu pa mor effeithiol yw gwaith cynllunio ar gyfer parhad busnes yn sgil y pandemig Coronafeirws a'r trosglwyddiad i'r 'norm newydd'.<br><br>Ar 30 Mehefin 2020, costau uniongyrchol ymateb i'r feirws ers mis Mawrth 2020 oedd £650,000:<br><br>£433,000 - Pryniannau cyfarpar diogelu personol;<br>£71,000 – Profion;<br>£62,000 - Costau TGCh;<br>£53,000 - Goramser;<br>£19,000 - Costau ystâd (gan gynnwys mesurau glanhau ac iechyd a diogelwch);<br>£9,000 - Costau fflyd; a<br>£4,000 - Canslo hyfforddiant<br><br>Ym mis Gorffennaf 2020, cadarnhaodd y Swyddfa Gartref y byddai'r heddlu yn cael ad-daliad am gostau cyfarpar diogelu personol.<br><br>Disgwylir y gellir gosod y costau uchod yn rhannol yn erbyn arbedion mewn meysydd eraill yn y gyllideb megis teithio a chynhaliaeth, cyfleustodau ac ati, yn rhinwedd y cyfyngiadau symud.<br><br>Gan edrych ar y tymor hirach, bydd angen i Gynllun yr Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd a Chynllun Cyflawni'r Heddlu adlewyrchu'r byd gwahanol a fydd yn ymddangos ar ôl Coronafeirws.<br><br>(OPCC a'r Heddlu) | Terfynu argymhellion archwilio mewnol presennol yn y cynllun parhad busnes.<br><br>Y Grŵp Cymorth Busnes Arian fydd yn rheoli adferiad Heddlu Gwent. Mae pob adran (gan gynnwys OPCC) yn datblygu cynlluniau a fydd yn arwain at:<br><br>• Ailddechrau busnes fel arfer;<br><br>• Rhagweld a chynllunio ar gyfer normal newydd;<br><br>• Darparu prosesau a gweithdrefnau gweithredu gwell sydd wedi'u trawsnewid. Adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd a chasglu ac ymgorffori arfer da; a<br><br>• Gwerthfawrogi'r hyn mae costau uniongyrchol tymor byr, tymor canolig a hirdymor Coronafeirws yn ei olygu i Heddlu Gwent.<br><br>Yn ogystal, bydd uwch-reolwyr OPCC a'r Heddlu yn asesu amhariad a chanlyniadau tymor hirach y pandemig Coronafeirws, megis:<br><br>• Yr effaith tymor canolig i'r hirdymor ar Grant y Llywodraeth; incwm Praesept; rhagamcanion gwariant; a hawl i fenthyca.<br>• Yr effaith ar Strategaeth yr Ystâd y Comisiynydd (nid yw'r gwaith o adeiladu'r pencadlys newydd wedi cael ei effeithio llawer gan y pandemig ac mae ei ddefnydd yn y dyfodol yn sicr hefyd, yn seiliedig ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | newidiadau arfaethedig cyfredol i arferion gweithio);<br>• Dibyniaeth ar systemau TGCh yn y dyfodol i gefnogi gweithio ystwyth; a<br>• Yr effaith ar y Strategaeth Pobl i adlewyrchu'r ffordd y mae arferion gweithio wedi newid o ganlyniad i'r pandemig.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Parhaus - Fodd bynnag, mae'r Heddlu a OPCC wedi dod trwy'r ddwy don gyntaf o'r pandemig Coronafeirws yn llwyddiannus. Fel y nodwyd uchod, cynhaliodd HMICFRS arolwg pandemig Coronafeirws ym mis Hydref 2020. Roedd adborth cynnar yn gadarnhaol iawn ac mae Heddlu Gwent yn aros am yr adroddiad cenedlaethol terfynol mewn ymateb i'r pandemig. |
| **Risgiau a Pherfformiad** | Oherwydd tarfiad annisgwyl ar y rhyngrwyd ym mis Awst 2019, nid oedd y Cyfrifydd Cynorthwyol (Trysorlys) yn gallu trosglwyddo arian i Gronfa Marchnad Arian y diwrnod hwnnw. O ganlyniad, cadwodd y Comisiynydd arian yn y cyfrif banc (£5.5 miliwn), a oedd yn uwch na'r lefel a benderfynwyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys (£2 filiwn). Cafodd y mân doriad hwn o Strategaeth Rheoli Trysorlys y Comisiynydd ei unioni'r diwrnod canlynol. (OPCC a'r Heddlu) | Dylid adolygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau sydd y tu allan i reolaeth yr Adran Gyllid, i osgoi torri Strategaethau, Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Cwblhawyd - adolygwyd cynlluniau wrth gefn ac maent yn dal yn addas i'r diben. |
| **Risgiau a Pherfformiad** | Yn ystod 2019/20, profodd OPCC un achos o fynediad diawdurdod at ddata, pan gollwyd ffôn symudol. Oherwydd y nodweddion diogelwch a'r gallu i ddileu cynnwys y ffôn o bell, nid oedd yr achos hwn yn ddigon arwyddocaol i hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gylch.<br><br>Ymhellach, profodd yr Heddlu 65 achos o fynediad diawdurdod at ddata yn ystod 2019/20. Mae manylion achosion o fynediad diawdurdod, effaith, camau lliniaru a chanlyniadau'n cael eu eu cofnodi a'u cadw gan y Swyddog Adolygu Cofnodion yn unol â MOPI a GDPR. | Atgoffir swyddogion a staff yn barhaol am bwysigrwydd diogelwch data a gofynion a goblygiadau ehangach y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data (GDPR). Mae pecynnau NCALT gorfodol ar gael, y gellir monitro eu cwblhad.<br><br>Mae manylion achosion o fynediad diawdurdod, effaith, camau lliniaru a chanlyniadau'n cael eu cofnodi a'u cadw gan y Swyddog Adolygu Cofnodion (OPCC) a'r Swyddog Diogelu Data (Heddlu) yn unol â MOPI a GDPR.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Cwblhawyd - mae swyddogion a staff (Heddlu a OPCC) wedi ymgymryd â hyfforddiant diweddaru blynyddol. |
| **Tryloywder ac Atebolrwydd** | Mae angen penderfynu pa mor effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer | Mae Swyddog Archwilio Cymru'n cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer meysydd |

| | | |
|---|---|---|
| | cytundebau cydweithio. (OPCC a'r Heddlu) | gwaith cydweithredol ar draws lluoedd Heddlu Cymru. Bydd adroddiad ar y canfyddiadau'n barod yn ystod 2020/21.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Cwblhawyd - cafwyd adroddiad ar ganfyddiadau adolygiad Cymru gyfan, a chawsant eu derbyn a'u cwblhau gan Fwrdd Cydweithredu Cymru Gyfan. |

**Cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu 2018/19**

| Categori | Maes Risg / Gwendid | Camau i'w Cyflawni yn 2019/20 a Thu hwnt |
|---|---|---|
| **Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg;Ymddwyn yn Agored ac Ymgysylltu;a Phenderfynu Ymyriadau.** | Mae angen eglurder ynglŷn â fframwaith a gweithdrefnau 'gwneud penderfyniadau', gan gynnwys sut y cesglir tystiolaeth bod y gwerthoedd a rennir yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. (OPCC a'r Heddlu) | Ystyried y fframwaith a'r gweithdrefnau ar gyfer Gwneud Penderfyniadau.<br><br>**Diweddariad 2019/20**<br>Wedi'i gwblhau yn rhannol - mae diwrnodau cwrdd i ffwrdd OPCC wedi ystyried diben a gwerthoedd OPCC ac egwyddorion Nolan hefyd. Ategwyd hyn gan esboniad o ddisgrifiad swydd a phortffolios ar gyfer y tîm gweithredol. Bydd angen amser i'r strwythur cyfarfodydd newydd yn yr Heddlu a rhwng OPCC 'wreiddio' cyn penderfynu ar ei effeithiolrwydd.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Cwblhawyd yn rhannol - Mae'r strwythur cyfarfodydd newydd yn yr Heddlu a rhwng OPCC yn gweithio'n effeithiol.<br>Mae diwygiadau i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyfarfodydd mewnol OPCC wedi cael eu hadolygu a bydd y newidiadau a argymhellwyd yn cael eu mabwysiadu o ail chwarter 2021/22. Yn ogystal, bydd agendau ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol OPCC yn datgan yn awr y dylai'r rhai sy'n bresennol sicrhau bod penderfyniadau a thrafodaethau yn y cyfarfod yn cefnogi gwerthoedd OPCC. |
| **Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg;Ymddwyn yn Agored ac Ymgysylltu;a Phenderfynu Ymyriadau.** | Sefydlu protocolau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys sut y caiff gwerthoedd eu gwreiddio a'u dangos. (OPCC a'r Heddlu) | Datblygu protocolau gweithio mewn partneriaeth.<br><br>**Diweddariad 2019/20**<br>Parhaus - Mae angen sefydlu'r protocolau ffurfiol. Trosglwyddo i Gynllun Gweithredu 2020/21.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Parhaus - mae nifer o drefniadau gweithio mewn partneriaeth presennol (megis |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cytundebau Adran 22a, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, Cytundeb Rhannu Gwybodaeth) yn cynnwys protocolau o'r fath. Bydd trefniadau cyfredol ac yn y dyfodol yn cael eu hadolygu i sicrhau dull cyson a chyflawn. Yn ogystal, yn unol â datblygiad agenda cyfarfod OPCC i roi sylw i werthoedd a moeseg, bydd hyn yn cael ei ehangu i gwmpasu cyfarfodydd partneriaeth hefyd. |
| **Penderfynu Ymyriadau; a Risgiau a Pherfformiad.** | Nid yw'r Fframwaith a'r Mesurau Rheoli Perfformiad ar gyfer Cynllun yr Heddlu a Throseddu wedi'u cwblhau eto. (OPCC a'r Heddlu) | Cwblhau'r Fframwaith a'r Mesurau Rheoli Perfformiad ar gyfer Cynllun yr Heddlu a Throseddu a darparu tystiolaeth o gamau unioni (lle bo angen).<br><br>**Diweddariad 2019/20**<br>Parhaus - Gwnaed cynnydd sylweddol ac mae'r byrddau llywodraethu'n cael eu hysbysu. Mae penderfyniad terfynol ar y fformat ar fin cael ei wneud. Trosglwyddo i Gynllun Gweithredu 2020/21.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Cwblhawyd - Mae trefniadau rheoli a monitro perfformiad ar waith, er mwyn rhoi adroddiadau cadarn i'r Comisiynydd a'r Panel Heddlu a Throseddu. |
| **Penderfynu Ymyriadau.** | Nid yw'r Cynlluniau Busnes yn ystyried 'Gwerth Cymdeithasol'. (OPCC a'r Heddlu) | Dylid ystyried ymgorffori'r cysyniad o 'werth cymdeithasol' ar draws yr OPCC a'r Heddlu.<br><br>**Diweddariad 2019/20**<br>Parhaus - mae'r Fframwaith Comisiynu a'r Strategaeth Caffael yn ystyried yr elfennau cymdeithasol ehangach ac yn ymroi yn gyffredinol i werth cyhoeddus. Yn ogystal, mae Heddlu Gwent wedi ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gadwyni cyflenwi moesegol. Gellid ymgorffori'r syniad hwn ymhellach trwy ddatblygu Polisi Gwerth Cymdeithasol. Trosglwyddo i Gynllun Gweithredu 2020/21.<br><br>**Diweddariad 2020/21:**<br>Parhaus - bydd y gofyniad hwn yn cael ei gynnwys yn y broses cynllunio busnes a'r strategaeth gwireddu buddiannau, sy'n cael eu datblygu yn ystod 2021/22. |

**Y Cod Rheolaeth Ariannol**
Wrth ddatblygu'r Cod Rheolaeth Ariannol, mae CIPFA wedi ystyried ei uchelgais; yr amserlen ar gyfer ei roi ar waith; a'r heriau ehangach o ran adnoddau sy'n wynebu cyrff cyhoeddus perthnasol o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws. O ganlyniad, ystyriodd CIPFA y dylai dyddiad rhoi'r Cod Rheolaeth Ariannol ar waith, sef Ebrill 2020, fod ar gyfer blwyddyn gysgodol ac erbyn 31 Mawrth

2021 y dylai cyrff cyhoeddus perthnasol (gan gynnwys Heddlu Gwent) allu dangos eu bod yn gweithio tuag at roi'r Cod Rheolaeth Ariannol ar waith yn llawn. Felly 2021/22 fydd y flwyddyn lawn gyntaf ar gyfer cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannnol.

Oherwydd bod angen i Heddlu Gwent weithredu gofynion y Cod Rheolaeth Ariannol o 1 Ebrill 2020, roedd proses pennu cyllideb 2020/21 yn gyfle i asesu elfennau'r Cod Rheolaeth Ariannol cyn Ebrill 2020 ac yn darparu llwyfan ar gyfer arddangos llywodraethu a rheolaeth ariannol da trwy gydol 2020/21.

Disgwyliad y Cod Rheolaeth Ariannol yw y bydd rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol gydymffurfio â'r holl safonau rheoli ariannol, os ydynt am ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag er bod cydymffurfio â safonau rheoli ariannol CIPFA yn orfodol, nid yw'r Cod Rheolaeth Ariannol yn argymell sut y gellir cyflawni hyn. Mae hyn yn bwysig gan fod CIPFA yn cydnabod bod arferion plismona yn wahanol i arferion cyrff cyhoeddus eraill fel awdurdodau lleol.

Mewn cydymffurfiaeth â disgwyliadau'r flwyddyn gysgodol, isod mae manylion asesiad Heddlu Gwent 2020/21 yn erbyn safonau rheoli ariannol y Cod Rheolaeth Ariannol. Mae asesiad manwl o dystiolaeth i gefnogi'r asesiad yn cael ei gynnal, ond dim ond y cynllun gweithredol dilynol a gynhyrchir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

| Adrannau a Safonau'r Cod Rheolaeth Ariannol | | Egwyddor | Sicrwydd |
|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid a'r Tîm Arwain** | Mae'r tîm arwain yn gallu dangos bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod yn darparu gwerth am arian. | **Arweinyddiaeth** | **Rhesymol** |
| | Mae'r awdurdod yn cydymffurfio â *Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol*. | **Arweinyddiaeth** | **Sylweddol** |
| **Arddull llywodraethu a rheolaeth ariannol** | Mae'r tîm arwain yn dangos ei gyfrifoldeb dros lywodraethu a rheolaeth fewnol yn ei weithredoedd a'i ymddygiad. | **Sicrwydd** | **Sylweddol** |
| | Mae'r awdurdod yn defnyddio *Fframwaith Darparu Trefniadau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol* CIPFA/SOLACE (2016): | **Atebolrwydd** | **Sylweddol** |
| | Mae arddull rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol. | **Cynaliadwyedd** | **Rhesymol** |
| **Rheolaeth ariannol hirdymor i'r tymor canolig** | Mae'r awdurdod wedi cynnal asesiad credadwy a thryloyw o gadernid ariannol. | **Sicrwydd** | **Rhannol** |
| | Mae'r awdurdod yn deall ei ddisgwyliadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hirach ac mae wedi hysbysu hyn yn glir i'w aelodau. | **Cynaliadwyedd** | **Sylweddol** |
| | Mae'r awdurdod yn cydymffurfio â *Chod Cyllid Cyfalaf Darbodus mewn Awdurdodau Lleol* CIPFA | **Safonau** | **Sylweddol** |
| | Mae gan yr awdurdod gynllun ariannol aml flwyddyn tymor canolig treigl gyda chynlluniau gwasanaeth cynaliadwy. | **Cynaliadwyedd** | **Rhesymol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Y gyllideb flynyddol** | Mae'r awdurdod yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol mewn perthynas â'r broses pennu cyllideb. | **Safonau** | **Sylweddol** |
| | Mae'r adroddiad cyllideb yn cynnwys datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gadernid y rhagamcanion a datganiad ar ddigonoldeb y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. | **Safonau** | **Sylweddol** |
| **Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynlluniau busnes** | Mae'r awdurdod wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ble y bo'n briodol wrth ddatblygu ei strategaeth ariannol hirdymor, cynllun ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. | **Tryloywder** | **Sylweddol** |
| | Mae'r awdurdod yn defnyddio methodoleg arfarnu opsiynau priodol, wedi'i ddogfennu, i ddangos gwerth am arian ei benderfyniadau. | **Tryloywder** | **Rhannol** |
| **Monitro perfformiad ariannol** | Mae'r tîm arwain yn defnyddio adroddiadau i adnabod a chywiro risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran ei strategaeth cyllideb a chynaliadwyedd ariannol. | **Sicrwydd** | **Rhesymol** |
| | Mae'r tîm arwain yn monitro'r elfennau hynny o'i fantolen sy'n peri risg sylweddol i'w gynaliadwyedd ariannol. | **Arweinyddiaeth** | **Sylweddol** |
| **Adroddiadau ariannol allanol** | Mae gan y Prif Swyddog Cyllid gyfrifoldeb personol a statudol dros sicrhau bod y datganiad o gyfrifon a gynhyrchir gan yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â gofynion adrodd y *Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU.* | **Atebolrwydd** | **Sylweddol** |
| | Mae cyflwyniad y ffigyrau alldro terfynol ac amrywiadau i'r gyllideb yn galluogi'r tîm arwain i wneud penderfyniadau ariannol strategol. | **Atebolrwydd** | **Sylweddol** |

| **Diffiniadau o Sicrwydd** | |
|---|---|
| **Sylweddol** | **Canfuwyd bod pob maes o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.** |
| **Rhesymol** | **Canfuwyd bod y rhan fwyaf o feysydd o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.** |
| **Rhannol** | **Canfuwyd nad oedd y rhan fwyaf o feysydd o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.** |
| **Dim** | **Canfuwyd nad oedd unrhyw un o'r holl feysydd o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.** |

**Cynllun Gweithredu 2020/21**

Ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol ar gyfer 2020/21: fodd bynnag, mae'r cynllun gweithredu canlynol yn ymdrin â'r materion a nodwyd:

| Categori | Maes Risg / Gwendid | Camau i'w Cyflawni yn 2021/22 a Thu hwnt |
|---|---|---|
| **Mae'r tîm arwain yn gallu dangos bod y gwasanaethau a ddarperir gan Heddlu Gwent yn darparu gwerth am arian.** | A yw Heddlu Gwent yn gallu dangos y camau mae wedi eu cymryd i hybu gwerth am arian a'r hyn mae wedi ei gyflawni? | Parhau'r angen i gofnodi buddiannau ac arbedion yn arbennig mewn perthynas ag adolygiadau ar ôl eu rhoi ar waith ac adroddiadau i'r Bwrdd Gwella Gwasanaeth.<br><br>Datblygu'r cysylltiadau rhwng Datganiad Rheoli'r Heddlu, gwaith pennu cyllideb, sefydlu pobl a monitro perfformiad a'u hymgorffori'n llwyr.<br><br>Parhau i ganolbwyntio ar arbedion trwy grwpiau llywodraethu a chyfarfodydd Tîm Prif Swyddogion. |
| **Mae dull rheolaeth ariannol Heddlu Gwent yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol.** | A yw rheolwyr ar draws Heddlu Gwent yn ddigon hyddysg yn ariannol i ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol ac i gael eu dwyn i gyfrif am wneud hynny? | Datblygu sgiliau rheolaeth ariannol ar draws yr heddlu trwy hyfforddiant mewnol a gweithdai cam 2 Cyflawni Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona CIPFA. |
| **Mae Heddlu Gwent wedi cynnal asesiad hygred a thryloyw o gadernid ariannol.** | A yw Heddlu Gwent wedi cynnal Asesiad o Gadernid Ariannol?<br><br>A yw'r Asesiad wedi rhoi prawf ar gadernid cynlluniau ariannol Heddlu Gwent mewn perthynas ag amrywiaeth o senarios gwahanol?<br><br>A yw Heddlu Gwent wedi cymryd camau priodol i roi sylw i unrhyw risgiau a ganfuwyd yn rhan o'r asesiad? | Nid yw pecyn cymorth Asesiad o Gadernid Ariannol CIPFA yn cynnwys cyrff plismona lleol. Mae'r is-grŵp Rheolaeth Ariannol sy'n ceisio cyflawni Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona yn ymdrechu i gynhyrchu pecyn cymorth ond nid yw wedi cael ei brofi eto. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal cyn gynted ag y bydd y pecyn cymorth yn barod. |
| **Mae gan Heddlu Gwent gynllun ariannol aml flwyddyn tymor canolig treigl sy'n gyson â chynlluniau gwasanaeth cynaliadwy.** | A yw'r cynllun ariannol tymor canolig yn gyson ac yn cyd-fynd â chynlluniau gwasanaeth perthnasol a'i strategaeth cyfalaf? | Mae llawer o waith wedi cael ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cynllun ariannol tymor canolig yn cyd-fynd â Datganiad Rheoli'r Heddlu ac mae'n cael ei ystyried ochr yn ochr â'r Strategaethau Cronfeydd wrth Gefn a Chyfalaf. Mae gwaith pellach ar y gweill i wella'r cysylltiad rhwng cynlluniau gweithredol ac adnoddau a strategaethau. |
| **Mae Heddlu Gwent yn defnyddio methodoleg a dogfen briodol ar gyfer arfarnu opsiynau i ddangos gwerth am arian yn ei benderfyniadau.** | A oes gan yr awdurdod fethodoleg ar gyfer arfarnu opsiynau sy'n gyson gyda'r canllawiau a amlinellir yng nghyhoeddiad IFAC/PAIB 'Project and Investment Appraisal for Sustainable Value Creation: Principles in Project and Investment Appraisal'? | Mae trefniadau ar gyfer asesu newidiadau sylweddol yn ddatblygedig ac yn cael eu goruchwylio gan adran Gwella Gwasanaeth. Mae prosiectau'n cael eu rheoli yn defnyddio rhaglenni Prince2, Llyfr Gwyrdd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llywodraeth y DU a chanllawiau a phrosesau perthnasol eraill. Mae gan bob rhaglen gofnod asesiad o effaith / buddiannau ar bob cam, gydag adroddiadau rheolaidd yn ystod y prosiect ac adolygiad ar ôl ei roi ar waith ac mae byrddau llywodraethu'n cael eu hysbysu, yn bennaf y Bwrdd Gwella Gwasanaeth. Parhau i ddatblygu templedi arfarnu opsiynau a thempledi busnes i gyflwyno goblygiadau i Adnoddau Dynol a Chyllid yn fwy eglur.<br><br>Mae'r adran Gwella Gwasanaeth wedi creu swydd bwrpasol ar gyfer swyddog Gwireddu Buddiannau yn ddiweddar i sicrhau bod rhaglenni newid yn cyflawni canlyniadau disgwyliedig. |
| | A yw'r awdurdod yn cynnig arweiniad i swyddogion o ran pryd y dylid arfarnu opsiynau? | Mae trefniadau'n gadarn ond gellid eu gwneud yn fwy clir er mwyn i bob prosiect / achos busnes a gyflwynir i'r Bwrdd Gwella Gwasanaeth gael ei adolygu gan yr adran Gwella Gwasanaeth. Bydd cyfathrebu'n cael ei atgyfnerthu. |
| | A yw agwedd yr awdurdod tuag at arfarnu opsiynau yn cynnwys dulliau addas ar gyfer rhoi sylw i risg ac ansicrwydd? | Mae risgiau cysylltiedig yn cael eu hystyried trwy gydol y broses. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i adlewyrchu effaith ariannol ac anariannol risg yn y prosesau arfarnu. |
| **Mae'r tîm arwain yn defnyddio adroddiadau i adnabod a chywiro risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran ei strategaeth cyllideb a chynaliadwyedd ariannol.** | A yw'r tîm arwain yn hapus gyda'r adroddiadau mae'n eu derbyn a gyda'i allu i ddefnyddio'r adroddiadau hyn i gymryd camau priodol? | Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddarparu adroddiadau ariannol manylach a gallu amserol i ail fuddsoddi mewn gwargedion blwyddyn. |

**CASGLIAD A BARN**

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, maent yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu materion, gan hwyluso'r broses o arfer eu swyddogaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Ar adeg llofnodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, nid yw'r pandemig Coronafeirws wedi cael effaith andwyol ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith. Yn wir, mae buddsoddiad diweddar mewn technoleg ddigidol a symudol, ynghyd â buddsoddiad 'diwylliannol' mewn arferion gweithio ystwyth, wedi galluogi'r ddwy gorfforaeth i gynnal 'busnes fel arfer'.

Nod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yw rheoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni'r amcanion hyn; felly mae'n gallu darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.

Fodd bynnag, ar sail yr adolygiad uchod o ffynonellau ac effeithiolrwydd sicrwydd a nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn fodlon bod ganddynt drefniadau llywodraethu **'Rhesymol'** ar waith, gan gynnwys systemau rheoli mewnol a rheoli risg priodol, sy'n hwyluso'r broses o arfer eu swyddogaethau yn effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn sy'n dod, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r camau Llywodraethu a amlinellir yn y cynllun gweithredu, er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu o fewn yr OPCC a'r Heddlu yn parhau i gael eu gwella yn unol â'r hyn a nodwyd yn eu hadolygiad o effeithiolrwydd. Bydd y broses o weithredu'r camau hyn yn cael ei monitro fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Jeff Cuthbert
………………………………………………………
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

Darren Garwood-Pask
……………………………………………………..
Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd)

Sian Curley
………………………………………………………
Prif Weithredwr (Comisiynydd)

Pamela Kelly
…………………………………………………..
Prif Gwnstabl Gwent

Nigel Stephens
…………………………………………………..
Prif Swyddog Cyllid (Prif Gwnstabl)

## Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Mae'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid (EFA) yn dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r Llywodraeth, incwm, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan Grŵp y PCC o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol. Hefyd, mae'n dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng Grŵp y PCC, y Prif Gwnstabl a gwasanaethau/adrannau cysylltiedig. Cyflwynir incwm a gwariant yn fanylach yn y CIES.

| 2019/20 | | | | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** |
| **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** |
| 69,446 | 17,284 | 86,730 | Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu | 72,080 | 14,670 | 86,750 |
| 30,649 | 5,692 | 36,341 | Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu a PCSO | 32,554 | 4,107 | 36,661 |
| 2,491 | (17) | 2,474 | Goramser a Thaliadau Chwyddo Swyddogion yr Heddlu | 2,541 | (20) | 2,521 |
| 1,447 | 0 | 1,4478 | Goramser a Thaliadau Chwyddo Staff yr Heddlu a PCSO | 1,610 | 0 | 1,610 |
| 3,216 | (6,209) | (2,993) | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr Cyflogedig | 3,274 | 197 | 3,471 |
| 7,256 | 138 | 7,394 | Costau Eiddo | 5,685 | 623 | 6,308 |
| 2,781 | 1,044 | 3,825 | Costau Trafnidiaeth | 2,646 | 1,197 | 3,843 |
| 25,911 | 3,282 | 29,193 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 24,234 | 3,174 | 27,408 |
| 472 | 0 | 472 | Cynlluniau Digwyddiadau Mawr | 412 | 0 | 412 |
| 145 | 0 | 145 | Mentrau Gweithredol Rhagweithiol | 181 | 0 | 181 |
| (15,395) | 1,163 | (14,232) | Incwm Arall | (19,158) | 1,940 | (17,218) |
| 820 | (820) | 0 | Cyfraniad at Gwmni Cyfrifiaduron yr Heddlu | 964 | (964) | 0 |
| 15,096 | (15,096) | 0 | Gofynion Refeniw Eraill a Gymeradwywyd | 18,873 | (18,873) | 0 |
| **144,335** | **6,461** | **150,796** | **Cost Net Gwasanaethau** | **145,896** | **6,051** | **151,947** |
| (134,961) | 25,793 | (109,168) | Incwm a Gwariant Arall | (142,016) | 17,885 | (124,131) |
| **9,374** | **32,254** | **41,628** | **Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **3,880** | **23,936** | **27,816** |
| (52,983) | | | Balans Cychwynnol y Gronfa Gyffredinol Gyfun | (43,609) | | |
| 9,374 | | | Adio / tynnu Gwarged neu Ddiffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer y Flwyddyn (sail Statudol) | 3,880 | | |
| **(43,609)** | | | **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol Gyfun** | **(39,729)** | | |

## Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

**Grŵp**

| 2019/20 | | | | | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **Incwm** | **Net** | **Nodiadau** | | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** |
| **£000** | **£000** | **£000** | | | **£000** | **£000** | **£000** |
| 86,750 | 0 | 86,750 | | Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu | 86,750 | 0 | 86,750 |
| 36,341 | 0 | 36,341 | | Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu a PCSO | 36,661 | 0 | 36,661 |
| 2,474 | 0 | 2,474 | | Goramser a Thaliadau Chwyddo Swyddogion yr Heddlu | 2,521 | 0 | 2,521 |
| 1,447 | 0 | 1,447 | | Goramser a Thaliadau Chwyddo Staff yr Heddlu a PCSO | 1,610 | 0 | 1,610 |
| (2,993) | 0 | (2,993) | | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr Cyflogedig | 3,471 | 0 | 3,471 |
| 7,394 | 0 | 7,394 | | Costau Eiddo | 6,308 | 0 | 6,308 |
| 3,825 | 0 | 3,825 | | Costau Trafnidiaeth | 3,843 | 0 | 3,843 |
| 29,193 | 0 | 29,193 | | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 27,408 | 0 | 27,408 |
| 472 | 0 | 472 | | Cynlluniau Digwyddiadau Mawr | 412 | 0 | 412 |
| 145 | 0 | 145 | | Mentrau Gweithredol Rhagweithiol | 181 | 0 | 181 |
| 0 | (14,232) | (14,232) | | Incwm Arall | 0 | (17,218) | (17,218) |
| 0 | 0 | 0 | | Cyfraniad at Gwmni Cyfrifiaduron yr Heddlu | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | | Taliadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | | Gofynion Refeniw Eraill a Gymeradwywyd | 0 | 0 | 0 |
| **165,028** | **(14,232)** | **150,796** | | **Cost Gwasanaethau** | **169,165** | **(17,218)** | **151,947** |
| 0 | (19,148) | (19,148) | **10** | Gwariant Gweithredu Arall | 0 | (16,898) | (16,898) |
| 43,952 | (3,919) | 40,033 | **11** | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 35,505 | (3,114) | 32,391 |
| 0 | (130,053) | (130,053) | **12** | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | (139,624) | (139,624) |
| **208,980** | **(167,352)** | **41,628** | | **Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **204,670** | **(176,854)** | **27,816** |
| | | (164,460) | **38** | Ail fesur atebolrwydd/asedau buddiannau diffiniedig net | | | 201,190 |
| | | **(164,460)** | | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **201,190** |
| | | **(122,832)** | | **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | | | **229,006** |

**OPCC**

| 2019/20 | | | | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **Incwm** | **Net** | | **Gwariant** | **Incwm** | **Net** |
| **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** |
| 0 | 0 | 0 | Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | 0 |
| 1,223 | 0 | 1,223 | Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu a PCSO | 1,107 | 0 | 1,107 |
| 0 | 0 | 0 | Goramser a Thaliadau Chwyddo Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Goramser a Thaliadau Chwyddo Staff yr Heddlu a PCSO | 0 | 0 | 0 |
| 17 | 0 | 17 | Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr Cyflogedig | 7 | 0 | 7 |
| 5 | 0 | 5 | Costau Eiddo | 6 | 0 | 6 |
| 27 | 0 | 27 | Costau Trafnidiaeth | 6 | 0 | 6 |
| 3,951 | 0 | 3,951 | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,517 | 0 | 4,517 |
| 0 | 0 | 0 | Cynlluniau Digwyddiadau Mawr | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Mentrau Gweithredol Rhagweithiol | (5) | 0 | (5) |
| 0 | (14,232) | (14,232) | Incwm Arall | 0 | (17,218) | (17,218) |
| **5,223** | **(14,232)** | **(9,009)** | **Cost Gwasanaethau** | **5,638** | **(17,218)** | **(11,580)** |
| 198,479 | 0 | 198,479 | Trosglwyddo Cyllid oddi mewn i'r Grŵp | 196,107 | 0 | 196,107 |
| 0 | (19,148) | (19,148) | Gwariant Gweithredu Arall | 0 | (16,898) | (16,898) |
| 1,992 | (633) | 1,359 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 167 | (356) | (189) |
| 0 | (130,053) | (130,053) | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | (139,624) | (139,624) |
| **205,694** | **(164,066)** | **41,628** | **Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **201,912** | **(174,096)** | **27,816** |
| | | (389) | Ail fesur atebolrwydd/asedau buddiannau diffiniedig net | | | 1,344 |
| | | (164,071) | Trosglwyddo oddi mewn i'r Grŵp | | | 199,846 |
| | | **(164,460)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | **201,190** |
| | | **(122,832)** | **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | | | **229,006** |

# Mantolen

| 31 Mawrth 2020 | | | | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **OPCC** | **Grŵp** | | | **OPCC** | **Grŵp** |
| **£000** | **£000** | **Nodiadau** | | **£000** | **£000** |
| 34,635 | 34,635 | **13** | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 47,314 | 47,314 |
| 384 | 384 | **14** | Asedau Anniriaethol | 246 | 246 |
| 0 | 0 | **20** | Asedau Wedi'u Cadw i'w Gwerthu | 181 | 181 |
| 31 | 31 | | Dyledwyr Hirdymor | 51 | 51 |
| **35,050** | **35,050** | | **Asedau Hirdymor** | **47,611** | **47,611** |
| 41,624 | 41,624 | **16** | Buddsoddiadau Tymor Byr | 36,081 | 36,081 |
| 0 | 474 | **17** | Rhestrau | 0 | 451 |
| 11,576 | 11,576 | **18** | Dyledwyr Tymor Byr | 14,131 | 14,131 |
| 5,815 | 5,815 | **19** | Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod | 6,239 | 6,239 |
| **59,015** | **59,489** | | **Asedau Cyfredol** | **56,632** | **57,083** |
| (13,290) | (13,764) | **21** | Credydwyr Tymor Byr | (14,780) | (15,231) |
| (1,417) | (1,417) | **22** | Darpariaethau | (1,537) | (1,537) |
| **(14,707)** | **(15,181)** | | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **(16,317)** | **(16,768)** |
| (1,444,332) | 0 | **21** | Credydwyr Hirdymor | (1,665,644) | 0 |
| (3,172) | (1,447,504) | **38** | Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | (4,710) | (1,670,354) |
| **(1,447,504)** | **(1,447,504)** | | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | **(1,685,454)** | **(1,685,454)** |
| **(1,368,146)** | **(1,368,146)** | | **Asedau Net** | **(1,597,528)** | **(1,597,528)** |
| (46,107) | (46,107) | **23** | Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio | (41,808) | (41,808) |
| 1,414,253 | 1,414,253 | **24** | Cronfeydd Na Ellir eu Defnyddio | 1,624,656 | 1,624,656 |
| **1,368,146** | **1,368,146** | | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn** | **1,597,528** | **1,597,528** |

## Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Grŵp y PCC 2020/21

**Grŵp**

| | Nodiadau | Balans y Gronfa Gyffredinol | Cronfeydd Cyffredinol a Glustnodwyd | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Cyfanswm Cronfeydd y Gellir eu Defnyddio | Cronfeydd Na Ellir eu Defnyddio | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | (9,085) | (34,524) | (2,498) | **(46,107)** | 1,414,253 | **1,368,146** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2020/21** | | | | | | | |
| Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | | 27,816 | 0 | 0 | **27,816** | 0 | **27,816** |
| Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | 0 | **0** | 201,190 | **201,190** |
| **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | | **27,816** | **0** | **0** | **27,816** | **201,190** | **229,006** |
| Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau | **8** | (24,312) | 0 | 0 | **(24,312)** | 24,312 | **0** |
| Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn Eraill | | 376 | | 0 | **376** | **1** | **376** |
| **Cynnydd neu Ostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **3,880** | **0** | **0** | **3,880** | **225,502** | **229,382** |
| Trosglwyddiadau (i)/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | | (4,101) | 4,101 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd neu Ostyngiad yn 2020/21** | | **(221)** | **4,101** | **0** | **3,880** | **225,502** | **229,382** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **(9,306)** | **(30,423)** | **(2,498)** | **(42,227)** | **1,639,755** | **1,597,528** |

## Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Grŵp y PCC 2019/20

| | | Balans y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfeydd Cyffredinol a Glustnodwyd £000 | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £000 | Cyfanswm Cronfeydd y Gellir eu Defnyddio £000 | Cronfeydd Na Ellir eu Defnyddio £000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | (8,987) | (43,996) | (2,327) | **(55,310)** | 1,546,090 | **1,490,780** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2019/20** | | | | | | | |
| Gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | | 41,628 | 0 | 0 | **41,628** | 0 | **41,628** |
| Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | 0 | **0** | (164,460) | **(164,460)** |
| **Cyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr** | | **41,628** | **0** | **0** | 41,628 | **(164,460)** | **(122,832)** |
| Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu o dan reoliadau | **8** | (32,452) | 0 | (171) | **(32,623)** | 32,623 | **0** |
| Trosglwyddiadau Cronfeydd Wrth Gefn Eraill | | 198 | 0 | 0 | **198** | **0** | **198** |
| **Cynnydd neu Ostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **9,374** | **0** | **(171)** | **9,203** | **(131,837)** | **(122,634)** |
| Trosglwyddiadau (i)/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | | (9,472) | 9,472 | 0 | **0** | 0 | **0** |
| **Cynnydd neu Ostyngiad yn 2019/20** | | **(98)** | **9,472** | **(171)** | **9,203** | **(131,837)** | **(122,634)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **(9,085)** | **(34,524)** | **(2,498)** | **(46,107)** | **1,414,253** | **1,368,146** |

# Datganiad Llif Arian

| 2019/20 | | | 2020/21 |
|---|---|---|---|
| **£000** | **Nodiadau** | | **£000** |
| 41,628 | | (Gwarged) neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 27,816 |
| (39,619) | **25** | Addasiad i warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau anariannol | (39,745) |
| 757 | **25** | Addasiad ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwarged neu'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n buddsoddi mewn gweithgareddau neu'n eu cyllido | 178 |
| **2,766** | | **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **(9,715)** |
| (2,715) | **26** | Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | 9,327 |
| 4,511 | **27** | Llif arian parod net o weithgareddau ariannu | 0 |
| **4,562** | | **(Cynnydd) neu ostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | **(424)** |
| 10,377 | | Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 5,815 |
| **5,815** | | **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | **6,239** |

## Cyfrif Pensiynau'r Heddlu

Dyma fanylion Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu ar 31 Mawrth 2021 isod

| 2019/20<br>£000 | | 2020/21<br>£000 |
|---:|---|---:|
| | **Contributions Receivable:** | |
| (14,066) | Employer Contributions | (14,730) |
| (1,676) | Injury Pensions including Gratuities Paid | (1,683) |
| (241) | Early Retirements (Capital Equivalent Charges) | (504) |
| 0 | Un-authorised Backdated Lump Sum Tax Payments (Home Office funding) | 0 |
| (364) | Transfers in from other Schemes | (13) |
| (6,079) | Members Contributions | (6,367) |
| **(22,426)** | **Net Income** | **(23,297)** |
| | **Benefits Payable:** | |
| 32,043 | Pensions Paid | 33,409 |
| 20 | Refunded Contributions | 13 |
| 7,642 | Lump Sum Benefits | 5,411 |
| 0 | Un-authorised Backdated Lump Sum Tax Payments | 0 |
| 74 | Lump Sum Death Benefits | 0 |
| 2 | Transfers out to other Schemes | 5 |
| **39,781** | **Net Expenditure** | **38,838** |
| **17,355** | **Net Amount Payable for the Year** | **15,541** |
| (17,355) | Additional Contribution from the Police & Crime Commissioner | (15,541) |
| 0 | **(Surplus)/Deficit on Fund** | 0 |

Asedau Net Cyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu ar 31 Mawrth 2021 yw:

| 31 March 2020<br>£000 | | 31 March 2021<br>£000 |
|---:|---|---:|
| | **Current Assets:** | |
| 2,430 | Prepaid Pension Benefits | 2,475 |
| 3,027 | Funding to meet deficit due from Police & Crime Commissioner/Home Office | 2,820 |
| 0 | Recovery of Pension Benefits | 0 |
| | **Current Liabilities:** | |
| 0 | Provision for Backdated Lump Sums | 0 |
| (4,527) | Overdrawn Pension Cash Position | (4,862) |
| (930) | Unpaid Pension Benefits | (433) |
| 0 | **Total** | 0 |

Nodiadau i Gyfrif Cronfa Bensiwn yr Heddlu - i'w hadolygu a'u diweddaru

1. Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddilynwyd a'r tybiaethau a wnaed mewn perthynas â Chyfrif Pensiynau'r Heddlu yn cyd-fynd â'r rhai sydd wedi'u nodi yn Nodyn 1, Polisïau Cyfrifyddu;

2. Gweinyddir Cynllun Pensiwn yr Heddlu gan Capita Ccc. dan gontract;

3. Nid oes unrhyw asedau buddsoddi yn y gronfa. Caiff y taliadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn eu cydbwyso i ddim bob blwyddyn trwy dderbyn cyfraniadau ychwanegol gan Gronfa Gyffredinol yr Heddlu, sydd yn ei thro'n cael ei had-dalu gan grant penodol gan y Swyddfa Gartref (Grant Atodol); a

4. Nid yw datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn yn ystyried rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol ar ôl 31 Mawrth 2021. Fodd bynnag, maent wedi'u cynnwys yn y Fantolen o dan Rwymedigaeth Pensiwn Net gyda datgeliadau manwl yn Nodyn 38, Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig.

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ar gyfer Grŵp y PCC

Mae'r nodiadau hyn yn cynrychioli nodiadau cyfunol y Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020/21.

## Nodyn 1-Polisïau Cyfrifo

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn crynhoi trafodion Grŵp y PCC ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a'i sefyllfa erbyn y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021. Mae'n ofynnol i Grŵp y PCC baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Yn bennaf, mae'r arferion hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer (y Cod) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y DU 2020/21 a Chod Ymarfer Adrodd Gwasanaeth CIPFA 2020/21, a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Cost hanesyddol yn bennaf yw'r arfer cyfrifyddu sydd wedi'i fabwysiadu yn y Datganiad o Gyfrifon, wedi'i addasu trwy ailbrisio rhai categorïau o asedau nad ydynt yn gyfredol ac offerynnau ariannol. Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i baratoi ar sail busnes gweithredol.

### 1.2 Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Nad ydynt yn Gyfredol

Mae cost Gwasanaethau'r Heddlu wedi'i debydu gyda'r canlynol er mwyn cofnodi'r gost o gadw asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

(i) Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau sydd wedi'u defnyddio gan y gwasanaeth perthnasol;

(ii) Colledion ailbrisio a cholledion o ran lleihad mewn gwerth ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn; ac

(iii) Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol sydd i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Mae'r taliadau i refeniw am yr uchod yn cael eu codi trwy ddefnyddio addasiad ariannu o fewn y grŵp i Gost Net Gwasanaethau'r Prif Gwnstabl.

Nid yw'n ofynnol i'r Grŵp PCC godi treth gyngor i dalu am golledion dibrisiant, ailbrisio a cholledion o ran lleihad mewn gwerth, neu i dalu am amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o'r refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol, sy'n hafal i swm sy'n cael ei gyfrifo ar sail ddarbodus a'i benderfynu gan y PCC yn unol â chanllawiau statudol. Felly, mae colledion dibrisiant, ailbrisio a cholledion o ran lleihad mewn gwerth, ac amorteiddiadau, yn cael eu disodli gan y cyfraniad ym Malans y Gronfa Gyffredinol (Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) neu'r brif gronfa benthyciadau), ar ffurf trafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf (Cronfa Wrth Gefn Na Ellir ei Defnyddio) yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### 1.3 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgarwch yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid dim ond pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu'n cael eu derbyn. Yn benodol:

(i) Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd Grŵp y PCC yn trosglwyddo risgiau a gwobrwyon sylweddol perchenogaeth i'r prynwr, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Grŵp PCC;

(ii) Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan fydd Grŵp y PCC yn gallu mesur mewn ffordd ddibynadwy canran y trafodion sy'n cael eu cwblhau, a'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Grŵp PCC;

(iii) Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan fyddant yn cael eu defnyddio. Os oes bwlch rhwng dyddiad derbyn y cyflenwadau a'u defnydd, cânt eu cofnodi fel rhestri eiddo yn y Fantolen;

(iv) Cofnodir treuliau sy'n ymwneud â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr cyflogedig) fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan fydd taliadau'n cael eu gwneud;

(v) Cyfrifir y llog sy'n cael ei dderbyn ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau yn y drefn honno fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian parod sy'n cael ei bennu a'i benderfynu gan y contract;

(vi) Os yw refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol yn y Fantolen. Os nad yw dyledion yn cael eu talu, cofnodir cydbwysedd y dyledwyr, a chodir tâl i'r refeniw am yr incwm na ellir ei gasglu o bosibl.

### 1.4 Eitemau Eithriadol

Pan fydd eitemau incwm a threuliau yn berthnasol, datgelir eu natur a'u maint ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor berthnasol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol Grŵp y PCC.

### 1.5 Derbyniadau Cyfalaf

Mae derbyniadau cyfalaf (sy'n codi o waredu asedau cyfalaf) lle mae'r elw o werthu yn fwy na £10,000 nad yw wedi'i neilltuo ar gyfer adbrynu dyled neu ariannu gwariant cyfalaf newydd yn cael eu cadw yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf y Gellir eu Defnyddio. Cyflwynir derbyniadau a briodolwyd i'r Gronfa hon yn y Datganiad Symudiad ar Gronfeydd.

### 1.6 Arian Parod ac Eitemau sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian parod (buddsoddiadau hylifol iawn) yn cael eu cynrychioli gan arian mewn llaw, adneuon a buddsoddiadau sydd â thymor gwreiddiol o lai na thri mis ac sy'n ad-daladwy ar rybudd o ddim mwy na 24 awr heb gosb berthnasol. Yn y Fantolen, nid yw arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais, ac maent yn rhan annatod o reoli arian parod Grŵp y PCC.

### 1.7 Buddion Gweithwyr Cyflogedig

#### Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Mae buddiannau tymor byr gweithwyr cyflogedig i fod i gael eu talu o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl a goramser ar y cerdyn, ac maent yn cael eu cydnabod fel traul ar gyfer gwasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr cyflogedig yn darparu gwasanaeth i'r Grŵp PCC. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, oriau hyblyg a goramser ar y cerdyn) y mae gweithwyr cyflogedig wedi'u hennill ond nad ydynt wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn. Gall gweithwyr cyflogedig eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r croniad yn cael ei wneud ar y cyfraddau cyflog sy'n berthnasol ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu perthnasol. Codir am y croniad i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond yna mae'n cael ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel bod buddion gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd.

#### Buddion Terfynu Swydd

Mae buddion terfynu yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan Grŵp y PCC i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyflogedig cyn y dyddiad ymddeol arferol, neu benderfyniad gweithiwr cyflogedig i dderbyn diswyddiad gwirfoddol yn gyfnewid am y buddion hynny. Pan fydd Grŵp y PCC yn dangos ymrwymiad i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyflogedig neu grŵp o weithwyr cyflogedig, neu pan fydd yn gwneud cynnig i annog diswyddiad gwirfoddol, codir y costau hyn ar sail croniadau i'r llinell wasanaeth briodol yn y CIES.

#### Buddion ôl-gyflogaeth

Mae'r costau pensiwn sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon wedi'u penderfynu'n unol â rheoliadau perthnasol y Llywodraeth. Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i rwymedigaethau pensiwn presennol ac yn y dyfodol ymddangos yng nghyfrifon sefydliadau (cyhoeddus a phreifat). Mae'n nodi bod angen cydnabod yr ased/rhwymedigaeth yn llawn; bod cronfa bensiwn yn ymddangos yn y Fantolen; a bod cofnodion yn y CIES yn nodi symudiadau yn yr ased/rhwymedigaeth.

Mae'r Grŵp PCC yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn ôl-gyflogaeth, sef Cynllun Pensiwn yr Heddlu ar gyfer Swyddogion yr Heddlu, a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gwent Fwyaf (Torfaen), ar gyfer Staff yr Heddlu. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau e.e. cyfandaliadau ymddeol a phensiynau sydd wedi'u hennill gan weithwyr cyflogedig sy'n gweithio i'r Grŵp PCC, neu ar gyfer partïon cysylltiedig.

O safbwynt buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans Cronfa'r Heddlu dalu'r swm sy'n daladwy gan Grŵp y PCC i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, nid y swm sydd wedi'i gyfrifo yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol, yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae hyn yn golygu bod yna ddyraniadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiynau er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol, a'u disodli â debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond nad ydynt wedi'u talu erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n dilyn yn y Gronfa Bensiynau yn mesur yr effaith fanteisiol ar y Gronfa Gyffredinol sy'n deillio o'r angen i fod yn atebol am fuddion ymddeol ar sail llif arian parod yn hytrach na fel buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr cyflogedig.

#### Buddion yn ôl Disgresiwn

Mae Grŵp y PCC yn darparu buddion ôl-gyflogaeth yn ôl disgresiwn sy'n deillio o wasanaeth ychwanegol. Ni chaiff y buddiannau hyn eu hariannu, ac mae cyfrif refeniw Grŵp y PCC yn talu'r costau'n uniongyrchol.

#### Buddion Anafiadau

Hefyd, mae Grŵp y PCC yn talu buddion anafiadau i Swyddogion yr Heddlu sydd wedi ymddeol am resymau meddygol ar ôl cael anaf wrth gyflawni eu dyletswyddau. Telir symiau fel rhan o bensiwn misol y Swyddogion, ond yn hytrach na bod yn eitem o gost yng Nghyfrif Pensiynau'r Heddlu, mae'r symiau hyn yn cael eu trosglwyddo i CIES ac maent yn dâl yn erbyn balans Cronfa Gyffredinol yr Heddlu.

**1.8 Offerynnau Ariannol**

**Rhwymedigaethau Ariannol**

Yn y lle cyntaf, caiff rhwymedigaethau ariannol eu mesur yn ôl gwerth teg a'u cost wedi'i hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r CIES ar gyfer llog yn seiliedig ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth, wedi'i luosi â chyfradd llog effeithiol y rhwymedigaeth. Y swm sy'n ymddangos yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ddyledus ynghyd â llog cronedig ar y rhwymedigaeth.

**Asedau Ariannol**

Mae dau fath o ased ariannol:

(i) Benthyciadau a symiau derbyniadwy – asedau sydd â thaliadau sefydlog neu fesuradwy ond nad ydynt yn cael eu prisio mewn marchnad weithredol; ac

(ii) Asedau sydd ar gael i'w gwerthu – asedau sydd â phris y farchnad a/neu nad oes ganddynt daliadau sefydlog neu fesuradwy.

Gwerth cario ymlaen yw gwerth benthyciadau a symiau derbyniadwy, gan nad oes modd gwerthu'r asedau hyn ac na ellir eu prisio ar y farchnad. Nid oes gan Grŵp y PCC unrhyw asedau sydd ar gael i'w gwerthu.

**1.9 Gwerth Teg**

Mae'r Cod wedi mabwysiadu IFRS 13 Mesur Gwerth Teg a'i ddefnyddio'n briodol yn y Datganiadau Ariannol. Mae'r IFRS yn ceisio cynyddu cysondeb a chymaroldeb y mesur gwerth teg a'r datgeliadau cysylltiedig.

Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu'n cael ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesur. Mae'r mesur gwerth teg yn rhagdybio bod y trafodiad i werthu'r ased neu drosglwyddo'r rhwymedigaeth yn digwydd naill ai:

(i) Yn y brif farchnad ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, neu

(ii) Yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

Mae'r Grŵp PCC yn defnyddio technegau prisio priodol ym mhob sefyllfa, gan fanteisio'n llawn ar ddata hysbys perthnasol a lleihau'r defnydd o amcangyfrifon neu eitemau anhysbys. Mae hyn yn ystyried tri chategori gwahanol ar gyfer mewnbynnau i brisiadau ar gyfer asedau gwerth teg:

(i) Lefel 1 – prisiau wedi'u dyfynnu;
(ii) Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio prisiau wedi'u dyfynnu wedi'u cynnwys o fewn Lefel 1, y mae modd arsylwi arnynt ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; neu
(iii) Lefel 3 – mewnbynnau na ellir arsylwi arnynt ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

**1.10 Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth**

Waeth a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, nodir bod grantiau'r Llywodraeth, cyfraniadau trydydd partïon a rhoddion yn ddyledus i Grŵp y PCC pan fydd sicrwydd rhesymol o'r canlynol:

(i) Bydd Grŵp y PCC yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau,

(ii) Bydd y grantiau neu'r cyfraniadau'n cael eu derbyn.

Nid yw symiau sy'n ddyledus i'r Grŵp PCC yn cael eu hachredu i'r CIES nes y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â'r grant neu'r cyfraniad. Mae'r amodau'n nodi bod yn rhaid i'r budd economaidd neu'r potensial am wasanaeth a ymgorfforir yn yr ased sydd wedi'i gaffael trwy ddefnyddio'r grant neu'r cyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd yn y modd a bennir. Oni wneir hynny, mae'n rhaid dychwelyd buddion economaidd y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth i'r trosglwyddwr.

**1.11 Rhestri Eiddo a Chontractau Hirdymor**

Mae Grŵp y PCC yn cadw stoc o wisgoedd, arfwisg a chydrannau cerbydau. Mae stociau o ddisel, eitemau'r ddalfa a nwyddau traul cyfrifiadurol wedi'u dileu o'r Fantolen a'u trosglwyddo i'r CIES yn ystod y flwyddyn gan nad ystyriwyd bod y balansau a oedd yn cael eu cadw yn berthnasol. Mae gwerth stociau sy'n cael eu cadw ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gofnodi yn y cyfrifon yn unol â'r gost gyfredol, ac eithrio cydrannau cerbydau, sy'n cael eu cofnodi fel cost hanesyddol.

**1.12 Dadansoddiad a Gorbenion Gwariant Gwasanaethau**

Arweiniodd y fenter ddatgelu 'Adrodd y Stori ' at ddiwygio Cyflwyno Datganiadau Ariannol IAS 1.

O ganlyniad, ac yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, mae Cost Net Gwasanaethau'r Heddlu wedi'i hadrodd yn unol ag adroddiadau rheoli mewnol ar gyfer Grŵp y PCC a'r Prif Gwnstabl. Nid yw'r cyflwyniad yn segmentol ac nid yw costau gorbenion a gwasanaethau cymorth wedi cael eu hailddyrannu. Fodd bynnag, mae'r fformat yn cyd-fynd â threfniadau Grŵp y PCC ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

**1.13 Asedau Anniriaethol**

Caiff gwariant ar asedau anariannol nad oes ganddynt sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn deillio o'r ased anniriaethol.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur ar gost i ddechrau. Nid yw symiau'n cael eu hailbrisio oni bai bod modd penderfynu gwerth teg yr asedau trwy gyfeirio at farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes unrhyw ased anniriaethol yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly maent yn cael eu cadw yn unol â'r gost wedi'i hamorteiddio.

Categorïau'r prif asedau a'u hoes economaidd ddefnyddiol, wedi'u hamorteiddio ar sail llinell syth yn unol ag Asedau Anniriaethol IAS 38 yw:

| Categorïau Prif Asedau a'u Hoes Economaidd Ddefnyddiol | Blynyddoedd |
|---|---|
| Asedau Eraill e.e. Trwyddedau Meddalwedd | 3, 5 |

**1.14 Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar**

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu cadw i'w defnyddio'n barhaus wrth ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol.

**Cydnabyddiaeth**

Caiff yr holl wariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau a chyfarpar ei gyfalafu ar sail croniadau yn y cyfrifon. Caiff y gwariant ei gyfalafu ar yr amod bod yr ased sefydlog yn esgor ar fudd parhaol i Grŵp y PCC am gyfnod o fwy na blwyddyn a bod gwerth yr ased yn fwy na'r lefel de-minimis o £6,000. Caiff gwariant ar waith cynnal a chadw ei godi ar y cyfrif incwm a gwariant.

**Mesur**

I ddechrau, mae asedau sefydlog yn cael eu mesur ar sail cost, gan gynnwys y pris prynu ac unrhyw gostau y gellir eu priodoli i ddefnyddio'r ased.

Yna, caiff asedau eu cario yn y Fantolen, gan ddefnyddio'r sylfaen fesur ganlynol:

(i) Tir ac Adeiladau - Gwerth Presennol yn seiliedig ar Werth y Farchnad (MV), Gwerth Defnydd Presennol (EUV) neu Gost Amnewid wedi'i Dibrisio os nad yw MV neu EUV yn hysbys;
(ii) Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar – Gwerth Presennol yn seiliedig ar EUV neu Gost Amnewid wedi'i Dibrisio os nad yw'r EUV yn hysbys;
(iii) Asedau Gwarged Anweithredol – Maent wedi'u mesur yn unol â Mesur Gwerth Teg IFRS 13 ar sail y pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu'r ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad (Lefel 1 yn yr Hierarchaeth Gwerth Teg) ar y dyddiad mesur;
(iv) Asedau sy'n cael eu Cadw i'w Gwerthu – Yr isaf o swm cario a Gwerth Teg (yn seiliedig ar MV neu EUV) llai costau gwerthu.

Cwblheir prisiadau ar wahân ar gyfer tir ac adeiladau o leiaf bob pum mlynedd; cwblhawyd yr ailbrisiad diwethaf yn 16/17. Ar gyfer dosbarthiadau eraill o asedau, cwblheir adolygiadau blynyddol gan berchnogion yr asedau, sy'n cynnwys adolygiad o swm cario'r ased yn y Fantolen. Mae'r cynnydd mewn prisiadau yn cyfateb i gredydau i'r Gronfa Ailbrisio er mwyn cydnabod enillion nas gwireddwyd. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellid credydu enillion i'r CIES os ydynt yn deillio o wrthdroi colled o ran lleihad mewn gwerth a briodolwyd o'r blaen i gyfrif refeniw gwasanaeth. Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys enillion ailbrisio sydd wedi'u cydnabod ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef y dyddiad gweithredu ffurfiol. Mae enillion sy'n codi cyn y dyddiad hwn wedi'u cydgrynhoi yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

**Amhariad**

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd bob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai fod amhariad ar ased. Os oes arwyddion yn bodoli a'i bod yn bosibl y bydd angen dileu ased, penderfynir ar y swm y gellir ei adennill ac, os yw hyn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled o ran lleihad mewn gwerth ar gyfer y diffyg.

Pan benderfynir colli ased sydd wedi'i ailbrisio o'r blaen, caiff ei ddileu yn erbyn unrhyw enillion ailbrisio sy'n cael eu cadw ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio, a bydd CIES yn gyfrifol am unrhyw daliadau ychwanegol. Os yw colled o ran lleihad mewn gwerth yn cael ei gwrthdroi ar ôl hynny, credydir hynny i'r llinell wasanaeth berthnasol yn y CIES, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi 'i godi pe na bai'r golled wedi'i nodi.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar trwy ddyrannu eu symiau dibrisio mewn ffordd systematig yn ystod eu hoes ddefnyddiol. Dyma gategorïau'r prif asedau a'u hoes economaidd ddefnyddiol, wedi'u dibrisio ar sail llinell syth yn unol ag Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar IAS 16:

| Principal Asset Categories and their Useful Economic Lives | Years |
|---|---|
| Buildings | 12, 35, 75, 100 |
| Land | Not Depreciated |
| Vehicles | 5 |
| Plant and Machinery | 5-10 |
| Computer Equipment (Hardware) | 5-10 |
| Radio Masts | 15 |
| Telephone and Radio Equipment | 5-10 |
| Assets Held for Sale | Not Depreciated |
| Non Operational Surplus Assets | As per set Category |
| | |

Ailgodir tâl o gyfrifon y Comisiynydd mewn perthynas â dibrisiant sydd wedi'i godi ar asedau'r Comisiynydd er mwyn adlewyrchu defnydd y Prif Gwnstabl o'r asedau hyn.

### 1.15 Gwarediadau ac Asedau nad ydynt yn Gyfredol sy'n cael eu Cadw i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf trwy drafodiad gwerthu yn hytrach na'i ddefnyddio'n barhaus, mae'n cael ei ailddosbarthu'n Ased i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna'i gario ar ben isaf y swm hwn a gwerth teg llai costau i'w gwerthu. Ni chodir dibrisiant ar Asedau i'w Gwerthu.

Mae gan y dosbarth Asedau i'w Gwerthu feini prawf llym y mae angen eu bodloni cyn y gellir cynnwys asedau o dan ei bennawd. Os nad yw asedau'n cael eu defnyddio ac nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn, maent yn cael eu cynnwys yng nghategori Anweithredol/Gwarged Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddatgomisiynu, mae swm cario'r ased yn y Fantolen yn cael ei ddileu i'r llinell Treuliau Gweithredu Eraill yn y CIES fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth waredu. Caiff derbyniadau o warediadau eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth waredu. Trosglwyddir unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae symiau dros £10,000 sy'n cael eu derbyn yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau yn dâl yn erbyn y Dreth Gyngor gan fod cost asedau sefydlog yn cael ei darparu'n llawn o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Felly, mae enillion a cholledion gwaredu yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Heddlu yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd.

### 1.16 Prydlesi

Codir y rhenti sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredol i'r CIES ar sail croniadau.

### 1.17 Buddiannau mewn Is-gwmnïau, Partneriaethau Cyswllt ac endidau a Reolir ar y Cyd gan gynnwys Trefniadau ar y Cyd

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Grŵp y PCC ddatgelu unrhyw fuddiannau perthnasol mewn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt ac endidau a reolir ar y cyd mewn cyfres o gyfrifon grŵp. Mae'r gofyniad hwn yn golygu cydgrynhoi trafodion a balansau is-gwmnïau a buddiannau mewn partneriaethau cyswllt a mentrau ar y cyd. Ac eithrio Swyddfa Prif Gwnstabl Gwent, nid oes gan Grŵp y PCC unrhyw fuddiannau perthnasol mewn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt neu endidau a reolir ar y cyd y mae angen eu cydgrynhoi. Polisi Grŵp y PCC yw datgelu manylion unrhyw gwmnïau cysylltiedig mewn nodyn i'r datganiadau ariannol.

Os yw Grŵp y PCC wedi ymrwymo i drefniadau cydweithredol gyda Chomisiynwyr/Heddluoedd eraill, mae asesiad wedi'i wneud yn erbyn Trefniadau ar y Cyd IFRS 11 i benderfynu'r llwybr cyfrifyddu priodol. Mae IFRS11 ei gwneud yn ofynnol i'r holl drefniadau o'r fath gael eu dosbarthu'n Fentrau ar y Cyd neu'n Weithrediadau ar y Cyd.

### 1.18 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau i'r cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu mewn ffordd ragolygol, h.y. yn y flwyddyn bresennol a blynyddoedd y dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt, ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Nid yw polisïau cyfrifyddu'n cael eu newid oni bai bod angen gwneud hynny gan arferion cyfrifyddu priodol neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau sefyllfa ariannol neu berfformiad Grŵp y PCC. Os oes newid yn cael ei wneud, fe'i cyflwynir yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi bod ar waith erioed.

Caiff gwallau perthnasol a ganfuwyd mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu cywiro yn ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod.

### 1.19 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

**Darpariaethau**

Yn unol â'r Cod Ymarfer, mae Grŵp y PCC wedi darparu'n briodol ar gyfer rhwymedigaethau sy'n hysbys neu sy'n sicr o ddigwydd ond nad oes sicrwydd ynglŷn â'r amseriad na'r swm perthnasol. Mae darpariaethau o'r fath wedi'u cynnwys yng ngwariant gweithredol y daliadau.

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol**

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn deillio o ddigwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i Grŵp y PCC y bydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau trwy'r digwyddiad neu fel arall yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth Grŵp y PCC. Hefyd, mae rhwymedigaethau digwyddiadol yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

**Asedau Digwyddiadol**

Mae ased digwyddiadol yn codi yn sgil digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i Grŵp y PCC y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau trwy'r digwyddiad neu fel arall yn sgil digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth Grŵp y PCC.

Nid yw rhwymedigaethau ac asedau digwyddiadol yn cael eu nodi yn y Fantolen, ond maent yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

### 1.20 Menter Cyllid Preifat (PFI)

Mae contractau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, lle mae'r cyfrifoldeb am ddarparu'r eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn cael ei drosglwyddo i'r contractwr PFI. Gan yr ystyrir bod Grŵp y PCC yn rheoli'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan ei gynlluniau PFI, a gan y bydd perchenogaeth o'r eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar yn trosglwyddo i Grŵp y PCC heb dâl ychwanegol pan ddaw'r contractau i ben, mae'r Grŵp yn cario'r ased a ddefnyddir o dan y contractau yn ei Fantolen fel rhan o Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

Dadansoddir y symiau sy'n daladwy i'r gweithredwyr PFI bob blwyddyn yn bum elfen:

(i) Gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn;
(ii) Costau cyllid;
(iii) Rhent digwyddiadol;
(iv) Talu tuag at rwymedigaeth;
(v) Costau adnewyddu cylch oes.

Barnwyd bod y contract PFI ar gyfer darparu Uned y Ddalfa a Gorsaf Heddlu yn Ystrad Mynach ar y Fantolen yn unol â rhif dehongli 12 Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), a Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Cymru. Er mwyn 'cywiro' gwahaniaethau proffilio rhwng y taliadau unedol i'r contractwr ac incwm grant penodol gan Lywodraeth Cymru, mae cronfa ad-dalu wedi'i sefydlu i gadw 'gwargedion' cyllid cychwynnol a darparu ar gyfer diffygion cyllid yn y dyfodol.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd, terfynwyd y contract PFI ar 31 Ionawr 2020 a thalwyd y benthyciad yn ôl yn llawn gyda phob rhwymedigaeth a thaliad digolledu wedi'u clirio ar y dyddiad hwnnw. Mae Uned y Ddalfa a'r Orsaf Heddlu yn Ystrad Mynach yn parhau fel ased ar y fantolen.

### 1.21 Cronfeydd Wrth Gefn

Mae Grŵp y PCC yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisi yn y dyfodol neu er mwyn ymdrin â hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu trwy ddefnyddio symiau priodol o Falans Cronfa Gyffredinol yr Heddlu yn y Datganiad ar Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Os ysgwyddir gwariant sy'n cael ei ariannu o gronfa wrth gefn, fe'i codir ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y CIES. Yna, dyrennir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad ar Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oes unrhyw dâl net yn erbyn y Dreth Gyngor ar gyfer y gwariant.

Mae'r categori cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio yn cynnwys y cronfeydd sy'n cael eu cadw i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, ymddeoliadau a buddion gweithwyr cyflogedig, ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer Grŵp y PCC. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hegluro yn y nodiadau perthnasol.

**1.22 Treth Ar Werth (TAW)**

Nid yw incwm a gwariant yn cynnwys unrhyw symiau sy'n ymwneud â TAW gan fod yr holl TAW yn cael ei hanfon i/o Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Felly, mae'r Datganiadau Ariannol Craidd wedi'u paratoi heb gynnwys TAW.

**1.23 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau ffafriol ac anffafriol rhwng diwedd y cyfnod adrodd a dyddiad awdurdodi cyhoeddi’r Datganiad o Gyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

(i) Digwyddiadau sy'n darparu tystiolaeth o'r amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath;

(ii) Digwyddiadau sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl diwedd y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond pe bai categori o ddigwyddiadau'n cael effaith berthnasol, datgelir natur y digwyddiadau a’u heffaith ariannol bosibl yn y nodiadau.

## Nodyn 2 - Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

O dan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21 (y Cod), mae'n ofynnol i Grŵp y PCC ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi effaith newid mewn cyfrifyddu sy'n ofynnol gan safon gyfrifo newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y Cod.

Mae paragraff 1.2.7 o God 2020/21 yn ei gwneud yn ofynnol i newidiadau mewn polisi cyfrifyddu gael eu cyflwyno mewn ffordd ôl-weithredol oni bai bod trefniadau trosiannol amgen wedi'u nodi yn y Cod.

Yn ogystal, mae paragraff 3.3.4.3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto gan y Cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol:

IFRS 16 - Prydlesi, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Gohiriwyd mabwysiadu'r safon hon nes Cod 2022/23.

Ar sail yr uchod, nid yw Grŵp y PCC yn rhagweld y bydd angen unrhyw ddatgeliadau ychwanegol yn natganiadau ariannol 2020/21 mewn perthynas â newidiadau cyfrifyddu a gyflwynwyd yng Nghod 2020/21.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd nad ydynt wedi'u cyhoeddi eto ond a fydd yn cael effaith sylweddol ar adroddiadau ariannol mewn blynyddoedd i ddod.

## Nodyn 3 - Dyfarniadau critigol wrth gyflwyno polisïau cyfrifyddu

Wrth gyflwyno'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn 1, nid oedd angen i Grŵp y PCC wneud unrhyw ddyfarniadau critigol yn ymwneud â thrafodion cymhleth neu drafodion sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol.

Mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid yn y dyfodol. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigonol eto i ddangos y gellid amharu ar yr asedau ymhellach o ganlyniad i'r angen i gau adnoddau a lleihau lefelau darparu gwasanaeth

## Nodyn 4 - Rhagdybiaethau a wnaed am ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon y dyfodol, a ffynonellau ansicrwydd amcangyfrifon eraill

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys ffigurau bras sy'n seiliedig ar ragdybiaethau Grŵp y PCC ynglŷn â'r dyfodol, neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon sy'n ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol iawn i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ym Mantolen Grŵp y PCC ar 31 Mawrth 2021, y mae risg sylweddol yn berthnasol iddynt, yn sgil addasiadau perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

**I'w diweddaru:**

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i ragdybiaethau |
|---|---|---|
| **Eiddo, peiriannau a chyfarpar** | Caiff asedau nad ydynt yn gyfredol eu dibrisio yn ystod oes ddefnyddiol sy'n dibynnu ar ragdybiaethau yn ymwneud â lefel yr atgyweiriadau a'r gwaith cynnal a chadw a ysgwyddir. Oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, nid oes sicrwydd y bydd Grŵp y PCC yn gallu cynnal ei wariant presennol ar atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw, gan fwrw amheuaeth ar oes ddefnyddiol yr asedau. | Os yw oes ddefnyddiol asedau yn cael ei lleihau, mae dibrisiant yn cynyddu ac mae swm cario'r ased yn gostwng. Amcangyfrifir y byddai'r tâl dibrisiant blynyddol ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynyddu tua £1.272 miliwn bob blwyddyn y mae oes ddefnyddiol sylfaen asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar y Grŵp yn lleihau. |

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i ragdybiaethau |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaeth pensiynau'r heddlu** | Mae amcangyfrif o’r rhwymedigaeth i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y disgwylir i gyflogau gynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r enillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Gofynnwyd i Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) roi cyngor arbenigol i Grŵp y PCC ar y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio. | Gellir mesur yr effeithiau ar rwymedigaeth pensiwn net y newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.5% yng nghyfradd y cynnydd mewn cyflogau yn creu cynnydd o £15 miliwn yn Rhwymedigaeth Cynllun Pensiwn yr Heddlu.<br><br>Byddai cynnydd blwyddyn mewn disgwyliad oes Pensiynwyr yr Heddlu yn arwain at gynnydd o £51 miliwn yn Rhwymedigaeth Pensiwn yr Heddlu.<br><br>Fodd bynnag, mae’r rhagdybiaethau yn rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth a sensitif. Yn ystod 2020/21, dywedodd GAD fod y rhwymedigaeth pensiynau net wedi cynyddu £166.61 miliwn oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd. Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, roedd y rhwymedigaeth pensiwn net wedi gostwng £99 miliwn, a briodolwyd i newidiadau mewn Rhagdybiaethau ariannol.<br><br>Nododd adroddiad IAS19 yr actiwari ar Gynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu fod y cynllun newydd ddod i rym yn 2015 ac y gallai hyn effeithio ar batrymau ymddeol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ar gael eto ar brofiad y cynllun a fyddai'n amlygu'r newid hwn. Byddai unrhyw addasiad posibl yn oddrychol iawn, felly nid oes unrhyw addasiad wedi’i wneud. |
| **Absenoldebau Cronedig** | Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth mewn perthynas â gwyliau blynyddol heb eu cymryd, oriau hyblyg, diwrnodau gorffwys ar gyfer adfer a goramser ar y cerdyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio dulliau samplu i lunio amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth berthnasol. Gall maint a methodoleg y sampl gael effaith ar yr atebolrwydd terfynol a amcangyfrifir. | Mae effaith cynnydd o 1% mewn absenoldebau cronedig heb eu cymryd yn arwain at gynnydd o £21,000 yn y rhwymedigaeth wedi’i hamcangyfrif. |
| **Ôl-ddyledion** | Ar 31 Mawrth 2021, balans Dyledwyr Amrywiol Grŵp y PCC oedd £954,000. Awgrymodd adolygiad o lefelau dyled hanesyddol y bu'n rhaid ei dileu mewn blynyddoedd blaenorol fod angen darpariaeth ddiwedd blwyddyn ar gyfer dyledion drwg o £6,000. | Ni fyddai cynnydd o 1% yn y swm cyfartalog o ddyledion sydd angen eu dileu yn gofyn am unrhyw newid i’r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ar 31 Mawrth 2021. |

## Nodyn 5 -Eitemau Incwm a Gwariant Perthnasol

Nid oes unrhyw eitemau materol o incwm a gwariant sy'n gofyn am ddatgeliad ar wahân.

## Nodyn 6 -Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen

Awdurdodwyd cyhoeddi’r Datganiad o Gyfrifon Drafft gan y Prif Swyddog Cyllid ar 28 Mai 2021. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau addasu neu nad ydynt wedi’u haddasu nad ydynt wedi eu hadlewyrchu eisoes yn y Datganiad Cyfrifon hwn.

## Nodyn 7 -  - Nodyn i'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

Roedd y nodyn canlynol i'r EFA yn darparu cysoniad o eitemau addasu'r EFA a'r (Gwarged) neu'r Diffyg ar Gronfa'r Heddlu.  Caiff yr addasiadau eu crynhoi i gategorïau gwahanol ac maent yn cynnwys addasiadau at ddibenion cyfalaf, pensiynau a gwahaniaethau eraill. Mae gwahaniaethau eraill yn cynnwys addasiadau datgelu rhwng symiau a adroddwyd i reolwyr a symiau a adroddwyd yn y CIES o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Hefyd, datgelir yr addasiadau hyn yn Nodyn 8 - Addasiadau rhwng Sylfaen Gyfrifyddu a Sylfaen Ariannu.

| | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addasiadau Statudol Cyfalaf Net** | **Addasiadau Statudol Pensiynau Net** | **Gwahaniaethau Eraill** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu | 0 | 30,650 | (15,980) | 14,670 |
| Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu a PCSO | 0 | 5,913 | (1,806) | 4,106 |
| Goramser a Thaliadau Chwyddo Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | (20) | (20) |
| Goramser a Thaliadau Chwyddo Staff yr Heddlu a PCSO | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr Cyflogedig | 0 | 197 | 0 | 197 |
| Costau Eiddo | 623 | 0 | 0 | 623 |
| Costau Trafnidiaeth | 1,201 | 0 | (4) | 1,197 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 1,396 | 0 | 1,778 | 3,174 |
| Cynlluniau Digwyddiadau Mawr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mentrau Gweithredol Rhagweithiol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm Arall | 58 | 0 | 1,882 | 2,940 |
| Cyfraniad at Gwmni Cyfrifiaduron yr Heddlu | 0 | 0 | (964) | (964) |
| Gofynion Refeniw Eraill a Gymeradwywyd | (15,848) | 0 | (3,025) | (18,873) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(12,570)** | **36,760** | **(18,139)** | **6,051** |
| Incwm a Gwariant Arall | (152) | 0 | 18,037 | 17,885 |
| **Gwahaniaeth rhwng y Tâl Statudol a'r Gwarged neu'r Diffyg yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | **(12,722)** | **36,760** | **(102)** | **23,936** |

| | 2019/20 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Addasiadau Statudol Cyfalaf Net** | **Addasiadau Statudol Pensiynau Net** | **Gwahaniaethau Eraill** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyflogau a Lwfansau Swyddogion yr Heddlu | 0 | 37,460 | (20,176) | 17,284 |
| Cyflogau a Lwfansau Staff yr Heddlu a PCSO | 0 | 7,492 | (1,800) | 5,692 |
| Goramser a Thaliadau Chwyddo Swyddogion yr Heddlu | 0 | 0 | (17) | (17) |
| Goramser a Thaliadau Chwyddo Staff yr Heddlu a PCSO | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau Eraill sy'n Gysylltiedig â Gweithwyr Cyflogedig | 0 | (6,210) | 1 | (6,209) |
| Costau Eiddo | 512 | 0 | (374) | 138 |
| Costau Trafnidiaeth | 1,056 | 0 | (12) | 1,044 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 1,530 | 0 | 1,752 | 3,282 |
| Cynlluniau Digwyddiadau Mawr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mentrau Gweithredol Rhagweithiol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm Arall | 0 | 0 | 1,163 | 1,163 |
| Cyfraniad at Gwmni Cyfrifiaduron yr Heddlu | 0 | 0 | (820) | (820) |
| Taliadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gofynion Refeniw Eraill a Gymeradwywyd | (9,594) | 0 | (5,502) | (15,096) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(6,496)** | **38,742** | **(25,785)** | **6,461** |
| Incwm a Gwariant Arall | 0 | 0 | 25,793 | 25,793 |
| **Gwahaniaeth rhwng y Tâl Statudol a'r Gwarged neu'r Diffyg yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | **(6,496)** | **38,742** | **8** | **32,254** |

## Nodyn 8 - Addasiadau rhwng y Sylfaen Gyfrifyddu a’r Sylfaen Ariannu o dan Reoliadau

Mae'r nodyn isod yn cynnwys manylion am yr addasiadau sy’n cael eu gwneud i gyfanswm y CIES a gydnabyddir gan Grŵp y PCC yn y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol er mwyn nodi'r adnoddau sy’n cael eu pennu gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i Grŵp y PCC i fodloni gofynion gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| **2020/2021** | **Balans y Gronfa Gyffredinol** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso** | **Symudiad mewn Cronfeydd Na Ellir eu Defnyddio** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw | | | | |
| Y gwahaniaeth rhwng yr incwm a'r gwariant a gynhwysir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, a'r refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifir yn unol â'r gofynion statudol: | | | | |
| Cost pensiwn (wedi'i throsglwyddo i (neu o) y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn) | (36,760) | | | 36,760 |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Absenoldebau Cronedig) | (274) | | | 274 |
| Gwrthdroi cofnodion wedi’u cynnwys yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf (codir tâl am yr eitemau hyn i’r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (3,127) | | 0 | 3,127 |
| Cyfanswm yr Addasiadau i Adnoddau Refeniw | (40,161) | 0 | 0 | 40,161 |
| Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | | |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o'r balansau refeniw (trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | 15,849 | | | (15,849) |
| Cyfanswm yr Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf | 15,849 | 0 | 0 | (15,849) |
| Addasiadau eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(24,312)** | **0** | **0** | **24,312** |

| 2019/2020 | Balans y Gronfa Gyffredinol | Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Symudiad mewn Cronfeydd Na Ellir eu Defnyddio |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw | | | | |
| Y gwahaniaeth rhwng yr incwm a'r gwariant a gynhwysir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, a'r refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifir yn unol â'r gofynion statudol: | | | | |
| Cost pensiwn (wedi'i throsglwyddo i (neu o) y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn) | (38,742) | | | 38,742 |
| Tâl gwyliau (wedi'i drosglwyddo i'r Gronfa Absenoldebau Cronedig) | (441) | | | 441 |
| Gwrthdroi cofnodion wedi'u cynnwys yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf (codir tâl am yr eitemau hyn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | (3,034) | | 0 | 3,034 |
| Cyfanswm yr Addasiadau i Adnoddau Refeniw | (42,217) | 0 | 0 | 42,217 |
| Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf | | | | |
| Trosglwyddo enillion gwerthu asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf | 171 | (171) | | |
| Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o'r balansau refeniw (trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf) | 9,594 | | | (9,594) |
| Cyfanswm yr Addasiadau rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf | 9,765 | (171) | 0 | (9,594) |
| Addasiadau eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(32,452)** | **(171)** | **0** | **32,623** |

## Nodyn 9 - Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi

Mae'r nodyn hwn yn dangos y symiau a neilltuwyd o falansau Cronfa Heddlu Grŵp y PCC mewn Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi, er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwariant Cronfa'r Heddlu yn 2020/21.

| | Balans ar 1 Ebrill 2019 | Trosglwyddi adau i mewn 2019/20 | Trosglwyddi adau allan 2019/20 | Balans ar 31 Mawrth 2020 | Addasiad i'r Balans Agoriadol | Trosglwyddi adau i mewn 2020/21 | Trosglwyddi adau allan 2020/21 | Balans ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol:** | | | | | | | | |
| Ymwybyddiaeth o Gyflymder | (64) | 0 | 0 | **(64)** | 0 | 0 | 0 | **(64)** |
| PFI - Buddsoddi | (10,990) | (85) | 11,075 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Balans Cyllidebol yn y Dyfodol | (4,379) | 0 | 690 | **(3,689)** | 0 | 0 | 763 | **(2,926)** |
| Strategaeth Gomisiynu'r PCC | (493) | (201) | 493 | **(201)** | 0 | (1,588) | 123 | **(1,666)** |
| Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau'r PCC | (168) | 0 | 0 | **(168)** | 0 | 0 | 0 | **(168)** |
| Ffrwd waith | (4,488) | (929) | 1,824 | **(3,593)** | 0 | (1,807) | 934 | **(4,466)** |
| Achosion Cyfreithiol sydd ar y gweill | (149) | 0 | 0 | **(149)** | 0 | 0 | 0 | **(149)** |
| Deddf Enillion Troseddau | (305) | (150) | 117 | **(338)** | 0 | (150) | 150 | **(338)** |
| Cronfeydd Trydydd Parti | (64) | 0 | 0 | **(64)** | 0 | 0 | 3 | **(61)** |
| Comisiynu Gwasanaethau i Ddioddefwyr | (228) | (6) | 87 | **(147)** | 0 | 0 | 93 | **(54)** |
| Grantiau Refeniw heb eu Gwario | (294) | 0 | 6 | **(288)** | 0 | (268) | 9 | **(547)** |
| Pencadlys Newydd yr Heddlu | (18,060) | (5,275) | 3,119 | **(20,216)** | 0 | (420) | 9,901 | **(10,735)** |
| Airwave | (2,591) | (2,016) | 0 | **(4,607)** | 0 | (3,642) | 0 | **(8,249)** |
| Cronfa Gyfalaf a Glustnodwyd | (1,723) | 0 | 1,723 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ymgyrch Uplift | 0 | (1,000) | 0 | **(1,000)** | 0 | 0 | 0 | **(1,000)** |
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol** | **(43,996)** | **(9,662)** | **19,134** | **(34,524)** | **0** | **(7,875)** | **11,976** | **(30,423)** |

Isod, ceir manylion y Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi neu y Gellir eu Defnyddio gan Grŵp y PCC, ynghyd â nodyn esboniadol yn ymwneud â'u defnydd.

**Ymwybyddiaeth o Gyflymder**

Mae hyn yn ariannu cynlluniau sy'n codi ymwybyddiaeth o effaith goryrru.

**Cronfa Fuddsoddi PFI**

Defnyddir hyn i ariannu gwariant yn y dyfodol yn erbyn Safle PFI Grŵp y PCC yn Ystrad Mynach. Terfynwyd y contract PFI ar 31 Ionawr 2020 ac ni fydd y gronfa wrth gefn hon yn cael ei defnyddio mwyach.

**Cronfa Balans Cyllidebol yn y Dyfodol**

Defnyddir hyn i sicrhau bod y Comisiynydd yn gallu pennu cyllideb gytbwys rhwng 2019/20 a 2023/24 yn unol â chynllun ariannol tymor canolig y Comisiynydd.

**Strategaeth Gomisiynu'r Comisiynydd**

Mae hyn yn ariannu Strategaeth Gomisiynu tair haen y Comisiynydd mewn perthynas â'r Rhaglen Effaith Gadarnhaol, y Gronfa Bartneriaeth a Chomisiynu Strategol.

**Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau'r Comisiynydd**

Nod y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau yw ymgysylltu â defnyddwyr cyffuriau sydd eisoes yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn eu hatal rhag aildroseddu.

**Ffrwd waith**

Defnyddir hyn i ariannu pethau fel Tîm y Prosiect Gorchymyn a Rheoli, adnewyddu arfwisg corff, hyfforddiant rheolwyr llinell gyntaf, cronfa wrth gefn Gan Bwyll a phrofion cyffuriau.

**Achosion Cyfreithiol sydd ar y gweill**

Mae hyn yn ariannu rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o achosion cyfreithiol presennol/yn y dyfodol a allai gael effaith andwyol ar Grŵp y PCC, fel Rheoliad A19.

**Deddf Enillion Troseddau**

Mae'n cadw arian sydd wedi'i ddyfarnu i Grŵp y PCC o dan orchymyn fforffedu arian parod neu orchymyn atafaelu.

**Cronfeydd Trydydd Parti**

Mae hyn yn ariannu'r broses o ddatblygu'r Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymraeg a Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.

**Y Gronfa Comisiynu Gwasanaethau i Ddioddefwyr**

Mae'r Gwasanaeth Canolfan Dioddefwyr yn cefnogi anghenion dioddefwyr fel y gallant ymdopi a gwella.

**Grantiau Refeniw heb eu Gwario**

Grantiau refeniw sydd wedi'u derbyn yn y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd blaenorol nad ydynt wedi'u gwario eto.

**Ymgyrch Uplift**

Defnyddir y gronfa hon i ariannu costau mewn perthynas â'r swyddogion ychwanegol a recriwtiwyd dan Ymgych Uplift.

**Cronfa Pencadlys yr Heddlu a Chyfnewid Cyfalaf**

Mae hyn yn ofynnol er mwyn ariannu'r cynllun i ddisodli Pencadlys yr Heddlu ar hyn o bryd yng Nghroesyceiliog, Cwmbrân. Rhagwelir y bydd y gronfa hon yn cael ei defnyddio rhwng 2017/18 a 2020/21 i brynu llety newydd. Hefyd, defnyddir y gronfa hon i ariannu gofynion cyfnewid cyfalaf eraill y grŵp.

**Cronfa wrth Gefn Airwave/ESN**

Defnyddir y gronfa hon i ariannu'r broses gylchol o ddisodli'r System Gyfathrebu Airwave sy'n cael ei defnyddio gan yr Heddlu, ac i fuddsoddi er mwyn trosglwyddo i'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) newydd.

**Cronfa Gyfalaf a Glustnodwyd**

Defnyddir y gronfa hon i ariannu cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol.

## Nodyn 10 - Gwariant Gweithredu Arall

Mae Incwm a Gwariant Gweithredu arall a gofnodir yn cynnwys yr holl ardollau sy'n daladwy, (enillion)/colledion sy'n deillio o warediadau asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn, a Grant Atodol y Swyddfa Gartref sy'n ariannu diffyg cyfrif pensiwn Swyddogion yr Heddlu ar 31 Mawrth 2021. Nid oedd modd dyrannu unrhyw un o'r eitemau hyn na'u dosrannu i feysydd gwasanaeth.

| **2019/20 £000** | | **2020/21 £000** |
|---:|---|---:|
| 0 | Ardollau | 0 |
| (23) | Enillion/colledion ar Waredu Asedau nad ydynt yn Gyfredol | (32) |
| (19,125) | Arall | (16,866) |
| **(19,148)** | **Cyfanswm Gwariant Gweithredu Arall** | **(16,898)** |

## Nodyn 11 - Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddi

Cyllid, incwm buddsoddi, a gwariant, sy'n deillio o gysylltiad Grŵp y PCC ag offerynnau ariannol a thrafodion tebyg sy'n PCymwneud â llog, gan gynnwys llog pensiwn net a godir yn ystod y cyfnod ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased).

| **2019/20 £000** | | **2020/21 £000** |
|---:|---|---:|
| 1,802 | Llog taladwy a thaliadau tebyg | 0 |
| 38,755 | Llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig (ased) | 32,654 |
| (524) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (263) |
| **40,033** | **Cyfanswm** | **32,391** |

## Nodyn 12 - Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol

Yr holl grantiau a chyfraniadau amhenodol derbyniadwy na ellir eu priodoli i unrhyw faes gwasanaeth penodol ac felly na ellir eu credydu i'r swm incwm gros sy'n berthnasol i faes gwasanaeth. Yn ogystal, caiff yr holl grantiau a chyfraniadau cyfalaf eu credydu i incwm grant amhenodol hyd yn oed os ydynt yn ymwneud â gwasanaeth penodol.

| **2019/20 £000** | | **2020/21 £000** |
|---:|---|---:|
| (56,042) | Incwm y dreth gyngor | (60,540) |
| (9,873) | Incwm a gwariant ardrethi annomestig | (10,590) |
| (63,679) | Grantiau Llywodraeth heb eu neilltuo | (68,374) |
| (459) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau | (120) |
| **(130,053)** | **Cyfanswm** | **(139,624)** |

## Nodyn 13 - Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Symudiad mewn balansau Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn ystod 2020/21.

**Symudiadau hyd at 31 Mawrth 2021**

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar | Asedau Dros Ben | Asedau sy'n cael eu Creu | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| **ar 1 Ebrill 2020** | 26,657 | 18,725 | 242 | 3,926 | **49,550** |
| Addasiadau i gost/gwerth a dibrisiant/amhariad | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ychwanegiadau | 127 | 1,672 | 0 | 14,088 | **15,887** |
| Cynnydd/(lleihad) mewn ailbrisio a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cynnydd/(lleihad) mewn ailbrisio a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Tynnu ased neu rwymedigaeth – gwarediadau | 0 | (1,968) | 0 | 0 | **(1,968)** |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu (i)/o Asedau i'w Gwerthu | 0 | 0 | (188) | 0 | **(188)** |
| **ar 31 Mawrth 2021** | **26,784** | **18,429** | **54** | **18,014** | **63,281** |
| | | | | | |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | | | |
| **ar 1 Ebrill 2020** | (2,067) | (12,838) | (10) | 0 | **(14,915)** |
| Addasiadau i gost/gwerth a dibrisiant/amhariad | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Tâl dibrisiant | (546) | (2,454) | (1) | 0 | **(3,001)** |
| Tynnu ased neu rwymedigaeth – gwarediadau | 0 | 1,942 | 0 | 0 | **1,942** |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Dilëwyd wrth eu hailddosbarthu i Asedau i'w Gwerthu | 0 | 0 | 7 | 0 | **7** |
| **ar 31 Mawrth 2021** | **(2,613)** | **(13,350)** | **(4)** | **0** | **(15,967)** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | |
| **ar 31 Mawrth 2021** | **24,171** | **5,079** | **50** | **18,014** | **47,314** |
| **ar 31 Mawrth 2020** | **24,590** | **5,887** | **232** | **3,926** | **34,635** |

**Symudiadau hyd at 31 Mawrth 2020**

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn a Chyfarpar | Asedau Dros Ben | Asedau sy'n cael eu Creu | Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| **ar 1 Ebrill 2019** | 26,609 | 17,974 | 250 | 1,009 | **45,842** |
| Addasiadau i gost/gwerth a dibrisiant/amhariad | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ychwanegiadau | 0 | 2,378 | 0 | 2,917 | **5,295** |
| Cynnydd/(lleihad) mewn ailbrisio a gydnabyddir yn y Gronfa Ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cynnydd/(lleihad) mewn ailbrisio a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Tynnu ased neu rwymedigaeth – gwarediadau | 48 | (1,627) | (8) | 0 | **(1,587)** |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Asedau wedi'u hailddosbarthu (i)/o Asedau i'w Gwerthu | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **ar 31 Mawrth 2020** | **26,657** | **18,725** | **242** | **3,926** | **49,550** |
| | | | | | |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | | | |
| **ar 1 Ebrill 2019** | (1,469) | (12,139) | (7) | 0 | **(13,615)** |
| Addasiadau i gost/gwerth a dibrisiant/amhariad | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Tâl dibrisiant | (544) | (2,264) | (3) | 0 | **(2,811)** |
| Tynnu ased neu rwymedigaeth – gwarediadau | (54) | 1,565 | 0 | 0 | **1,511** |
| Ailddosbarthiadau a throsglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Dilëwyd wrth eu hailddosbarthu i Asedau i'w Gwerthu | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **ar 31 Mawrth 2020** | **(2,067)** | **(12,838)** | **(10)** | **0** | **(14,915)** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | |
| **ar 31 Mawrth 2020** | **24,590** | **5,887** | **232** | **3,926** | **34,635** |
| **ar 31 Mawrth 2019** | **25,140** | **5,835** | **243** | **1,008** | **32,227** |

## Ymrwymiadau Cyfalaf

Mae datblygiad y Pencadlys newydd yn mynd rhagddo trwy Fwrdd Prosiect y Pencadlys sy'n cyfarfod bob mis. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer cwblhau'r adeilad newydd a'r dyddiad symud yw mis Awst 2022, a bydd y gwaith dilynol i ddymchwel y pencadlys presennol yn digwydd yn ystod y 6 mis dilynol. Y Gyllideb yn y Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig 2019/20 i 2023/24 yw £13 miliwn, gan rychwantu blynyddoedd ariannol 2021/22 i 2022/23

## Nodyn 14 - Asedau Anniriaethol

Mae Grŵp y PCC yn cyfrif am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol, i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan annatod o system TG benodol, ac mae'n cael ei chyfrif fel rhan o eitem caledwedd Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. Mae'r asedau anniriaethol yn cynnwys trwyddedau a brynwyd a meddalwedd sydd wedi'i phrynu'n fewnol. Mae gan yr holl feddalwedd oes ddefnyddiol gyfyngedig, yn seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r feddalwedd fod yn ddefnyddiol i Grŵp y PCC.

Nid oedd unrhyw newidiadau yn yr amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer asedau anniriaethol yn ystod y flwyddyn, ac ni ystyrir bod gan unrhyw asedau anniriaethol oes amhenodol. Yn ystod y flwyddyn, codwyd tâl amorteiddio o £0.220 miliwn (2019/20: £0.407 miliwn) a thâl amhariad o £0 (2019/20: £0) i'r CIES yn ystod 2020/21. Mae'r tâl hwn yn adlewyrchu'r patrwm defnyddio buddion economaidd disgwyliedig ar gyfer yr asedau anniriaethol yn ystod y cyfnod.

Dyma'r symudiad ar falansau Asedau Anniriaethol yn ystod blwyddyn 2020/21 ynghyd â'r cymariaethau ar gyfer 2019/20:

| 31 Mawrth 2020 Asedau Eraill £000 | | 31 Mawrth 2021 Asedau Eraill £000 |
|---|---|---|
| | Balans ar ddechrau'r flwyddyn: | |
| 3,659 | Symiau cario gros | 3,756 |
| (3,080) | Amorteiddiad cronedig | (3,372) |
| **579** | **Swm cario net ar ddechrau'r flwyddyn** | **384** |
| | Ychwanegiadau: | |
| 246 | Pryniannau | 82 |
| (149) | Gwarediadau eraill | (13) |
| (407) | Amorteiddiad ar gyfer y cyfnod | (220) |
| 115 | Amorteiddiad wedi'i ddileu ar warediad | 13 |
| **384** | **Swm cario net ar ddiwedd y flwyddyn** | **246** |
| | Yn cynnwys: | |
| 3,756 | Symiau cario gros | 3,825 |
| (3,372) | Amorteiddiad cronedig | (3,579) |
| **384** | **Cyfanswm** | **246** |

## Nodyn 15 - Eiddo Buddsoddi, Asedau Cymunedol ac Asedau Treftadaeth

Nid oes gan Grŵp y PCC unrhyw eiddo buddsoddi, Asedau Cymunedol nac Asedau Treftadaeth.

## Nodyn 16 - Offerynnau Ariannol

| | Asedau ariannol anghyfredol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiadau | | Dyledwyr | | Cyfanswm |
| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2021 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Categorïau IFRS 9** | | | | | |
| Cost wedi'i hamorteiddio | 0 | 0 | 31 | 51 | **51** |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **0** | **0** | **31** | **51** | **51** |

| | Asedau Ariannol Cyfredol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiadau | | Dyledwyr | | Arian parod | | Cyfanswm |
| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2021 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Categorïau IFRS 9** | | | | | | | |
| Cost wedi'i hamorteiddio | 41,624 | 36,081 | 11,576 | 14,131 | 5,815 | 6,239 | **56,451** |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **41,624** | **36,081** | **11,576** | **14,131** | **5,815** | **6,239** | **56,451** |

Nid oes gan Grŵp y PCC unrhyw rwymedigaethau ariannol nad ydynt yn gyfredol ers terfynu'r contract PFI ar 31 Ionawr 2020 ac mae'r Rhwymedigaeth Cyllid Prydles sy'n gysylltiedig â'r trefniant hwn wedi ei ad-dalu'n llawn. Gweler Nodyn 36 am ragor o fanylion.

| | Rhwymedigaethau Ariannol Cyfredol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Benthyciadau | | Credydwyr | | Cyfanswm |
| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2021 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost wedi'i hamorteiddio | 0 | 0 | (13,764) | (15,231) | (15,231) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **0** | **0** | **(13,764)** | **(15,231)** | **(15,231)** |

**Symudiadau Anarferol**

Ni chafwyd unrhyw symudiadau anarferol ym malansau'r offerynnau ariannol yn ystod y flwyddyn.

**Ailddosbarthu**

Ni chafodd unrhyw offerynnau ariannol eu hailddosbarthu yn ystod y flwyddyn.

**Dileu offerynnau**

Ni chafodd unrhyw offerynnau ariannol eu dileu yn ystod y flwyddyn.

**Cytundebau Cyfochrog**

Nid oedd unrhyw offerynnau ariannol yn gysylltiedig ag unrhyw gytundebau cyfochrog.

**Symiau ar gyfer Colledion Credyd**

Nid oedd angen unrhyw symiau sylweddol ar gyfer colledion credyd yn ystod y flwyddyn.

**Diffygdalu a Thorri Amodau**

Ni fu unrhyw achosion o ddiffygdalu na thorri unrhyw offerynnau ariannol.

**Enillion a Cholledion Offerynnau Ariannol**

Dyma fanylion yr enillion a'r colledion sydd wedi’u cydnabod yn CIES Grŵp y PCC mewn perthynas ag offerynnau ariannol:

| | 2019/20 | | | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhwymedigaethau Ariannol cost wedi'i hamorteiddio** | **Asedau Ariannol: benthyciadau a symiau derbyniadwy** | **Cyfanswm** | **Rhwymedigaethau Ariannol cost wedi'i hamorteiddio** | **Asedau Ariannol: benthyciadau a symiau derbyniadwy** | **Cyfanswm** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Costau llog | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Cyfanswm costau mewn gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Incwm llog | 0 | 524 | **524** | 0 | 263 | **263** |
| Cyfanswm incwm mewn gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau. | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Gwarged/diffyg yn codi o ailbrisio asedau ariannol mewn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| **Elw/(colled) net ar gyfer y flwyddyn** | **0** | **524** | **524** | **0** | **263** | **263** |

**Gwerthoedd Teg**

Mae rhwymedigaethau ariannol ac asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a symiau derbyniadwy yn cael eu nodi yn y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio. Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian parod sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

(i) Os oes gan offeryn aeddfedrwydd sy'n llai na 12 mis neu os yw'n swm derbyniadwy yn ymwneud â masnach neu'n swm derbyniadwy arall, y gwerth teg yw'r prif swm sy'n weddill (ynghyd â llog) neu swm y bil;

(ii) Cymerir mai gwerth teg symiau derbyniadwy masnach neu symiau derbyniadwy eraill yw'r anfoneb neu swm y bil.

Mae'r gwerthoedd teg a gyfrifir fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm Cario £000** | **Gwerth Teg £000** | **Cyfanswm Cario £000** | **Gwerth Teg £000** |
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | | | |
| Dyled PWLB | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyled Cyngor Sir Casnewydd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaeth Cyllid Les | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Credydwyr Tymor Byr | 13,764 | 13,764 | 15,231 | 15,231 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **13,764** | **13,764** | **15,231** | **15,231** |

| | 31 Mawrth 2020 | | 31 Mawrth 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm Cario £000** | **Gwerth Teg £000** | **Cyfanswm Cario £000** | **Gwerth Teg £000** |
| **Asedau Ariannol** | | | | |
| Buddsoddiadau a benthyciadau'r farchnad arian | 41,623 | 41,623 | 36,081 | 36,081 |
| Dyledwyr tymor byr | 11,576 | 11,576 | 14,131 | 14,131 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **53,199** | **53,199** | **50,212** | **50,212** |

Mae'r gwerth teg yn fwy na'r swm cario achos bod portffolio benthyciadau'r Grŵp yn cynnwys nifer o fenthyciadau cyfradd sefydlog lle mae cyfradd y llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg yn y farchnad ar ddyddiad y Fantolen.

Mae'r gwerthoedd teg ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy wedi'u creu trwy gymharu â buddsoddiad tebyg gyda'r un benthyciwr/benthycwyr tebyg am weddill cyfnod yr adnau.

Mae cyfraddau cymharol y farchnad yn seiliedig ar gyfraddau buddsoddi dangosol ar ddyddiad pob Mantolen. Yn ymarferol, caiff cyfraddau eu pennu yn ôl maint y trafodiad a'r parti i gontract, ond mae'n anymarferol defnyddio'r ffigurau hyn, ac mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn amherthnasol.

Mae prisiad offerynnau ariannol wedi'i ddosbarthu'n dair lefel, yn ôl ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth sy'n cael ei defnyddio i benderfynu gwerthoedd teg.

(i) Lefel 1 – dyfynbrisiau;

(ii) Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio dyfynbrisiau sydd wedi'u cynnwys o fewn Lefel 1 y gellir eu nodi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; a

(iii) Lefel 3 – mewnbynnau na ellir eu nodi ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

Mae'r sylfaen brisio sydd wedi'i mabwysiadu yn yr adroddiad hwn yn defnyddio Mewnbynnau Lefel 2 – h.y. mewnbynnau ac eithrio dyfynbrisiau y gellir eu nodi ar gyfer yr ased/rhwymedigaeth ariannol.

**Hierarchaeth Gwerth Teg 31 Mawrth 2021**

| | Lefel 1 £000 | Lefel 2 £000 | Lefel 3 £000 |
|---|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | | |
| Dyled PWLB | 0 | 0 | 0 |
| Dyled Cyngor Sir Casnewydd | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaeth Cyllid Les | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **0** | **0** | **0** |
| **Asedau Ariannol** | | | |
| Buddsoddiadau a benthyciadau'r farchnad arian | 0 | 36,081 | 0 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **0** | **36,081** | **0** |

Nodir balansau'r cymaryddion ar 31 Mawrth 2020 yn y tabl isod.

**Hierarchaeth Gwerth Teg 31 Mawrth 2020**

| | Lefel 1 £000 | Lefel 2 £000 | Lefel 3 £000 |
|---|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | | |
| Dyled PWLB | 0 | 0 | 0 |
| Dyled Cyngor Sir Casnewydd | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaeth Cyllid Les | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol** | **0** | **0** | **0** |
| **Asedau Ariannol** | | | |
| Buddsoddiadau a benthyciadau'r farchnad arian | 0 | 41,623 | 0 |
| **Cyfanswm asedau ariannol** | **0** | **41,623** | **0** |

## Nodyn 17 – Rhestrau Eiddo

Yr hyn sy’n dilyn yw gwerth agor a chau rhestrau eiddo Grŵp y PCC:

| | Storfeydd Nwyddau Traul | | Deunyddiau Cynnal a Chadw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 £000 | 2020/21 £000 | 2019/20 £000 | 2020/21 £000 | 2019/20 £000 | 2020/21 £000 |
| Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn | 488 | 415 | 72 | 59 | **560** | **474** |
| Pryniannau | 505 | 426 | 324 | 303 | **829** | **729** |
| Nodwyd fel traul yn y flwyddyn | (578) | (464) | (337) | (288) | **(915)** | **(752)** |
| **Balans sy’n Weddill ar Ddiwedd y Flwyddyn** | **415** | **377** | **59** | **74** | **474** | **451** |

Nid yw'r Comisiynydd yn cadw unrhyw restrau eiddo. Mae'r rhestrau hyn yn cael eu cadw a'u cofnodi yn Natganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl

## Nodyn 18 - Dyledwyr

Balansau Dyledwyr Tymor Byr Grŵp y PCC ar 31 Mawrth 2021:

| 31 Mawrth 2020<br>£000 | | 31 Mawrth 2021<br>£000 |
|---|---|---|
| 0 | Symiau Masnach Derbyniadwy | 0 |
| 6,432 | Rhagdaliadau | 8,634 |
| 5,144 | Symiau Derbyniadwy Eraill | 5,497 |
| **11,576** | **Cyfanswm** | **14,131** |

## Nodyn 19 - Arian Parod ac Eitemau sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Mae arian parod ac eitemau sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw a balansau sy'n cael eu cadw gan sefydliadau ariannol. Mae balans Cyfrif Cyfredol y Banc yn cynnwys addasiad cyfwerth ag arian parod o £4.862 miliwn i adennill yr arian sydd wedi'i ddefnyddio i dalu Pensiynau Swyddogion yr Heddlu yn ystod y flwyddyn, a gaiff ei ariannu'n ôl-weithredol trwy grant penodol gan y Swyddfa Gartref.

| 31 Mawrth 2020<br>£000 | | 31 Mawrth 2021<br>£000 |
|---|---|---|
| 1,258 | Arian Parod a Balansau'r Banc | 1,673 |
| 4,557 | Adneuon Tymor Byr | 4,566 |
| **5,815** | **Cyfanswm Arian Parod ac Eitemau sy'n Gyfwerth ag Arian Parod** | **6,239** |

## Nodyn 20 - Asedau i'w Gwerthu

Mae'r rhain yn cynrychioli Asedau i'w Gwerthu nad ydynt yn Gyfredol ar 31 Mawrth 2021. Dim asedau i'w gwerthu ar 31 Mawrth 2021.

| Heb fod yn gyfredol<br><br>31 Mawrth 2020<br>£000 | | Heb fod yn gyfredol<br><br>31 Mawrth 2021<br>£000 |
|---|---|---|
| 165 | Balans sy'n weddill ar ddechrau'r flwyddyn | 0 |
| | Asedau a ddosbarthwyd o'r newydd fel rhai i'w gwerthu: | |
| 0 | - Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 181 |
| (165) | Asedau a werthwyd | 0 |
| **0** | **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **181** |

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd un eiddo a ddosbarthwyd fel eiddo sydd i'w werthu. Mae statws yr eiddo hwn ar 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:-

Chwilgrug - Man Rheoli Traffordd. Mae'r cynnig o £0.202 miliwn wedi'i dderbyn a'i gymeradwyo gan y Prisiwr Dosbarth. Nid oedd y gwerthiant wedi'i gwblhau ar 31 Mawrth 2021, ac o ganlyniad mae'r ased yn aros yn llyfrau Grŵp y PCC.

## Nodyn 21 - Credydwyr

Balansau Credydwyr Tymor Byr Grŵp y PCC ar 31 Mawrth 2021:

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (7,068) | Symiau masnach taladwy | (6,037) |
| (6,696) | Symiau taladwy eraill | (9,194) |
| **(13,764)** | **Cyfanswm Credydwyr** | **(15,231)** |

**Credydwr Hirdymor**

Mae'r Credydwr Hirdymor mewn perthynas â Rhwymedigaeth Pensiwn Net y Comisiynydd yn cael ei wrthbwyso gan y Dyledwr Hirdymor yn Natganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl. Mae'r cofnod cyfrifyddu hwn yn angenrheidiol gan ei bod yn ofyniad cofnodi'r rhwymedigaeth pensiwn yn Natganiad Cyfrifon y Prif Gwnstabl, ond yn y pen draw, Grŵp y PCC sy'n gyfrifol am y rhwymedigaeth.

## Nodyn 22 - Darpariaethau

Mae'r holl ddarpariaethau yn rhai tymor byr gan fod disgwyl y bydd y rhwymedigaeth yn cael ei setlo o fewn 12 mis i'r cyfnod adrodd. Mae darpariaeth Dyledion Amheus ar gyfer 2020/21 wedi cael ei ailddosbarthu yn rhan o Dyledwyr.

Dyma'r darpariaethau mewn perthynas â Grŵp PCC yn ystod 2020/21:

**Darpariaethau Presennol**

| **2020/21** | **Anaf a Difrod a Hawliadau Eraill am Iawndal** | **Darpariaeth ar gyfer Dyfarniad Cyflog** | **Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans Agoriadol | (1,179) | (232) | (6) | (1,417) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn | (607) | 0 | 0 | (607) |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 249 | 232 | 0 | 481 |
| Symudiadau eraill | 0 | 0 | 6 | 6 |
| **Balans Cau** | **(1,537)** | **0** | **0** | **(1,537)** |

| **2019/20** | **Anaf a Difrod a Hawliadau Eraill am Iawndal** | **Darpariaeth ar gyfer Dyfarniad Cyflog** | **Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Balans Agoriadol | (1,113) | (378) | (6) | (1,497) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn | (601) | 0 | 0 | (601) |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 535 | 146 | 0 | 681 |
| Symudiadau eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Balans Cau** | **(1,179)** | **(232)** | **(6)** | **(1,417)** |

Anafiadau a Difrod a Hawliadau Eraill am Iawndal

Mae'r holl hawliadau am iawndal oherwydd anafiadau yn ddibwys yn unigol o safbwynt gwerth. Maent yn ymwneud ag anafiadau personol a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd lle y credir bod Grŵp y PCC ar fai, neu maent yn ymwneud â hawliadau am arestio ar gam. Mae hawliadau eraill am iawndal yn cynnwys achosion sy'n cael eu cyflwyno gerbron tribiwnlysoedd cyflogaeth gan weithwyr cyflogedig presennol a chyn weithwyr, gan gynnwys hawliadau ar gyfer talu goramser am ddyletswyddau ychwanegol sy'n cael eu cyflawni o dan Ddeddf Rheoliadau'r Heddlu 2003.

Byddai unrhyw hawliad dros £250,000 yn ymwneud â chyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus, a £100,000 mewn perthynas â hawliadau cerbydau modur yn cael eu talu gan yswiriant Grŵp y PCC.

## Nodyn 23 - Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio

**Crynodeb o'r Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 4,000 | Cronfa Gyffredinol | 4,000 |
| 5,085 | Cronfa Gyffredinol - Rhagamcan o'r Gronfa Arbedion Effeithlonrwydd Carlam | 5,307 |
| 34,524 | Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | 30,423 |
| 2,498 | Trosglwyddiadau eraill allan o Gronfa Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol | 2,498 |
| **46,107** | **Balans Cau** | **42,227** |

**Cronfa Gyffredinol**

Mae Cronfa Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol wedi'i rhannu i'r categorïau canlynol er mwyn adlewyrchu Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn bresennol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu Gwent.

**Cronfa Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 4,000 | Balans Agoriadol | 4,000 |
| 0 | Trosglwyddiadau i mewn i Gronfa Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol | 0 |
| 0 | Trosglwyddiadau allan i'r Rhagamcan o'r Gronfa Arbedion Effeithlonrwydd Carlam | 0 |
| 0 | Trosglwyddiadau eraill allan o Gronfa Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol | 0 |
| **4,000** | **Balans Cau** | **4,000** |

**Rhagamcan o'r Gronfa Arbedion Effeithlonrwydd Carlam**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 4,987 | Balans Agoriadol | 5,085 |
| 0 | Trosglwyddiadau i mewn o Gronfa wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol | 0 |
| 98 | Trosglwyddiadau i mewn i'r Rhagamcan o'r Gronfa Arbedion Effeithiolrwydd Carlam | 221 |
| 0 | Trosglwyddiadau allan o'r Rhagamcan o'r Gronfa Arbedion Effeithiolrwydd Carlam | 0 |
| **5,085** | **Balans Cau** | **5,306** |

**Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 43,996 | Balans Agoriadol | 34,524 |
| 9,662 | Trosglwyddiadau i mewn i'r Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | 7,875 |
| (19,134) | Trosglwyddiadau allan o'r Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | (11,976) |
| **34,524** | **Balans Cau** | **30,423** |

**Cronfa Derbyniadau Cyfalaf**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 2,327 | Balans Agoriadol | 2,498 |
| 171 | Trosglwyddiadau i mewn i'r Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | 0 |
| 0 | Trosglwyddiadau allan o'r Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi | 0 |
| **2,498** | **Balans Cau** | **2,498** |

Gweler Nodyn 9 am fanylion y Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi.

## Nodyn 24 - Cronfeydd Wrth Gefn Na Ellir eu Defnyddio

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (3,600) | Cronfa Ailbrisio | (3,288) |
| (31,428) | Cyfrif Addasiad Cyfalaf | (44,462) |
| 1,447,504 | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | 1,685,454 |
| 1,777 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 2,051 |
| **1,414,253** | **Cyfanswm** | **1,639,755** |

**Cronfa Ailbrisio**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (3,785) | **Balans 1 Ebrill** | (3,600) |
| 0 | Ailbrisio asedau tuag i fyny | 0 |
| 0 | Nid yw ailbrisio asedau a cholledion yn sgil amhariad tuag i lawr yn dod o’r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 |
| **0** | **Nid yw gwarged neu ddiffyg o ran ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol yn dod o’r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **0** |
| 185 | Gwahaniaeth rhwng dibrisio gwerth teg a dibrisio cost hanesyddol | 312 |
| 0 | Enillion cronedig ar asedau sydd wedi’u gwerthu neu eu dileu | 0 |
| **185** | **Swm a gafodd ei ddileu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf** | **312** |
| 0 | Symudiadau eraill | 0 |
| 0 | Symudiadau eraill i Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 |
| **(3,600)** | **Balans 31 Mawrth** | **(3,288)** |

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys enillion Grŵp y PCC sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei eiddo, ei beiriannau a’i gyfarpar, ac asedau anniriaethol.

Mae'r balans yn cael ei leihau pan fydd asedau ag enillion cronedig:

- yn cael eu hailbrisio tuag i lawr neu’n destun amhariad a bod yr enillion yn cael eu colli:

- yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant; neu

- yn cael eu gwaredu a bod yr enillion yn cael eu gwireddu.

Mae’r Gronfa ond yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu’r Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n codi cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

**Cyfrif Addasiad Cyfalaf**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (24,683) | **Balans 1 Ebrill** | (31,428) |
| 2,811 | Taliadau am ddibrisiant ac amhariad ar asedau nad ydynt yn gyfredol | 3,001 |
| 0 | Colledion ailbrisio ar asedau nad ydynt yn gyfredol | 0 |
| 407 | Amorteiddio asedau anniriaethol | 220 |
| 0 | Gwariant refeniw wedi'i ariannu o gyfalaf o dan statud | 0 |
| 275 | Symiau o asedau nad ydynt yn gyfredol wedi'u dileu wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enillion/colledion adeg eu gwaredu i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 26 |
| 3,493 | Gwrthdroi Eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'i ddebydu neu ei gredydu i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 3,247 |
| (185) | Symiau Addasu wedi'u dileu o'r Gronfa Ailbrisio | (312) |
| 3,308 | **Net o gost asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn** | 2,935 |
| 0 | Y defnydd o dderbyniadau cyfalaf wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 |
| 0 | Defnyddio'r Gronfa Atgyweiriadau Mawr i ariannu gwariant cyfalaf newydd | 0 |
| (459) | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant sydd wedi'u cymhwyso i gyllid cyfalaf | (120) |
| 0 | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godir yn erbyn balansau'r Gronfa Gyffredinol a'r HRA | 0 |
| (9,594) | Gwariant cyfalaf wedi'i godi yn erbyn balansau'r Gronfa Gyffredinol a'r HRA | (15,849) |
| (10,053) | **Cyllid cyfalaf wedi'i gymhwyso yn ystod y flwyddyn:** | (15,969) |
| 0 | Benthyca neu rwymedigaethau sy'n dod o'r HRA | 0 |
| 0 | Benthyca neu rwymedigaethau sy'n dod o'r Gronfa Atgyweiriadau Mawr | 0 |
| 0 | Symudiadau yng ngwerth Eiddo Buddsoddi ar y farchnad wedi'u debydu neu eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 0 |
| 0 | Symudiadau eraill | 0 |
| **(31,428)** | **Balans 31 Mawrth** | **(44,462)** |

Mae'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo am y defnydd o asedau nad ydynt yn gyfredol ac ariannu'r broses o gaffael, creu neu ychwanegu at yr asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif wedi'i ddebydu â chost caffael, creu neu gostau dilynol wrth i ddibrisiant, colledion amharu ac amorteiddiadau gael eu codi ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (gyda chofnodion cysoni o'r Gronfa Ailbrisio er mwyn trosi ffigurau gwerth cyfredol a theg yn sylfaen cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif â'r symiau a neilltuwyd gan Grŵp y PCC fel cyllid ar gyfer costau caffael, creu a'r costau dilynol. Hefyd, mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar eiddo, peiriannau a chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Gronfa Ailbrisio i gadw enillion o'r fath.

**Cronfa Bensiwn Wrth Gefn**

| 31 Mawrth 2020<br>£000 | | 31 Mawrth 2021<br>£000 |
|---|---|---|
| 1,573,222 | Balans 1 Ebrill | 1,447,504 |
| (164,460) | Ail-fesur buddion y (rhwymedigaeth)/ased diffiniedig net | 201,190 |
| 76,751 | Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a gafodd eu debydu neu eu credydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant | 73,538 |
| (38,009) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (36,778) |
| 0 | Symudiadau eraill | 0 |
| **1,447,504** | **Balans 31 Mawrth** | **1,685,454** |

Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo am fuddion ôl-gyflogaeth yn unol â darpariaethau statudol. Mae Grŵp y PCC yn cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth ac ar gyfer buddion ariannu yn unol â darpariaethau statudol. Mae Grŵp y PCC yn cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant gan fod y buddion yn cael eu hennill wrth i weithwyr cyflogedig gronni blynyddoedd o wasanaeth, diweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac enillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau sydd wedi'u neilltuo i dalu'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu hariannu, gan fod Grŵp y PCC yn gwneud cyfraniadau cyflogwr at gronfeydd pensiwn neu'n talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol yn y pen draw. Felly, mae balans debyd y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion sydd wedi'u hennill gan weithwyr cyflogedig presennol a gweithwyr cyflogedig y gorffennol, a'r adnoddau y mae Grŵp y PCC wedi'u neilltuo i'w bodloni. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo adeg talu'r buddion.

**Cyfrif Absenoldebau Cronedig**

| 31 Mawrth 2020<br>£000 | | 31 Mawrth 2021<br>£000 |
|---|---|---|
| 1,336 | **Balans 1 Ebrill** | 1,777 |
| (1,336) | Talu neu ddiddymu croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (1,777) |
| 1,777 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 2,051 |
| 441 | Y gwahaniaeth rhwng tâl swyddogion ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant ar sail croniadau a'r tâl a godir yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 274 |
| **1,777** | **Balans 31 Mawrth** | **2,051** |

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall ar Balans y Gronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau a enillwyd ond nas cymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn nodi bod angen niwtraleiddio'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gan drosglwyddiadau i mewn neu allan o'r Cyfrif.

## Nodyn 25 - Llif Arian Parod o Weithgareddau Gweithredu

Mae’r llif arian parod ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (400) | Llog a dderbyniwyd | (182) |
| 1,802 | Llog a dalwyd | 0 |
| 0 | Difidendau a dderbyniwyd | 0 |
| **1,402** | **Cyfanswm** | **(182)** |

Mae'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau wedi'i addasu ar gyfer y symudiadau canlynol nad ydynt yn arian parod:

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (2,811) | Dibrisiant | (3,001) |
| 0 | Amhariad a phrisiadau tuag i lawr | 0 |
| (407) | Amorteiddiad | (220) |
| 0 | (Cynnydd)/gostyngiad mewn amhariad ar gyfer dyledion drwg | 0 |
| 836 | (Cynnydd)/gostyngiad mewn credydwyr | (503) |
| 1,657 | Cynnydd/(gostyngiad) mewn dyledwyr | 2,574 |
| (86) | Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhestrau eiddo | (23) |
| 0 | Cynnydd/(gostyngiad) mewn asedau a rhwymedigaethau'r contract | 0 |
| (38,742) | Symudiad mewn rhwymedigaeth pensiwn | (36,760) |
| (275) | Swm cario asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau nad ydynt yn gyfredol sydd i’w gwerthu, sydd wedi’u gwerthu neu sydd wedi’u dileu | (26) |
| 209 | Symudiadau eraill nad ydynt yn arian parod a godir ar y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau | 214 |
| **(39,619)** | **Cyfanswm** | **(37,745)** |

Mae'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau wedi'i addasu ar gyfer yr eitemau canlynol sy’n weithgareddau buddsoddi a chyllido:

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 298 | Arian o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 58 |
| 459 | Unrhyw eitemau eraill y mae'r effeithiau arian parod yn buddsoddi ynddynt neu'n ariannu llif arian parod | 120 |
| **757** | **Cyfanswm** | **178** |

## Nodyn 26 - Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi

Mae'r llif arian parod o weithgareddau buddsoddi yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 5,542 | Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 15,005 |
| 141,500 | Prynu buddsoddiadau tymor byr a hirdymor | 158,500 |
| (298) | Arian o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (58) |
| (149,000) | Enillion o fuddsoddiadau tymor byr a hirdymor | (164,000) |
| (459) | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | (120) |
| **(2,715)** | **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | **9,327** |

## Nodyn 27 - Llif Arian o Weithgareddau Ariannu

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 4,511 | Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau sy'n weddill yn ymwneud â phrydlesi cyllid a chontractau PFI ar y Fantolen | 0 |
| 0 | Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau ariannu | 0 |
| **4,511** | **Llif arian parod net o weithgareddau ariannu** | **0** |

## Nodyn 28 - Lwfansau Aelodau

Talodd Grŵp y PCC y symiau canlynol i Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Mae'r symiau wedi 'u rhannu'n gyfartal â'r Prif Gwnstabl.

| 31 Mawrth 2020 £ | | 31 Mawrth 2021 £ |
|---|---|---|
| 0 | Cyflogau | 0 |
| 6,583 | Lwfansau | 4,702 |
| 251 | Treuliau | 8 |
| **6,834** | **Cyfanswm Lwfansau Aelodau** | **4,710** |

## Nodyn 29 – Tâl Swyddogion a Staff yr Heddlu Grŵp y PCC

**Nifer Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu**

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|
| **Swyddogion Heddlu:** | | |
| Uwchben rheng Cwnstabl | 287 | 303 |
| Cwnstabl | 1,048 | 1,085 |
| **Cyfanswm** | **1,335** | **1,388** |
| **Staff yr Heddlu:** | | |
| Amser llawn | 721 | 783 |
| Rhan amser | 144 | 157 |
| **Cyfanswm** | **865** | **940** |

Y rhifau uchod yw'r rhifau ar 31Mawrth 2021

Nid yw Staff yr Heddlu yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan ei fod yn swyddog etholedig.

**Tâl a dderbyniwyd**

Yr hyn a nodir isod yw nifer y Swyddogion a'r Staff a gyflogwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ond sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl, a dderbyniodd dâl dros £60,000 yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl yn dangos lluosrifau mewn bandiau o £5,000. Mae'r diffiniad o dâl yn cynnwys cyflogau a lwfansau blynyddol, a didyniadau aberthu cyflog, ond nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Mae'r ffigurau'n cynnwys Swyddogion y manylir ar eu swyddi yn y nodyn Datgelu Tâl, ac eithrio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd mewn swydd etholedig ac nad yw'n weithiwr cyflogedig.

| PCC 2019/20 | Grŵp PCC 2019/20 | Band Cyflog | | | PCC 2020/21 | Grŵp PCC 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 11 | £60,000 | - | £64,999 | 0 | 26 |
| 0 | 4 | £65,000 | - | £69,999 | 0 | 7 |
| 0 | 4 | £70,000 | - | £74,999 | 0 | 2 |
| 0 | 6 | £75,000 | - | £79,999 | 0 | 5 |
| 1 | 5 | £80,000 | - | £84,999 | 1 | 5 |
| 0 | 2 | £85,000 | - | £89,999 | 0 | 2 |
| 1 | 1 | £90,000 | - | £94,999 | 0 | 4 |
| 0 | 1 | £95,000 | - | £99,999 | 1 | 2 |
| 0 | 2 | £100,000 | - | £104,999 | 0 | 1 |
| 0 | 2 | £105,000 | - | £109,999 | 0 | 0 |
| 0 | 1 | £110,000 | - | £114,999 | 0 | 1 |
| 0 | 1 | £115,000 | - | £119,999 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | £120,000 | - | £124,999 | 0 | 1 |
| 0 | 0 | £125,000 | - | £129,999 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | £130,000 | - | £134,999 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | £135,000 | - | £139,999 | 0 | 1 |
| 0 | 0 | £140,000 | - | £144,999 | 0 | 0 |
| 0 | 1 | £145,000 | - | £149,999 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | £150,000 | - | £154,999 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | £155,000 | - | £159,999 | 0 | 1 |

**Perthynas Tâl**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng y 'Swyddog Gweithredol' sy'n ennill y cyflog mwyaf yn y sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad yn ystod blwyddyn y cyfrifon. Mae tâl yn seiliedig ar dâl blynyddol llawn amser taladwy, ac fe'i pennir ar sail y cyflog ar 31 Mawrth ynghyd â'r buddion mewn nwyddau a thaliadau eraill a wnaed yn ystod y cyfnod.

Ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, datgelir y berthynas tâl ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid. Y Prif Swyddog Cyllid yw'r aelod o staff sy'n ennill y cyflog mwyaf, ac mae wedi'i gynnwys isod.

| | **2019/20** | **2020/21** |
|---|---|---|
| Tâl y Prif Gwnstabl | 154,769 | 160,735 |
| Tâl Canolrifol Staff y Prif Gwnstabl | 29,064 | 30,411 |
| Cymhareb Tâl Canolrifol | **5.33** | **5.29** |
| | | |
| Tâl Prif Swyddog Cyllid | 94,299 | 96,657 |
| Tâl Canolrifol Staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 32,796 | 34,578 |
| Cymhareb Tâl Canolrifol | **2.87** | **2.80** |
| | | |
| Tâl Prif Swyddog Gweithredol | 83,025 | 94,095 |
| Tâl Canolrifol Staff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 32,796 | 34,578 |
| Cymhareb Tâl Canolrifol | **2.53** | **2.72** |

**Datgelu Tâl**

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r datgeliad tâl ar gyfer Swyddogion yr Heddlu perthnasol (safle Prif Swyddog) a Staff Uwch (safle sy'n cyfateb i Brif Swyddog, a deiliaid swyddi uwch yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu), sydd â chyflog o £60,000 y flwyddyn neu fwy. Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i enwi unigolion sydd â chyflog dros £150,000 y flwyddyn.

Mae lwfansau treuliau yn cynnwys lwfans cyfandaliad ar gyfer car "defnyddiwr hanfodol", ac mae buddiant mewn nwyddau yn cynnwys gwerth arian buddion sy'n cael eu derbyn nad ydynt yn arian parod e.e. defnydd preifat o un o asedau'r Heddlu. Mae taliadau eraill yn cynnwys lwfansau sy'n berthnasol i Swyddogion yr Heddlu yn unig, fel lwfans rhent a grant digolledu. Yn ystod y flwyddyn, ni thalwyd unrhyw symiau mewn perthynas ag iawndal am golli gwaith. Mae datgeliad cyfatebol wedi'i ddarparu ar gyfer y flwyddyn flaenorol 2019/20.

## Tâl Uwch Swyddogion yr Heddlu ac Uwch Aelodau Staff yr Heddlu Perthnasol

Tâl Uwch Swyddogion yr Heddlu ac Uwch Aelodau Staff yr Heddlu Perthnasol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021.

**2020/21**

| Post Holder Information (Post Title) | Note | Salary £ | Post Related Pay £ | Bonus £ | Expenses £ | Benefits in Kind | Other Payments £ | **Total Remuneration excluding Pension Contributions £** | Employers Pension Contributions £ | **Total Remuneration including Pension Contributions £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chief Constable | | 148,389 | 0 | 0 | 0 | 10,822 | 0 | **159,211** | 46,001 | **205,212** |
| Deputy Chief Constable | | 122,392 | 0 | 0 | 0 | 9,185 | 3,685 | **135,262** | 37,941 | **173,203** |
| Assistant Chief Constable (1) | | 114,230 | 0 | 0 | 0 | 8,548 | 0 | **122,778** | 35,411 | **158,189** |
| Assistant Chief Constable (2) | 1 | 12,914 | 2,048 | 0 | 0 | 0 | 647 | **15,609** | 4,003 | **19,612** |
| Assistant Chief Constable (3) | 2 | 51,201 | 8,891 | 0 | 0 | 0 | 2,742 | **62,834** | 15,872 | **78,706** |
| Assistant Chief Officer Resources | | 112,109 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **112,109** | 19,955 | **132,064** |
| Police & Crime Commissioner | | 71,400 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **71,400** | 12,709 | **84,109** |
| Deputy Police & Crime Commissioner | | 55,692 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **55,692** | 9,913 | **65,605** |
| Chief Finance Officer to the Police & Crime Commissioner | | 95,675 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **95,675** | 17,030 | **112,705** |
| Police & Crime Commissioner Chief Executive | | 84,550 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **84,550** | 15,050 | **99,600** |

Nodiadau

1) Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (2) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd o 7 Mehefin tan 26 Gorffennaf 2020, gan ddewis derbyn lwfans tâl cysylltiedig â swydd amhensiynadwy ar sail swydd blynyddol o £15,306 a lwfans cyfandaliad car ar sail blynyddol o £4,839.
2) Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (3) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd ar 7 Medi 2020, gan ddewis derbyn lwfans tâl cysylltiedig â swydd amhensiynadwy ar sail swydd blynyddol o £15,690 a lwfans cyfandaliad car ar sail blynyddol o £4,839.
3) Talwyd cyfraniad pensiwn y cyflogwr mewn perthynas â Swyddogion Heddlu ar gyfradd o 31%. Talwyd yr holl Uwch Gyflogeion eraill ar gyfradd o 17.8%.
4) Mae'r cyflogau a ddatgelir uchod yn wir symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn ac nid ydynt yn cynnwys didyniadau aberthu cyflog.
5) Ymysg taliadau eraill mae: Lwfans Car £4,839 y flwyddyn ac unrhyw hawl rhent/tai yn unol â Rheoliadau'r Heddlu.

**2019/20**

| Post Holder Information (Post Title) | Note | Salary | Post Related Pay | Bonus | Expenses | Benefits in Kind | Other Payments | **Total Remuneration excluding Pension Contributions** | Employers Pension Contributions | **Total Remuneration including Pension Contributions** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | | £ | £ | £ | £ |
| Chief Constable (1) | 1 | 35,672 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,221 | **37,893** | 0 | **37,893** |
| Chief Constable (2) | 2 | 106,275 | 941 | 0 | 0 | 6,385 | 0 | **113,601** | 32,945 | **146,546** |
| Deputy Chief Constable (1) | 3 | 29,423 | 0 | 0 | 0 | 2,128 | 0 | **31,551** | 9,121 | **40,672** |
| Deputy Chief Constable (2) | 4 | 49,401 | 0 | 0 | 0 | 962 | 0 | **50,363** | 14,275 | **64,638** |
| Deputy Chief Constable (3) | 5 | 50,264 | 0 | 0 | 0 | 814 | 1,535 | **52,613** | 15,582 | **68,195** |
| Assistant Chief Constable (1) | 6 | 8,686 | 1,994 | 0 | 0 | 0 | 828 | **11,508** | 2,693 | **14,201** |
| Assistant Chief Constable (2) | 7 | 17,310 | 0 | 0 | 0 | 385 | 0 | **17,695** | 5,366 | **23,061** |
| Assistant Chief Constable (3) | 8 | 44,392 | 6,701 | 0 | 0 | 0 | 3,923 | **55,016** | 13,761 | **68,777** |
| Assistant Chief Constable (4) | 9 | 36,384 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,789 | **39,173** | 11,279 | **50,452** |
| Assistant Chief Constable (5) | 10 | 66,223 | 14,638 | 0 | 0 | 0 | 6,245 | **87,106** | 20,529 | **107,635** |
| Assistant Chief Constable (6) | 11 | 36,554 | 0 | 0 | 0 | 1,383 | 0 | **37,937** | 11,332 | **49,269** |
| Assistant Chief Officer Resources | | 109,375 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **109,375** | 19,469 | **128,844** |
| Police & Crime Commissioner | | 71,400 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **71,400** | 12,709 | **84,109** |
| Deputy Police & Crime Commissioner | | 55,549 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **55,549** | 9,888 | **65,437** |
| Chief Finance Officer to the Police & Crime Commissioner | | 93,007 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **93,007** | 16,555 | **109,562** |
| Police & Crime Commissioner Chief Executive | | 81,293 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **81,293** | 14,470 | **95,763** |

**Nodiadau:**

1) Ymddeolodd Prif Gwnstabl (1) ar 30 Mehefin 2019.
2) Penodwyd Prif Gwnstabl (2) a dechreuodd yn y swydd ar 1 Gorffennaf 2019 gyda chyflog blynyddol o £146,256.
3) Gadawodd Dirprwy Brif Gwnstabl (1) ei swydd ar 30 Mehefin 2019 i gymryd swydd y Prif Gwnstabl.
4) Cafodd Dirprwy Brif Gwnstabl (2) ddyrchafiad dros dro o Brif Gwnstabl Cynorthwyol i Ddirprwy Brif Gwnstabl dros dro o 1 Gorffennaf 2019 tan 30 Tachwedd 2019 gan gynnwys mis o gyfnod trosglwyddo i'r Dirprwy Brif Gwnstabl (3) a benodwyd ar 1 Tachwedd 2019.
5) Penodwyd Dirprwy Brif Gwnstabl (3) a dechreuodd yn y swydd ar 1 Tachwedd 2019 gyda chyflog blynyddol o £120,633.
6) Gadawodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (1) y swydd ar 6 Mai a dychwelodd i'w swydd arferol o Brif Uwch-arolygydd.
7) Penodwyd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (2) a dechreuodd yn y swydd ar 29 Ebrill 2019 gyda chyflog blynyddol o £100,509.

8) Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (3) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd o 1 Gorffennaf tan 31 Rhagfyr 2019 i lenwi swydd yn ystod dyrchafiad dros dro'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol i Ddirprwy Brif Gwnstabl gan dderbyn lwfans tâl ar sail swydd blynyddol o £13,182.
9) Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (4) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd o 31 Gorffennaf tan 30 Tachwedd 2019 gyda chyflog blynyddol o £109,662.
10) Cafodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (5) ddyrchafiad dros dro o Brif Uwch-arolygydd i Brif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro (Tîm Cydweithredu Cymru Gyfan) o 1 Ebrill tan 31 Rhagfyr 2019 gan dderbyn lwfans tâl ar sail swydd blynyddol o £13,182.
11) Dychwelodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol (6) o'i swydd dros dro fel Dirprwy Brif Gwnstabl i'w swydd arferol fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar 1 Rhagfyr 2019.
12) Talwyd cyfraniad pensiwn y cyflogwr mewn perthynas â Swyddogion Heddlu ar gyfradd o 31%. Talwyd yr holl Uwch Gyflogeion eraill ar gyfradd o 17.8%.
13) Mae'r cyflogau a ddatgelir uchod yn wir symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn ac nid ydynt yn cynnwys didyniadau aberthu cyflog.
14) Ymysg taliadau eraill mae: Lwfans Car £4,839 y flwyddyn ac unrhyw hawl rhent/tai yn unol â Rheoliadau’r Heddlu.

## Nodyn 30 - Buddion Terfynu Swydd

Mae Rhestr o becynnau ymadael y cytunwyd arnynt ar 31 Mawrth 2021 i'w gweld yn y tabl isod gyda ffigyrau cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Cytunwyd ar yr holl becynnau ymadael ac fe gawsant eu talu hyd at 31 Mawrth 2021

| **Exit package cost band (including special payments)** | **Number of compulsory redundancies** | | **Number of other departures agreed** | | **Total number of exit packages by cost band** | | **Total cost of exit packages in each band** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019/20** | **2020/21** | **2019/20** | **2020/21** | **2019/20** | **2020/21** | **2019/20** | **2020/21** |
| £0 - £20,000 | 3 | 1 | 0 | 0 | 3 | 1 | **52,574** | **13,195** |
| £20,001 - £40,000 | 7 | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 | **172,498** | **0** |
| £40,001 - £60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| £60,001 - £80,000 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | **69,102** | **68,148** |
| £80,001 - £100,000 | 4 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 | **361,140** | **0** |
| £100,001 - £150,000 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | **0** | **122,530** |
| **Total** | **15** | **3** | **0** | **0** | **15** | **3** | **655,314** | **203,873** |

Cytunwyd ar yr holl becynnau ymadael ac fe gawsant eu talu hyd at 31 Mawrth 2021.

Mae ffigyrau 2019/20 wedi cael eu hailddatgan i gynnwys y costau straen a dalwyd yn 2019/20 (£324,390) a oedd yn wreiddiol yn rhan o'r naratif yn Natganiadau Ariannol 2019/20.

Y gost straen ar gyfer 2020/21 yw £118,543.

## Nodyn 31 - Costau Archwilio Allanol

Mae Grŵp y PCC wedi ysgwyddo'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad o Gyfrifon. Mae’r costau’n cael eu hysgwyddo ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi codi ffioedd ychwanegol o £3,360 i gwblhau archwiliad allanol o gyfrifon 2019-20. Dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) yn 2019-20 ond oherwydd pandemig Coronafeirws nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Amcan cost y gwaith yw £11,984 a chaiff ei dalu yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r ddau gost yn ychwanegol at y ffioedd a ddangosir yn y tabl isod.

| **2019/20** | | **2020/21** |
|---|---|---|
| **£000** | | **£000** |
| 83 | Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio allanol a gwblhawyd gan yr archwilydd penodedig ar gyfer y flwyddyn | 83 |
| **83** | **Cyfanswm** | **83** |

## Nodyn 32 - Incwm Grant

Cafodd y grantiau canlynol eu credydu i Gost Gwasanaethau yn y CIES yn 2020/21.

**Incwm Grant wedi'i Gredydu i Drethiant ac Incwm a Gwariant Grantiau Amhenodol**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (21,828) | Grant Cynnal Refeniw | (21,200) |
| (41,287) | Grant yr Heddlu | (46,660) |
| (459) | Grant Cyfalaf a Chyfraniadau | (120) |
| **(63,754)** | **Cyfanswm** | **(67,980)** |

**Credydwyd i Wasanaethau**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| (319) | Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod / Camau Cynnar Gyda'n Gilydd | 0 |
| (387) | Uned Gwrthderfysgaeth Cymru Gyfan (CTIU) | (516) |
| (286) | Arfau Tanio Cymru Gyfan | 0 |
| (136) | Uned Cudd-wybodaeth Ranbarthol Cymru Gyfan (RIU) | (134) |
| (61) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cymru Gyfan -Seiber | (84) |
| (66) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cymru Gyfan - STU | (66) |
| (162) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cymru Gyfan - STU Ar-lein | (120) |
| (59) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cymru Gyfan - Tarfu | (34) |
| (55) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cymru Gyfan – Llinellau Cyffuriau | 0 |
| (58) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol Cymru Gyfan - Y We Dywyll | (67) |
| (121) | Cudd-wybodaeth Carchardai Ranbarthol Cymru Gyfan | (120) |
| 0 | Grant CED Taser | (33) |
| (27) | Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth (CTSA) - Plismona Porthladdoedd | 0 |
| (288) | Gwasanaeth Gwahardd Data | (355) |
| (107) | Prosiect Ieuenctid Ymyriad Cynnar | 0 |
| 0 | ESMCP | (182) |
| (64) | Uned Troseddau Tân | (71) |
| (1,325) | Grant Pensiwn y Swyddfa Gartref | 0 |
| (191) | Cynllun Braenaru Menywod IOM Cymru (Gwyriad - IF) | (587) |
| (679) | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - Gwasanaethau i Ddioddefwyr | (1,072) |
| (187) | Tîm Plant ar Goll | (204) |
| (134) | Cymorth Datblygu Seiberdrosedd Cenedlaethol | (246) |
| (296) | Ymgyrch Uplift | (1,785) |
| (3,384) | Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu | (3,803) |
| (150) | Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu | (204) |
| 0 | Cyllid Ychwanegol yr Heddlu - COVID | (904) |
| (539) | Menter Cyllid Preifat (PFI)-Ystrad Mynach | (511) |
| (576) | Cyflwyno Camerâu Diogelwch | (673) |
| (245) | Troseddu Cyfundrefnol Difrifol | 0 |
| (50) | Hyfforddiant Gwrthsefyll Trawma | 0 |
| (437) | Llywodraeth Cymru (LlC) - Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSL) | (427) |
| 0 | Dangos y Drws i Drosedd | (70) |
| (116) | Troseddau Ieuenctid | (118) |
| **(10,505)** | **Cyfanswm** | **(12,386)** |

## Nodyn 33 - Partïon Cysylltiedig

Mae IAS 24 yn ei gwneud yn ofynnol i Grŵp y PCC ddatgelu'r holl drafodion perthnasol â phartïon cysylltiedig, sef cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i ddylanwadu ar Grŵp y PCC neu i gael eu rheoli a'u dylanwadu gan Grŵp y PCC. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenydd weld i ba raddau y gallai Grŵp y PCC fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol, neu i ba raddau y gallai fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd â Grŵp y PCC. Mae'r nodyn datgelu hwn wedi'i baratoi ar sail datganiadau penodol rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, mewn perthynas â thrafodion partïon cysylltiedig.

**Llywodraeth Ganolog**

Mae gan y Llywodraeth Ganolog reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol Grŵp y PCC ac mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae Grŵp y PCC yn gweithredu oddi mewn iddo. Hefyd, mae'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid y Grŵp ar ffurf grantiau a gyflwynir yn Nodyn 12 – Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol, ac mae'n pennu telerau llawer o drafodion Grŵp y PCC â phartïon eraill (e.e. biliau'r dreth gyngor). Fodd bynnag, mae gan y Comisiynydd reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredu Grŵp y PCC.

**Aelodau**

Dangosir cyfanswm y lwfansau a'r treuliau a dalwyd i Aelodau yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 28. Manylir ar drafodion â'r awdurdodau unedol y mae aelodau o Banel yr Heddlu a Throseddau yn eu cynrychioli yn nodyn 12 o Ddatganiad Cyfrifon Grŵp y PCC – Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol.

Cyflogir aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio (JAC) gan Police Mutual Assurance Ltd, sy'n cynnig cynhyrchion gwasanaethau ariannol i swyddogion a staff yr heddlu presennol, swyddogion a staff yr heddlu sydd wedi ymddeol, a'u teuluoedd. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, talodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent gyfanswm o £726,827.65 i Police Mutual Assurance Ltd (2019/20 £716,876.76). Ni dderbyniwyd unrhyw incwm.

Hefyd, mae aelod arall o'r JAC yn Aelod Lleyg Annibynnol o Gyngor (a Llys) Prifysgol Caerdydd ac yn Ymddiriedolwr Prifysgol Caerdydd. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, talodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent gyfanswm o £92,721 i Brifysgol Caerdydd (2019/20 £36,657) am Wasanaethau Fforensig. Ni dderbyniwyd unrhyw incwm.

**Swyddogion**

Y Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau yw Ysgrifennydd y Cwmni i Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT) Cyf. Gweler Nodyn 42 – Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT) am wybodaeth ychwanegol. Yn ogystal, mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol - Adnoddau wedi bod yn ffrind i Reolwr Masnachol BAM Construction Ltd (BAM) ers blynyddoedd. Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent gydberthnasau cytundebol gyda BAM mewn perthynas ag adeiladu'r pencadlys newydd. Yn ystod blwyddyn ariannol 20/21, talodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent gyfanswm o £15,672,471 i BAM (2019/20: £2,838,752). Ni dderbyniwyd unrhyw incwm.

Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd yw Prif Swyddog Cyllid Cwmni TGCh yr Heddlu (y Cwmni). Mae'r Cwmni yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac mae'n eiddo llawn i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr. Fe'i sefydlwyd i gefnogi plismona a gwneud y cyhoedd yn fwy diogel trwy wella TGCh a cheisio pontio'r byd plismona, technoleg a masnachol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, talodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent gyfanswm o £104,453 i'r Cwmni (2019/20: £93,339).

Mae aelod o deulu'r Prif Swyddog Cyllid yn un o Uwch Bartneriaid Busnes Cyllid Cyngor Dinas Casnewydd. Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent gysylltiadau cytundebol â Chyngor Dinas Casnewydd, mewn perthynas â materion fel derbyn arian praesept, a mentrau a ariennir ar y cyd fel Prosiect Plant Coll Gwent. Yn ystod 2020/21, derbyniodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent incwm gwerth £16,460.181 (2019/20: £15,124,686) oddi wrth Gyngor Dinas Casnewydd a thalodd £2,111,917 iddo (2019/20: £2,132,724).

## Nodyn 34 - Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf a ysgwyddwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth asedau a gafaelwyd o dan brydlesi cyllid a chontractau PFI), ynghyd â'r adnoddau sydd wedi'u defnyddio i'w ariannu. Lle bo gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu mewn blynyddoedd i ddod gan daliadau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan Grŵp y PCC, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR), mesur o'r gwariant cyfalaf a ysgwyddwyd yn hanesyddol gan Grŵp y PCC nad yw wedi'i gyllido eto. Dadansoddir y CFR yn ail ran y nodyn hwn.

**Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf**

| 31 Mawrth 2020 £000 | | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| 4,514 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol | 0 |
| | Buddsoddiad Cyfalaf: | |
| 5,296 | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | 15,887 |
| 246 | Asedau Anniriaethol | 82 |
| (3) | Gwariant Cyfalaf Arall | 0 |
| **5,539** | **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **15,969** |
| | Ffynonellau Cyllid: | |
| 0 | Derbyniadau Cyfalaf | 0 |
| (459) | Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (120) |
| | Symiau a neilltuwyd o refeniw: | |
| (9,594) | - Cyfraniadau refeniw uniongyrchol | (15,849) |
| 0 | - Darpariaeth refeniw sylfaenol | 0 |
| **(10,053)** | **Cyfanswm Ffynonellau Cyllid** | **(15,969)** |
| **0** | **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol** | **0** |

## Nodyn 35 – Prydlesi'r PCC

**Y PCC a Grŵp y PCC fel Lesddeiliad**

**Prydlesi Cyllid**

Nid yw Grŵp y PCC yn cymryd rhan mewn unrhyw drefniadau prydles cyllid. Yn ystod y cyfnod ariannol diwethaf terfynodd Grŵp y PCC gontract Menter Cyllid Preifat (PFI) mewn perthynas â Gorsaf Heddlu Ystrad Mynach ac Uned y Ddalfa; fel y nodir yn Nodyn 36 Datganiad o Gyfrifon Grŵp y PCC - PFI.

**Prydlesi Gweithredu**

Mae Grŵp y PCC yn defnyddio eiddo amrywiol o dan brydlesi gweithredu. Mae gan rai ohonynt gymalau terfynu'r contract yn gynnar, ac mae rhai prydlesi wedi dod i ben ac mewn cyfnod o 'ddal drosodd ' tra bod prydlesi newydd yn cael eu trafod neu wrth chwilio am drefniadau amgen. Nid oes unrhyw eiddo a ddefnyddir o dan brydlesi gweithredu yn cael eu his-osod.

Y gwariant a godwyd ar linell gostau Eiddo yn y CIES yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â phrydlesi'r eiddo oedd £539,928 yn cynnwys costau gwasanaeth (2019/20: £625,630.74).

Hefyd, mae Grŵp y PCC yn defnyddio Dyfeisiau Amlswyddogaethol (MFDs) (llungopïwr, argraffydd a sganwyr) trwy brydlesi gweithredu. Mae gan Grŵp y PCC gontract gyda Konika Minolta. Roedd gwariant ar y prydlesi hyn (ac eithrio ffioedd copi) yn ystod y flwyddyn tua £121,991, ond mae £37,080 o'r gwariant hwn yn berthnasol i flynyddoedd blaenorol. (2019/20: £40,186).

Mae'r tablau isod yn dangos y taliadau prydles sylfaenol presennol ar gyfer safleoedd ac MFDs yn y dyfodol

**Prydlesi Adeiladau**

| | 2019/20<br>£000 | 2020/21<br>£000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na 1 flwyddyn | 325 | 432 |
| Mwy na 1 flwyddyn ond dim mwy na 5 mlynedd | 770 | 897 |
| Mwy na 5 mlynedd | 208 | 629 |
| **Cyfanswm** | **1,303** | **1,958** |

**Prydlesi MFD**

| | 2019/20<br>£000 | 2020/21<br>£000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na 1 flwyddyn | 37 | 25 |
| Mwy na 1 flwyddyn ond dim mwy na 5 mlynedd | 19 | 0 |
| Mwy na 5 mlynedd | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **56** | **25** |

**Y Comisiynydd a Grŵp y PCC fel Lesydd**

Derbyniodd y PCC incwm rhent yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r eiddo canlynol:

- Gorsaf Heddlu Bargod - £2,200 (2019/20: £2,166.66) oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Ni fydd cytundeb y brydles mewn perthynas â Gorsaf Heddlu Bargod yn dod i ben tan fis Mehefin 2024, fan gynharaf.

- Gorsaf Heddlu Pont-y-pŵl - £52,743 (2019/20: £52,743), oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Ni fydd cytundeb y brydles mewn perthynas â Gorsaf Heddlu Pont-y-pŵl yn dod i ben cyn mis Awst 2021.

Derbyniodd y PCC incwm rhent o £10,668.24 gan safleoedd Radio Mast.

Mae'r tabl isod yn dangos yr incwm rhent sylfaenol presennol o eiddo yn y dyfodol.

**Incwm Rhent Eiddo**

| | 2019/20<br>£000 | 2020/21<br>£000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na 1 flwyddyn | 35 | 24 |
| Mwy na 1 flwyddyn ond dim mwy na 5 mlynedd | 50 | 4 |
| Mwy na 5 mlynedd | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **85** | **28** |

## Nodyn 36 - Mentrau Cyllid Preifat (PFI) a Chontractau Tebyg

Yn 2005/06 ymrwymodd Grŵp y PCC i gontract hirdymor o dan y PFI, lle'r oedd y contractwr yn gyfrifol am ddylunio, adeiladu, ariannu a chynnal a chadw uned y ddalfa 31 cell a gorsaf Heddlu yn Ystrad Mynach. Roedd y cytundeb yn gosod meddiannaeth/defnydd o'r cyfleuster ar Grŵp y PCC am 30 mlynedd, o'r adeg y daeth yn weithredol yn ystod 2005/06.

Bernir bod y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer y contract PFI ar y Fantolen, mewn modd sy'n gyson ag addasu Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth IFRIC 12 sydd wedi eu cynnwys yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth.

**Gadael PFI**

Cynhaliwyd proses dendro ar gyfer cyngor ariannol i fwrw ymlaen â gwerthuso a therfynu'r ddarpariaeth PFI. Penderfynodd gwerthusiad bod dod â'r cytundeb i ben yn wirfoddol yn rhoi gwerth am arian, ac mae'r cynghorydd ariannol wedi rheoli'r broses hyd at gwblhau'r contract yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. Anfonwyd cynnig terfynu gwirfoddol, a gymeradwywyd gan OPCC, at Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ar ddiwedd mis Mehefin 2019, ac fe'i cymeradwywyd. O ganlyniad, terfynwyd y contract PFI ar 31 Ionawr 2020, felly nid oes unrhyw rwymedigaethau na thaliadau ar ôl y dyddiad hwn.

| **31 Mawrth 2020 £000** | | **31 Mawrth 2021 £000** |
|---:|---|---:|
| 5399 | Gwerth llyfr net asedau nad ydynt yn gyfredol | 0 |
| 139 | Gwerth llyfr net asedau cylch oes | 0 |
| 0 | Rhwymedigaeth Cyllid Prydles | 0 |
| **5,538** | **Cyfanswm** | **0** |

Mae'r gwariant yn y CIES sy'n ymwneud â'r PFI yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

| **2019/20 £000** | | **2020/21 £000** |
|---:|---|---:|
| 263 | Elfen gwasanaeth y tal unedol | 0 |
| 160 | Rhwymedigaeth tâl dibrisiant | 0 |
| 307 | Cost cyllid | 0 |
| 72 | Rhent digwyddiadol | 0 |
| **802** | **Cyfanswm** | **0** |

Nid oes unrhyw daliadau dyledus yn y dyfodol yn sgil y contract PFI ac ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2020/21.

## Nodyn 37 – Cydweithio

Mae gan heddluoedd yng Nghymru hanes hir a llwyddiannus o gydweithio i ddatblygu meysydd plismona arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys meysydd a oedd yn rhan o gylch gwaith Cydbwyllgor Awdurdodau Heddlu Cymru gynt. Bydd cydweithio yn y dyfodol yn cael ei lywio gan yr angen i fodloni'r Gofyniad Plismona Strategol a gan ganlyniadau'r Asesiad Strategol Rhanbarthol o fygythiadau, risgiau a niwed i ranbarth deheuol Cymru. Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer pob heddlu yn gyfrifol am sicrhau bod y gofyniad plismona strategol yn cael ei fodloni. Fel rhan o hyn, byddant yn ceisio gweithio gyda'r Comisiynwyr a'r heddluoedd eraill i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol posibl. Rheoleiddir cytundebau o'r fath gan Adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Mae'r gwasanaethau cydweithredol a'u cyllid yn parhau o dan drefniadau Llywodraethu’r Comisiynydd a'r Heddlu diwygiedig. I bob diben, mae’r rhain yn cael eu hystyried yn ‘Gyllidebau Cyfun' gyda chytundebau ar gyfer Cyfraniadau Ariannu sy’n cael eu gwneud a’u hamrywio o bryd i'w gilydd, a rhai Grantiau Penodol y Llywodraeth. Mae'r cyllidebau cyfun yn cael eu cynnal gan y Comisiynydd a’r Heddlu ar gyfer Heddlu De Cymru ar ran y pedwar heddlu yng Nghymru. Dangosir crynodeb o gost y gwasanaethau cydweithredol amrywiol sydd i'w priodoli i Grŵp y PCC yn y tabl canlynol ac mae'n cynnwys y Gwasanaethau Caffael ar y Cyd a gafodd eu rhoi ar waith yn ffurfiol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

**Costau 2020/21 y gwasanaethau cydweithredol amrywiol y gellir eu priodoli i Grŵp y PCC.**

| **CYFRAN GWASANAETHAU CYDWEITHREDOL** | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth (CTIU) | Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth (CTSA) | Porth Gwrthderfysgaeth / Diogelwch Pwrpasol (DSP) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU) | Tasglu Rhanbarthol (RTF) | Adran Gwasanaethau Digidol | Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd (JLS) | Uned Ymchwil Gwyddonol (JSIU) | Uned Arfau Tanio ar y Cyd (JFU / CTSFO) | Gwasanaethau Caffael ar y Cyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mantais gwasanaethu cydweithredol** | | | | | | | | | | | |
| **2020/21** | | | | | | | | | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant Gros** | | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | 2,839 | 229 | 1,065 | 4,204 | 1,062 | 2,838 | 879 | 4,347 | 7,088 | 229 | **24,780** |
| Heddlu Dyfed Powys | 1,102 | 89 | 413 | 1,631 | 402 | 0 | 0 | 0 | 4,253 | 0 | **7,890** |
| Heddlu Gwent | 1,260 | 102 | 472 | 1,865 | 514 | 1,528 | 439 | 1,991 | 2,835 | 229 | **11,235** |
| Heddlu Gogledd Cymru | 1,483 | 120 | 2,424 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **4,027** |
| **Cyfanswm** | **6,684** | **540** | **4,374** | **7,700** | **1,978** | **4,366** | **1,318** | **6,338** | **14,176** | **458** | **47,932** |
| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | (2,839) | (229) | (1,065) | (2,543) | (7) | (0) | 0 | (3) | (655) | 0 | **(7,341)** |
| Heddlu Dyfed Powys | (1,102) | (89) | (413) | (986) | (2) | 0 | 0 | 0 | (393) | 0 | **(2,985)** |
| Heddlu Gwent | (1,260) | (102) | (472) | (1,128) | (3) | (0) | 0 | (2) | (262) | 0 | **(3,229)** |
| Heddlu Gogledd Cymru | (1,483) | (120) | (2,424) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(4,027)** |
| **Cyfanswm** | **(6,684)** | **(540)** | **(4,374)** | **(4,657)** | **(12)** | **0** | **0** | **(5)** | **(1,310)** | **0** | **(17,582)** |

O ganlyniad i ofyniad IFRS11, mae gwariant gros yn y CIES wedi cynyddu £0.817 miliwn ac mae incwm gros wedi cynyddu £1.193 miliwn. Roedd gostyngiad net mewn gwariant o £ 0.376 miliwn (2019/20: gostyngiad o £0.198 miliwn mewn gwariant). Mae'r gostyngiad net hwn wedi cael ei wrthdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd heb unrhyw effaith ar Gronfa'r Heddlu.

**Costau 2019/20 y gwasanaethau cydweithredol amrywiol y gellir eu priodoli i Grŵp y PCC.**

| CYFRAN GWASANAETHAU CYDWEITHREDOL Mantais gwasanaethu cydweithredol 2019/20 | Uned Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth (CTIU) | Cynghorwyr Arbenigol Gwrthderfysgaeth (CTSA) | Porth Gwrthderfysgaeth / Diogelwch Pwrpasol (DSP) | Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU) | Tasglu Rhanbarthol (RTF) | Adran Gwasanaethau Digidol | Gwasanaethau Cyfreithiol ar y Cyd (JLS) | Uned Ymchwil Gwyddonol (JSIU) | Uned Arfau Tanio ar y Cyd (JFU / CTSFO) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Gwariant Gros** | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | 5,032 | 237 | 1,058 | 4,137 | 1,165 | 3,237 | 851 | 4,126 | 6,138 | **25,981** |
| Heddlu Dyfed Powys | 1,959 | 92 | 412 | 1,610 | 441 | 0 | 0 | 0 | 4,235 | **8,749** |
| Heddlu Gwent | 2,235 | 105 | 470 | 1,838 | 563 | 1,743 | 426 | 1,890 | 3,248 | **12,518** |
| Heddlu Gogledd Cymru | 2,640 | 124 | 2,313 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **5,078** |
| **Cyfanswm** | **11,866** | **559** | **4,253** | **7,586** | **2,169** | **4,980** | **1,277** | **6,016** | **13,621** | **52,326** |
| **Cyfanswm Incwm a Grantiau** | | | | | | | | | | |
| Heddlu De Cymru | (5,032) | (237) | (1,058) | (2,485) | (12) | (0) | (4) | (5) | (616) | **(9,449)** |
| Heddlu Dyfed Powys | (1,959) | (92) | (412) | (967) | (4) | 0 | 0 | 0 | (425) | **(3,859)** |
| Heddlu Gwent | (2,235) | (105) | (470) | (1,104) | (6) | (0) | (2) | (2) | (326) | **(4,250)** |
| Heddlu Gogledd Cymru | (2,640) | (124) | (2,313) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(5,078)** |
| **Cyfanswm** | **(11,866)** | **(559)** | **(4,253)** | **(4,556)** | **(22)** | **(0)** | **(6)** | **(7)** | **(1,367)** | **(22,636)** |

**Cydweithio - Canolfan Gwasanaethau Adnoddau a Rennir**

Ym mis Mai 2011, ymrwymodd Awdurdod Heddlu Gwent i drefniant cydweithredol yn y sector cyhoeddus, sef Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS), gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Sir Fynwy. Yn ystod 2017-18, ymunodd Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Blaenau Gwent â'r trefniant cydweithio.

Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith i ddarparu trefniadau llywodraethu cadarn. Nid yw'r trefniant yn endid cyfreithiol ar wahân ac mae perchnogaeth o safle'r SRS yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Yn 2020/21, roedd cyfraniadau'r partneriaid yn ddigon i dalu'n llawn am y gwariant a ysgwyddwyd.

## Nodyn 38- Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig

**Dyfarniad McCloud / Sargeant**

Ar hyn o bryd, mae gan Brif Gwnstabl Gwent, ynghyd â Phrif Gwnstabliaid eraill a'r Swyddfa Gartref, 148 o hawliadau wedi'u cyflwyno yn eu herbyn mewn perthynas â gwahaniaethu anghyfreithlon sy'n deillio o ddarpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Pensiwn yr Heddlu 2015. Roedd yr hawliadau hyn yn erbyn Cynllun Pensiwn yr Heddlu (achos Aarons) wedi aros y tu ôl i ddyfarniad McCloud/Sargeant yn flaenorol, ond maent wedi cael eu codi mewn gwrandawiad rheoli achos a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2019. Roedd y Gorchymyn dilynol ar 28 Hydref 2019 yn cynnwys datganiad interim bod gan yr hawlwyr hawl i gael eu trin fel pe baent wedi derbyn amddiffyniad trosiannol llawn a'u bod wedi aros yn eu cynllun presennol ar ôl 1 Ebrill 2015. Mae'r datganiad interim hwn yn berthnasol i hawlwyr yn unig. Serch hynny, gwnaeth y Llywodraeth yn glir y bydd y rheini nad ydynt yn gwneud hawliad sydd yn yr un sefyllfa â'r hawlwyr yn cael eu trin yn deg er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli allan. Cafodd hyn ei ail adrodd yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar 25 Mawrth 2020.

Ar 16 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd y Trysorlys ei Ymgynghoriad ar Gynlluniau Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus: newidiadau i'r cytundeb trosiannol i gynllun 2015, a oedd yn cynnwys y cam unioni arfaethedig. Ar 4 Chwefror 2021 cyhoeddodd y Trysorlys ei ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymateb hwn yn cadarnhau y byddai cynlluniau gwaddol yn cau o 31 Mawrth 2022, y byddai cam unioni'n cael ei gyflwyno ar gyfer y cyfnod 2015 i 2022 yn seiliedig ar ddewis gohiriedig, a meini prawf dilysrwydd i aelodau gael mynediad at y cam unioni.

**Effaith ar Rwymedigaethau Pensiwn**

Byddai caniatáu i'r holl aelodau aros yn eu cynllun presennol fel ar 1 Ebrill 2015 yn arwain at gynnydd yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu. Mae actiwarïaid y cynllun wedi amcangyfrif bod y cynnydd posibl yn rhwymedigaethau'r cynllun ar gyfer Heddlu Gwent tua 4.4% neu £62.860 miliwn o rwymedigaethau cynllun pensiwn. Adlewyrchir y cynnydd hwn yn y Datgeliad IAS19 fel Cost Gwasanaeth yn y Gorffennol yng nghyfrifon 2018/19. Yn 2019-20, mae actiwarïaid y cynllun wedi adolygu'r rhagdybiaethau hyn ar lefel heddlu ac wedi amcangyfrif gostyngiad o £185 miliwn yn rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn yr Heddlu. Amcangyfrifir mai £311.57 miliwn yw'r cynnydd yn rhwymedigaethau'r cynllun yn 2020/21. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu newid mewn rhagdybiaethau ac felly'n cynrychioli enillion ail fesur a nodir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES).

Mesurir effaith cynnydd mewn rhwymedigaethau'r cynllun yn sgil dyfarniad McCloud/Sargeant trwy'r broses prisio pensiynau, sy'n pennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr cyflogedig. Bwriedir adrodd ar y prisiad Pensiwn yr Heddlu nesaf yn 2023/24, er y gall yr amserlen hon newid.

Caiff effaith cynnydd mewn taliadau pensiwn blynyddol sy'n deillio o ddyfarniad achos McCloud / Sargeant ei phennu trwy Reoliadau Cronfa Bensiwn yr Heddlu 2007. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod heddlu gynnal cronfa bensiwn yr heddlu sy'n derbyn cyfraniadau gan swyddogion a'r cyflogwr ac yn gwneud taliadau pensiwn i swyddogion sydd wedi ymddeol. Os nad oes gan gronfa bensiwn yr heddlu ddigon o arian i dalu costau pensiynau yn ystod y flwyddyn, bydd y swm sy'n ofynnol i dalu'r diffyg yn cael ei dalu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r awdurdod heddlu ar ffurf grant atodol gan y Llywodraeth ganolog.

**Hawliadau am Iawndal**

Mae hawlwyr wedi cyflwyno hawliadau ar gyfer iawndal. Mae achosion prawf ar gyfer yr hawliadau hyn i fod i gael eu clywed gan y Tribiwnlys Cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2021. Mae hawliadau am golledion ariannol wedi eu hatal dros dro er mwyn rhoi amser i ystyried ymateb Trysorlys EM i'r ymgynghoriad. Ar 31 Mawrth 2021, nid yw'n bosibl amcangyfrif graddau na thebygrwydd llwyddiant yr hawliadau hyn ac felly nid yw'r cyfrifon hyn yn adnabod unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â hawliadau am iawndal.

**Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu, mae Grŵp y PCC yn cyfrannu tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae Grŵp y PCC yn ymrwymo i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu pan fydd gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl yn y dyfodol.

Mae Grŵp y PCC yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl-gyflogaeth:

(i) Cynllun Pensiwn yr Heddlu ar gyfer Swyddogion yr Heddlu - cynllun heb ei ariannu yw hwn, sy'n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi wedi'u cronni i dalu'r rhwymedigaethau pensiwn, ac mae'n rhaid cynhyrchu arian parod ar gyfer taliadau pensiwn gwirioneddol yn y flwyddyn pan fyddant yn ddyledus yn y pen draw.

(ii) Mae pensiynau a buddion ar gyfer Staff yr Heddlu yn cael eu darparu o dan Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol). Cynllun wedi'i ariannu yw hwn, sy'n golygu bod Grŵp y PCC a gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i mewn i'r gronfa, a gyfrifir ar lefel sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng rhwymedigaethau'r pensiwn ac asedau buddsoddi.

**Trafodion yn ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth**

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yn y gost a gofnodir am wasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan fydd y buddiannau'n cael eu talu fel pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r tâl sy'n ofynnol yn erbyn y dreth gyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn dod allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion yn y tabl blaenorol wedi'u gwneud yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

**Trafodion y Gronfa Gyffredinol**

| 2019/20 | | | | | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** | | **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | | | | **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | | | | |
| | | | | **Cost Gwasanaethau** | | | | |
| | | | | Cost y gwasanaeth yn cynnwys: | | | | |
| 9,385 | 361 | 34,460 | 44,206 | Cost gwasanaeth cyfredol | 8,564 | 252 | 31,870 | 40,686 |
| 207 | 0 | (6,530) | (6,323) | Cost gwasanaeth blaenorol | 59 | 0 | 13 | 72 |
| 109 | 4 | 0 | 113 | Treuliau gweinyddu | 122 | 4 | 0 | 126 |
| | | | | Gwariant Gweithredu Arall: | | | | |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Treuliau gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | | | | |
| 2,044 | 81 | 36,630 | 38,755 | Cost llog net | 1,620 | 74 | 30,960 | 32,654 |
| **11,745** | **446** | **64,560** | **76,751** | **Cyfanswm a godir ar Gwarged a Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **10,365** | **330** | **62,843** | **73,538** |

**Buddiannau ôl-gyflogaeth eraill a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant**

| £000 | £000 | £000 | £000 | | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ail-fesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig net gan gynnwys: | | | | |
| 17,086 | 646 | 0 | 17,732 | Enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y costau llog net) | (33,838) | (1,138) | 0 | (34,976) |
| (11,652) | 201 | (57,820) | (69,271) | Enillion a cholledion actiwaraidd - profiad | (1,960) | (78) | (740) | (2.778) |
| (9,039) | (360) | (43,430) | (52,829) | Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | 3,772 | 130 | 0 | 3,902 |
| (13,996) | (876) | (45,220) | (60,092) | Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | 66,772 | 2,430 | 165,840 | 235,042 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Symudiadau eraill yn y rhwymedigaeth/(ased) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(17,601)** | **(389)** | **(146,470)** | **(164,460)** | **Cyfanswm a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant arall** | **34,746** | **1,344** | **165,100** | **201,190** |
| | | | | | | | | |
| **(5,856)** | **57** | **(81,910)** | **(87,709)** | **Cyfanswm a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant** | **45,111** | **1,674** | **227,943** | **274,728** |

**Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn**

| 2019/20 | | | | | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** | | **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| (11,745) | (446) | (64,560) | (76,751) | Gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (10,365) | (330) | (62,844) | (73,539) |
| | | | | Swm gwirioneddol a godir yn erbyn balans y gronfa gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn: | | | | |
| 4,241 | 138 | 33,630 | 38,009 | Cyfraniadau cyflogwyr sy’n daladwy i'r cynllun | 4,462 | 136 | 32,180 | 36,778 |

| 2019/20 | | | | **Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydnabyddir yn y Fantolen** | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** | | **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| (186,537) | (7,165) | (1,375,970) | (1,569,672) | Gwerth presennol y rhwymedigaeth ddiffiniedig | (266,540) | (9,991) | (1,571,733) | (1,848,264) |
| 118,175 | 3,993 | 0 | 122,168 | Gwerth teg asedau'r cynllun | 157,529 | 5,281 | 0 | 162,810 |
| (68,362) | (3,172) | (1,375,970) | (1,447,504) | Gwerth Asedau / Rhwymedigaethau | (109,011) | (4,710) | (1,571,733) | (1,685,454) |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Symudiadau eraill yn y (rhwymedigaeth) / ased | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(68,362)** | **(3,172)** | **(1,375,970)** | **(1,447,504)** | **(Rhwymedigaeth) /ased net sy'n deillio o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **(109,011)** | **(4,710)** | **(1,571,733)** | **(1,685,454)** |

| 2019/20 | | | | Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** | | **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 129,700 | 4,486 | 0 | 134,186 | Gwerth teg agoriadol asedau’r cynllun | 118,175 | 3,993 | 0 | 122,168 |
| 3,286 | 109 | 0 | 3,395 | Incwm llog | 2,758 | 93 | 0 | 2,851 |
| | | | | Enillion/(colledion) ail-fesur: | | | | |
| (17,086) | (646) | 0 | (17,732) | - Yr enillion ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm sydd wedi’i gynnwys yn y costau llog net | 33,838 | 1,138 | 0 | 34,976 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Enillion/(colledion) eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 4,241 | 138 | 33,630 | 38,009 | Cyfraniadau gan y cyflogwr | 4,462 | 136 | 32,180 | 36,778 |
| 1,425 | 62 | 6,090 | 7,577 | Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedig i'r cynllun | 1,591 | 63 | 6,360 | 8,014 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (3,282) | (152) | (39,720) | (43,154) | Buddion / trosglwyddiadau a dalwyd | (3,173) | (138) | (38,540) | (41,851) |
| (109) | (4) | 0 | (113) | Treuliau gweinyddu | (122) | (4) | 0 | (126) |
| **118,175** | **3,993** | **0** | **122,168** | **Gwerth terfynol asedau'r cynllun** | **157,529** | **5,281** | **0** | **162,810** |

| 2019/20 | | | | Symudiadau yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** | | **LGPS ar gyfer CC** | **LGPS ar gyfer PCC** | **Pensiynau'r Heddlu** | **Cyfanswm** |
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| (208,159) | (7,739) | (1,491,510) | (1,707,408) | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill | (186,537) | (7,165) | (1,375,970) | (1,569,672) |
| (9,385) | (361) | (34,460) | (44,206) | Cost gwasanaeth cyfredol | (8,564) | (252) | (31,870) | (40,686) |
| (5,330) | (190) | (36,630) | (42,150) | Cost llog | (4,378) | (167) | (30,960) | (35,505) |
| (1,425) | (62) | (6,090) | (7,577) | Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (1,591) | (63) | (6,360) | (8,014) |
| | | | | Enillion a cholledion ail-fesur: | | | | |
| 11,652 | (201) | 57,820 | 69,271 | - Enillion/(colledion) actiwaraidd - profiad | 1,960 | 78 | 740 | 2,778 |
| 9,039 | 360 | 43,430 | 52,829 | - Enillion/(colledion) actiwaraidd o newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig | (3,772) | (130) | 0 | (3,902) |
| 13,996 | 876 | 45,220 | 60,092 | - Enillion/(colledion) actiwaraidd o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol | (66,772) | (2,430) | (165,840) | (235,042) |
| 0 | 0 | 0 | 0 | - Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| (207) | 0 | 6,990 | 6,783 | Cost gwasanaeth blaenorol | (59) | 0 | 0 | (59) |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Enillion / (colledion) ar gwtogiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Rhwymedigaethau ar gyfuniadau endid | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | (460) | (460) | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | 0 | (13) | (13) |
| 3,282 | 152 | 39,720 | 43,154 | Buddion / trosglwyddiadau a dalwyd | 3,173 | 138 | 38,540 | 41,851 |
| 0 | 0 | 0 | 0 | Rhwymedigaethau a ddyddymwyd ar setliadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(186,537)** | **(7,165)** | **(1,375,970)** | **(1,569,672)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(266,540)** | **(9,991)** | **(1,571,733)** | **(1,848,264)** |

Mae'r tabl uchod yn dangos y swm sydd wedi'i gynnwys yn y Fantolen sy'n deillio o rwymedigaeth Grŵp y PCC mewn perthynas â'i gynlluniau buddion diffiniedig.

Mae'r rhwymedigaethau yn dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan Grŵp y PCC i dalu buddion ymddeol yn y pen draw. Mae cyfanswm y rhwymedigaeth gwerth £1.848 biliwn (2019/20 £1.570 biliwn) yn cael effaith sylweddol ar werth net Grŵp y PCC fel y'i cofnodir yn y Fantolen, gan arwain at falans cyffredinol negyddol o £1.685 biliwn (2019/20 £1.448 biliwn).

Fodd bynnag, mae trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa ariannol Grŵp y PCC yn parhau i fod yn iach:

1) Bydd y diffyg ar y Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei dalu trwy gynyddu cyfraniadau dros weddill bywyd gwaith gweithwyr cyflogedig, yn unol ag asesiad Actiwari'r Cynllun;

2) Dim ond pan fydd y pensiynau’n cael eu talu y mae'n ofynnol i'r Comisiynydd ddarparu ar gyfer pensiynau'r Heddlu.

Nid yw'r PCC yn agored i rwymedigaethau endidau eraill dan delerau ac amodau cynllun Pensiwn Swyddogion yr Heddlu a chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Pe byddai'r PCC yn gadael y cynlluniau hyn, byddai'r asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i swyddogion a staff yr Heddlu yn unig, yn y gorffennol a'r presennol, yn cael eu cyfrifo a'u trosglwyddo i unrhyw gynllun newydd.

## Sylfaen ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Nid oes angen nodi'r enillion disgwyliedig ar asedau yn IAS19 gan fod y gyfradd ddisgownt (2.0% ar gyfer Llywodraeth Leol a 2.0% ar gyfer yr Heddlu) bellach yn cael ei defnyddio gan yr Actiwari i gyfrifo'r costau rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn nesaf a phennu'r enillion disgwyliedig ar asedau.
Mae'r rhaniad bras o asedau ar gyfer y Gronfa yn ei chyfanrwydd (yn seiliedig ar ddata sydd wedi'i ddarparu gan yr Actiwari) i'w weld isod.

**Rhaniad Asedau:**

| | Local Government (Group) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 £000 | 2019/20 % | 2020/21 £000 | 2020/21 % |
| **Asset Allocations** | | | | |
| Equity Securities | 18,128 | 14.0% | 24,157 | 14.0% |
| Investment Funds and Unit Trusts | 100,265 | 82.0% | 133,619 | 82.0% |
| Real Estate | 3,084 | 3.0% | 4,111 | 3.0% |
| Cash and Cash Equivalents | 1,077 | 1.0% | 1,435 | 1.0% |
| Total | **122,554** | **100%** | **163,322** | **100%** |

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol posibl i'r rhagdybiaethau ar ddiwedd y cyfnod adrodd, ac ar gyfer pob newid maent yn rhagdybio bod y rhagdybiaeth sydd wedi'i dadansoddi yn newid tra bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Er enghraifft, mae'r rhagdybiaethau mewn hirhoedledd yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifo ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credyd unedau. Roedd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod yr un fath â'r rhai yn y cyfnod blaenorol.

### Rhagdybiaethau

| | Police Pension | | Local Government (Group) | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 Years | 2020/21 Years | 2019/20 Years | 2020/21 Years |
| **Mortality assumptions:** | | | | |
| **Longevity at 65 for current pensioners:** | | | | |
| Men | 21.90 | 22.00 | 20.60 | 20.70 |
| Women | 23.60 | 23.70 | 22.90 | 23.40 |
| **Longevity at 65 for future pensioners:** | | | | |
| Men | 23.60 | 23.70 | 21.60 | 22.10 |
| Women | 25.20 | 25.30 | 24.60 | 25.40 |

| | Police Pension | | Local Government (Group) | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 % p.a. | 2020/21 % p.a. | 2019/20 % p.a. | 2020/21 % p.a. |
| Rate of increase in salaries (Long term) | 4.00% | 4.15% | 2.20% | 3.15% |
| Rate of increase in salaries (Short term) | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |
| Rate of increase in pensions | 2.00% | 2.40% | 1.90% | 2.85% |
| Rate for discounting scheme liabilities | 2.25% | 2.00% | 2.30% | 2.00% |
| Rate of CARE revaluation | 3.25% | 3.65% | 0.00% | 0.00% |

**Newid mewn Rhagdybiaethau:**

| | Police Pension | | Local Government | |
|---|---|---|---|---|
| | Approximate increase/(decrease) in assumption | | Approximate % increase to Employer Liability | Approximate monetary amount |
| | % | £000 | % | £000 |
| 0.5% increase in the Real Discount Rate | -10.0% | (155,000) | | |
| 0.5% decrease in the Real Discount Rate | | | 13.0% | 33,923 |
| 1 year increase in member life expectancy | 3.5% | 54,000 | | |
| 0.5% increase in the Salary Increase Rate | 1.0% | 19,000 | 2.0% | 4,415 |
| 0.5% increase in the Pension Increase Rate | 9.0% | 144,000 | 11.0% | 28,718 |

Yn dilyn y Prisiad Tair Blynedd ar 31 Mawrth 2019, dyma'r Cyfraddau Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r 2 flynedd nesaf:

| Certified Rates for the Year Ending | |
|---|---|
| 31 March 2022 | 17.8% |
| 31 March 2023 | 17.8% |
| 31 March 2024 | 17.8% |

## Nodyn 39 - Asedau a Rhwymedigaethau Amodol

Nid oes gan Grŵp y PCC unrhyw asedau amodol neu rwymedigaethau amodol.

## Nodyn 40 - Natur a Graddfa Risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol

Mae gweithgareddau Grŵp y PCC yn golygu ei fod yn agored i risgiau ariannol amrywiol, a'r prif risgiau yw:

(i) Risg credyd: Y posibilrwydd y gall partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i Grŵp y PCC;

(ii) Risg Hylifedd: Y posibilrwydd na fydd gan Grŵp y PCC arian ar gael i gyflawni ei ymrwymiadau i wneud taliadau;

(iii) Risg Ailariannu: Y posibilrwydd y gallai fod yn ofynnol i Grŵp y PCC adnewyddu offeryn ariannol pan fydd wedi aeddfedu ar sail cyfraddau llog neu delerau anfanteisiol; a

(iv) Risg y farchnad - y posibilrwydd y gallai Grŵp y PCC wynebu colled ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiadau cyfraddau llog.

**Gweithdrefnau Cyffredinol ar gyfer Rheoli Risg**

Mae gweithdrefnau rheoli risg cyffredinol Grŵp y PCC yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy marchnadoedd ariannol, a chyflwyno cyfyngiadau i leihau'r risgiau hyn. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg wedi'u nodi trwy fframwaith cyfreithiol a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r PCC gydymffurfio â Chod Cynghorus CIPFA, Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi a gyhoeddir trwy'r Ddeddf. Yn gyffredinol, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Grŵp y PCC reoli risg yn y ffyrdd canlynol:

(i) Trwy fabwysiadu gofynion y Cod Ymarfer yn ffurfiol;

(ii) Trwy gymeradwyo dangosyddion cynghorus ymlaen llaw bob blwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf sy'n cyfyngu ar:
- Fenthyca cyffredinol Grŵp y PCC;
- Ei lefelau uchaf a lleiaf o gysylltiad â chyfraddau sefydlog a newidiol;
- Ei lefelau uchaf a lleiaf o gysylltiad â strwythur aeddfedrwydd ei ddyled;
- Ei lefelau uchaf a blynyddol o gysylltiad â buddsoddiadau yn aeddfedu y tu hwnt i flwyddyn.

(iii) Trwy gymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn i ddod sy'n nodi ei feini prawf ar gyfer buddsoddi a dewis partïon i gontract yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru;

Mae'n rhaid adrodd a chymeradwyo'r rhain cyn neu yn ystod cyfarfod blynyddol Grŵp y PCC i bennu'r gyllideb cyn dechrau'r flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Nodir yr eitemau hyn yn strategaeth flynyddol rheoli'r trysorlys sy'n amlinellu'r dull manwl o reoli risg mewn perthynas â chysylltiad offeryn ariannol Grŵp y PCC. Hefyd, mae Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio (JAC) yn derbyn adroddiad ar y perfformiad gwirioneddol ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r polisïau hyn yn cael eu gweithredu gan dîm canolog y trysorlys. Mae Grŵp y PCC yn cadw egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risg yn gyffredinol, yn ogystal â pholisïau ysgrifenedig yn ymwneud â meysydd penodol, fel risg cyfraddau llog, risg credyd, a buddsoddi arian dros ben trwy Arferion Rheoli'r Trysorlys (TMPs). Mae'r TMPs yn un o ofynion y Cod Ymarfer ac maent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

**Risg credyd**

Mae risg credyd yn deillio o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â chysylltiadau â chredyd ar gyfer cwsmeriaid y Grŵp.

Mae'r risg hon yn cael ei lleihau trwy'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, sy'n nodi na ellir gwneud adneuon mewn sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni meini prawf credyd gofynnol a nodwyd, yn unol â Gwasanaethau Sgorio Fitch, Moody a Standard & Poor. Hefyd, mae Strategaeth Rheoli Flynyddol y Trysorlys yn pennu uchafswm a therfyn amser i'w buddsoddi gyda sefydliad ariannol sydd o fewn pob categori. Ni wneir adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn bodloni gofynion sylfaenol y meini prawf buddsoddi a amlinellir uchod.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi cysylltiad mwyaf y Grŵp â risg credyd. Mae'r tabl yn darparu manylion cyfraddau diofyn cronnus cyfartalog 5 mlynedd cyllid corfforaethol byd-eang (gan gynnwys sefydliadau ariannol) ar gyfer buddsoddiadau am hyd at flwyddyn.

**Risg Credyd Bosibl**

| | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2021 | Profiad hanesyddol o ddiffygdalu | Addasiad ar gyfer cyflwr y farchnad ar 31 Mawrth 2021 | Amcan o'r risg credyd bosibl fwyaf |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | % | £000 |
| Adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol | 0 | 0.920% | 0.910% | 0 |
| Cronfeydd y Farchnad Arian | 5,000 | 0.000% | 0.000% | 0 |
| Awdurdodau lleol | 31,080 | 0.000% | 0.000% | 0 |
| Swyddfa Rheoli Dyled | 0 | 0.000% | 0.000% | 0 |
| Dyledwyr Masnachol | 953 | 0.075% | 0.075% | 0 |
| **Cyfanswm** | **37,033** | | | **0** |

Er bod yr argyfwng credyd diweddar mewn marchnadoedd rhyngwladol wedi cynyddu’r posibilrwydd cyffredinol o ddiffygdalu, mae gan Grŵp y PCC feini prawf credyd caeth ar gyfer partïon i gontract buddsoddi.

**Dyledion Heb Eu Casglu**

Yn gyffredinol, nid yw Grŵp y PCC yn caniatáu credyd ar gyfer ei ddyledwyr masnach, ond mae nifer yr hen ddyledwyr wedi lleihau ers 2020. Nid ystyrir bod adennill y ddyled hon yn risg gan fod y rhan fwyaf o'r ddyled fasnach yn perthyn i bartïon i gontract o’r sector cyhoeddus. Ar 31 Mawrth 2021 roedd £0.629 miliwn o'r balans £0.953 miliwn wedi mynd heibio ei ddyddiad dyledus ar gyfer talu. Gellir dadansoddi'r symiau yn ôl oedran fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2020 £000 | 31 Mawrth 2021 £000 |
|---|---|---|
| Ddim yn ddyledus | 526 | 324 |
| 0-1 Mis | 60 | 0 |
| 1-3 Mis | 101 | 139 |
| 3-6 Mis | 16 | 141 |
| 6-12 Mis | 0 | 293 |
| > 12 mis | 39 | 56 |
| **Cyfanswm** | **742** | **953** |

**Risg Hylifedd**

Mae Grŵp y PCC yn rheoli ei sefyllfa hylifedd trwy'r gweithdrefnau rheoli risg uchod (gosod a chymeradwyo dangosyddion darbodus a chymeradwyo adroddiadau strategaeth y trysorlys), yn ogystal â thrwy system reoli llif arian gynhwysfawr, yn unol â gofynion y Cod Ymarfer. Mae hyn yn ceisio sicrhau bod arian ar gael os oes angen.

Mae gan Grŵp y PCC fynediad parod at fenthyciadau o'r Marchnadoedd Arian ar gyfer unrhyw angen llif arian o ddydd i ddydd, ac ar hyn o bryd, nid oes arno unrhyw angen i gael arian mwy hirdymor gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Hefyd, mae’n rhaid i Grŵp y PCC ddarparu cyllideb gytbwys trwy Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012, sy'n sicrhau bod digon o arian yn cael ei godi i dalu am wariant blynyddol. Felly, nid oes perygl sylweddol na fydd yn gallu codi arian i gyflawni ei ymrwymiadau o dan offerynnau ariannol.

**Risg Ail-gyllido ac Aeddfedu**

Mae gan Grŵp y PCC bortffolio buddsoddi. Er bod y gweithdrefnau llif arian uchod yn cael eu hystyried yn erbyn y gweithdrefnau risg ail-gyllido, mae risg fwy hirdymor i Grŵp y PCC yn ymwneud â rheoli'r posibilrwydd o ddisodli offerynnau ariannol wrth iddynt aeddfedu. Mae'r risg hon yn ymwneud ag aeddfedu rhwymedigaethau ariannol mwy hirdymor ac asedau ariannol mwy hirdymor.

Y terfynau dangosyddion darbodus cymeradwy ar gyfer strwythur aeddfedrwydd dyled a'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau am fwy na blwyddyn o hyd yw'r paramedrau allweddol sy'n cael eu defnyddio i ymdrin â'r risg hon. Mae strategaethau trysorlys a buddsoddi sydd wedi'u cymeradwyo gan Grŵp y PCC yn mynd i'r afael â'r prif risgiau, ac mae tîm canolog y trysorlys yn mynd i'r afael â'r risgiau gweithredol oddi mewn i'r paramedrau cymeradwy. Mae hyn yn cynnwys:

(i) Monitro proffil aeddfedu rhwymedigaethau ariannol a diwygio'r proffil naill ai drwy fenthyca newydd neu aildrefnu'r ddyled bresennol;

(ii) Monitro proffil aeddfedrwydd buddsoddiadau er mwyn sicrhau bod digon o hylifedd ar gael ar gyfer anghenion llif arian Grŵp y PCC o ddydd i ddydd.

Mae gan Grŵp y PCC £dim (2019/20-: £dim) o rwymedigaethau ariannol ag aeddfedrwydd o fwy na blwyddyn.

Disgwylir i'r holl daliadau masnach ac unrhyw symiau taladwy eraill gael eu talu mewn llai na blwyddyn. Yn ogystal, disgwylir i'r holl Asedau Ariannol gael eu had-dalu mewn llai na blwyddyn. Am ddatgeliad pellach gweler Nodyn 16 – Offerynnau Ariannol.

**Risg y Farchnad**

Mae risg y farchnad wedi'i rhannu risg o safbwynt cyfradd llog, pris a chyfnewidfa dramor.

**Risg Cyfradd Llog**

Ychydig iawn o risg sy'n wynebu Grŵp y PCC oherwydd effaith symudiadau yn y gyfradd llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae buddsoddiadau gwerth £31 miliwn yn seiliedig ar gyfraddau sefydlog. Pe bai cyfraddau llog yn codi, bydd gwerth teg y rhain yn aros yn ddigyfnewid gan fod pob un ohonynt yn para llai na blwyddyn. Mae £5 miliwn arall wedi'i adneuo yng Nghronfeydd y Farchnad Arian sy'n destun cyfraddau llog neu arenillion amrywiol. Fodd bynnag, mae maint, amrywiaeth a strwythur asedau'r gronfa yn lleihau risg.

**Risg Pris**

Nid yw Grŵp y PCC yn wynebu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â newid ym mhris buddsoddiadau megis cyfranddaliadau ecwiti.

**Risg Cyfnewidfa Dramor**

Nid oes gan Grŵp y PCC unrhyw asedau neu rwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor. Felly, nid yw'n wynebu unrhyw golled sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

## Nodyn 41 - Addasiadau Rhyng-grŵp

Mae'r tabl isod yn dangos y symudiad trwy'r cyfrif addasiad Rhyng-grŵp o fewn Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant y PCC a'r Prif Gwnstabl (CIES) a'r Fantolen yn ystod y flwyddyn. Mae angen gwneud addasiadau rhyng-grŵp yn y CIES gan na all y Prif Gwnstabl gadw unrhyw gronfeydd wrth gefn, sy'n golygu bod angen trosglwyddo unrhyw warged neu ddiffyg o ran darparu gwasanaethau ac unrhyw enillion neu golledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn i'r PCC. Mae credydwyr a rhestrau eiddo tymor byr (stociau) yn cael eu cydnabod ym Mantolen y Prif Gwnstabl. Fodd bynnag, gan na all y Prif Gwnstabl gadw cronfeydd wrth gefn, a bod yn rhaid iddo gael Mantolen heb werth net, mae angen gwneud addasiad rhyng-grŵp i sicrhau mai dim yw balans yr asedau net a'r cronfeydd wrth gefn.

**Addasiadau rhyng-grŵp CIES**

| PCC 2019/20 £'000 | Prif Gwnstabl 2019/20 £'000 | Grŵp PCC / 2019/20 £'000 | | PCC 2020/21 £'000 | Prif Gwnstabl 2020/21 £'000 | Grŵp PCC / 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (9,009) | 159,805 | 150,796 | Cost Net Gwasanaethau | (11,580) | 163,527 | 151,947 |
| 1,359 | 38,674 | 40,033 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | (189) | 32,580 | 32,391 |
| (19,148) | 0 | (19,148) | Gwariant Gweithredu Arall | (16,898) | 0 | (16,898) |
| 198,479 | (198,479) | 0 | Addasiad rhwng-grŵp | 196,107 | (196,107) | 0 |
| **171,681** | **0** | **171,681** | **Cyfanswm** | **167,440** | **0** | **167,440** |
| (389) | (164,071) | (164,460) | (Enillion) / colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn | 1,344 | 199,846 | 201,190 |
| (164,071) | 164,071 | 0 | Addasiad rhwng-grŵp | 199,846 | (199,846) | 0 |
| **(164,460)** | **0** | **(164,460)** | **Cyfanswm** | **201,190** | **0** | **201,190** |

**Mantolen Addasiadau**

| PCC 2019/20 £'000 | Prif Gwnstabl 2019/20 £'000 | Grŵp PCC / 2019/20 £'000 | | PCC 2020/21 £'000 | Prif Gwnstabl 2020/21 £'000 | Grŵp PCC / 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 474 | 474 | Rhestrau | 0 | 451 | 451 |
| (868) | (12,896) | (13,764) | Credydwyr | (1,952) | (13,279) | (15,231) |
| (12,422) | 12,422 | 0 | Addasiad rhwng-grŵp | (12,828) | 12,828 | 0 |
| **(13,290)** | **0** | **(13,290)** | **Cyfanswm** | **(14,780)** | **0** | **(14,780)** |

## Nodyn 42 - Ymddiriedolaeth Ffilm Annibynnol Gwent (GIFT)

Mae'r Prif Gwnstabl yn tanysgrifio i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu GIFT (Gwent), sef Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Rhif Cofrestru’r Cwmni 7327539) ac elusen gofrestredig (Rhif Cofrestru Elusen 1141278).
Amcanion yr Elusen yw hyrwyddo datblygiad addysg y cyhoedd ar gyfer materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch personol a diogelwch cymunedol er mwyn ceisio lleihau nifer y damweiniau ar y ffordd, a’u difrifoldeb, a lleihau achosion troseddu.
Ar 31ain Mawrth 2020 roedd gan GIFT (Gwent) ddau ymddiriedolwr. Mae Nigel Stephens, Prif Swyddog Cynorthwyol Adnoddau, sy'n aelod o staff y Prif Gwnstabl, yn gweithredu fel Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr, ac mae ail Ymddiriedolwr, Rhodri Williams yn gweithredu fel Cadeirydd annibynnol.
Mae atebolrwydd aelodau wedi’i gyfyngu i £1, sef y swm y mae pob aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedau'r Elusen os bydd yn cael ei ddirwyn i ben. Os diddymir yr Elusen, mae’n rhaid i'r asedau (os oes rhai) sy'n weddill ar ôl gwneud darpariaeth ar gyfer ei holl rwymedigaethau gael eu defnyddio at un neu fwy o’r dibenion canlynol:

(i) Trwy drosglwyddo i un neu fwy o gyrff eraill a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig, yn unol â'r Gwrthrychau neu'n debyg iddynt;
(ii) Yn uniongyrchol i'r Gwrthrychau neu'r dibenion elusennol yn unol â'r Gwrthrychau neu'n debyg iddynt; neu
(iii) Mewn modd arall sy'n gyson â statws elusennol fel y mae'r Comisiwn yn ei gymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

Mae'r strwythur newydd yn golygu bod GIFT (Gwent) bellach yn un o is-gwmnïau Prif Gwnstabl Gwent a Grŵp y PCC. Fodd bynnag, nid oes unrhyw asedau neu rwymedigaethau'r elusen wedi’u cynnwys ym Mantolen y Prif Gwnstabl a Grŵp y PCC ar sail perthnasedd.
Roedd yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2020 yn datgelu asedau cyfredol net o £9,925 (2019/20 £25,811) ac yn cadw elw am y flwyddyn o £15,887 (2019/20  elw o £125).

## Geirfa

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **2020/21** | Mae hyn yn cyfeirio at gyfnod y cyfrifon hyn - 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021. |
| **2019/20** | Mae hyn yn cyfeirio at gyfnod ariannol y flwyddyn flaenorol at ddibenion cymharu - 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020 |
| **Polisïau Cyfrifyddu** | Cyfres o reolau a chodau ymarfer yw'r rhain sy'n cael eu defnyddio gan Grŵp y PCC wrth baratoi'r cyfrifon. |
| **Croniadau** | Y driniaeth gyfrifyddu sy'n cofnodi incwm a gwariant pan gaiff ei ennill neu ei ysgwyddo, nid pan gaiff yr arian ei dderbyn neu ei dalu. |
| **Enillion a Cholledion Actiwaraidd** | Ar gyfer cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y newidiadau mewn diffygion neu wargedion actiwaraidd sy'n codi:<br>• Oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyfateb i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed yn y prisiad diwethaf; neu<br>• Mae'r rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid. |
| **Amorteiddiad** | Mae hyn yn mesur treulio, defnyddio neu ostyngiad arall yn oes ddefnyddiol asedau anniriaethol. |
| **Mantolen** | Mae hyn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Grŵp. Mae asedau net y Grŵp (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu cadw gan y Grŵp. |
| **Cyfrif Addasiad Cyfalaf** | Cyfrif sy'n cronni (ar yr ochr ddebyd) y broses o ddileu cost hanesyddol asedau sefydlog wrth iddynt gael eu defnyddio gan ddibrisiant ac amhariadau, neu eu dileu ar waredіad, ac (ar yr ochr gredyd) yr adnoddau sydd wedi'u neilltuo er mwyn ariannu gwariant cyfalaf. |
| **Gwariant Cyfalaf** | Gwariant ar gaffael ac adeiladu asedau, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sy'n bodoli eisoes, sydd â gwerth hirdymor i'r Grŵp, e.e. tir ac adeiladau. |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | Incwm o werthu asedau sefydlog, y gellir ond eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu ad-dalu dyledion sydd heb eu talu ar asedau sydd wedi'u hariannu o fenthyciadau.<br>Mae derbyniadau cyfalaf y gellir eu defnyddio yn dderbyniadau cyfalaf nad ydynt wedi'u neilltuo at ddibenion penodol ond sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfer unrhyw bryniannau cyfalaf. |
| **Gwerth Cario** | Gwerth cario ased neu rwymedigaeth a gofnodir yn y Fantolen. |
| **CIPFA** | Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, un o'r cyrff cyfrifyddiaeth proffesiynol yn y DU. Mae CIPFA yn arbenigo mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n gyfrifol am bennu safonau cyfrifyddu ar gyfer y gwasanaethau hyn. |
| **Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant (CIES)** | Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. |
| **Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)** | Mesur swyddogol lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu nwyddau a gwasanaethau - ac eithrio taliadau llog morgais, y dreth gyngor a chostau tai eraill. |
| **Asedau neu Rwymedigaethau Digwyddiadol** | Dyma'r symiau a allai fod yn ddyledus i neu gan unigolion neu sefydliadau sy'n gallu codi yn y dyfodol ond na ellir eu pennu'n fanwl ar hyn o bryd, ac nad oes darpariaeth wedi'i gwneud ar eu cyfer yng nghyfrifon Grŵp y PCC. |
| **Credydwyr** | Unigolion neu sefydliadau y mae'n rhaid i Grŵp y PCC dalu arian iddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y tymor byr (o fewn 12 mis) a'r hirdymor. |
| **Asedau Cyfredol** | Mae asedau cyfredol yn eitemau y gellir eu trosi'n hawdd yn arian parod.<br>Yn ôl confensiwn, trefnir yr eitemau trwy gyfeirio at ba mor hawdd y gellir trosi'r eitemau yn arian parod. |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | Mae rhwymedigaethau cyfredol yn eitemau sy'n ddyledus ar unwaith neu yn y tymor byr. |
| **Cost Gwasanaeth Cyfredol (pensiynau)** | Amcangyfrif o gost economaidd wirioneddol cyflogi pobl mewn blwyddyn ariannol. Mae'n mesur y rhwymedigaeth lawn yr amcangyfrifir ei bod wedi'i chreu yn ystod y flwyddyn. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Cwtogi** | Newidiadau mewn rhwymedigaethau sy'n ymwneud â gweithredoedd sy'n rhyddhau'r cyflogwr o brif gyfrifoldeb am rwymedigaeth pensiwn (e.e. grŵp o weithwyr yn cael ei drosglwyddo i gynllun arall) neu ddigwyddiadau sy'n lleihau blynyddoedd disgwyliedig gwasanaeth gweithwyr cyflogedig yn y dyfodol neu'n lleihau croniad buddion diffiniedig dros eu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer rhai gweithwyr cyflogedig (e.e. cau uned fusnes). |
| **Dyledwyr** | Unigolion neu sefydliadau y mae arnynt arian i Grŵp y PCC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y tymor byr (o fewn 12 mis) a'r hirdymor. |
| **Cynllun Buddion Diffiniedig** | Pensiwn neu gynllun buddion ymddeol arall ac eithrio cynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel arfer, mae rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddion yn annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nid oes gan y buddion gysylltiad uniongyrchol â buddsoddiadau'r cynllun. Gallent fod yn gynlluniau wedi'u hariannu neu heb eu hariannu. |
| **Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig** | Pensiwn neu gynllun buddion ymddeol arall y mae cyflogwr yn talu cyfraniadau rheolaidd iddo ar sail swm neu ganran tâl. Ni fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu rhagor o gyfraniadau os nad oes gan y cynllun ddigon o asedau i dalu'r holl fuddion sy'n ymwneud â gwasanaeth gweithiwr cyflogedig yn y cyfnodau presennol a blaenorol. |
| **Dibrisiant** | Mae hyn yn mesur treulio, defnyddio neu ostyngiad arall yn oes economaidd defnyddiol Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. |
| **Gwerth Teg** | Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid mewn trafodiad hyd braich llai, lle y bo'n berthnasol, unrhyw grantiau sy'n dderbyniadwy tuag at brynu'r ased. |
| **Les Cyllid** | Les sy'n trosglwyddo holl risgiau a buddion perchenogaeth ased sefydlog i'r lesddeiliad. Gellir rhagdybio y bydd trosglwyddo risgiau a buddion yn digwydd os bydd gwerth presennol taliadau sylfaenol y les, gan gynnwys unrhyw daliad cychwynnol, yn cyfateb i werth teg yr ased sy'n cael ei lesio yn y dechrau. |
| **Offeryn Ariannol** | Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti endid arall.<br>Mae offeryn ariannol deilliadol yn gontract ariannol sy'n deillio o newidiadau mewn asedau neu fynegrifau sylfaenol. |
| **Asedau Sefydlog** | Mae'r rhain yn eitemau fel tir, adeiladau, cerbydau ac eitemau cyfarpar mawr, sy'n rhoi budd i Grŵp y PCC dros fwy na blwyddyn. |
| **FRS** | Safonau Adrodd Ariannol, fel y'u cytunwyd gan y proffesiwn cyfrifyddiaeth yn y DU ac yn rhyngwladol, a gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiadau o Arfer Cyfrifyddu Safonol (SSAPs) a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). |
| **Cronfa Gyffredinol** | Dyma brif gronfa refeniw Grŵp y PCC ac mae'n cynnwys cost net yr holl wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth. |
| **Grŵp** | Mae'r term yn cyfeirio at uno Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl. |
| **Amhariad** | Gostyngiad yng ngwerth ased sefydlog, o dan ei swm cario yn y fantolen. Mae ffactorau'n cynnwys tystiolaeth bod yr ased wedi darfod neu wedi dioddef niwed ffisegol. |
| **Asedau Anniriaethol** | Nid oes gan asedau o'r fath sylwedd ffisegol ond gellir eu hadnabod a'u rheoli gan Grŵp y PCC. Mae enghreifftiau ' n cynnwys meddalwedd, trwyddedau a phatentau. |
| **Cost Llog (Pensiynau)** | Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y cyfnod yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun gan fod y buddion un cyfnod yn nes at y setliad. |
| **Rhestrau** | Symiau stociau nas defnyddiwyd sy'n cael eu cadw gan fod ddisgwyl eu defnyddio yn y dyfodol ar ddyddiad y Fantolen. |
| **Costau Prydlesu** | Dyma lle caiff rhent ei dalu am ddefnyddio ased am gyfnod penodol. Mae dau fath o les yn bodoli: lesau cyllid a lesau gweithredu. |
| **Perthnasedd** | Byddai eitem yn cael ei hystyried yn berthnasol i'r datganiadau ariannol pe na byddai'r datganiadau ariannol, trwy hepgor neu beidio â datgelu'r eitem, yn dangos darlun gwir a theg. |
| **Darpariaeth Isafswm Refeniw** | Y swm doeth y mae'n ofynnol yn statudol i Grŵp y PCC ei neilltuo o gronfeydd refeniw i ad-dalu benthyciadau sy'n cefnogi buddsoddiad cyfalaf. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | Mae'r datganiad ariannol hwn yn cyflwyno'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r rhai na ellir eu defnyddio. |
| **Gwerth Llyfr Net (NBV)** | Swm asedau sefydlog yn y fantolen h.y. eu cost hanesyddol neu eu gwerth cyfredol llai'r symiau cronnus a ddarperir ar gyfer dibrisiant. |
| **Gwerth Gwireddadwy Net (NRV)** | Gwerth marchnad agored ased yn ei ddefnydd presennol (neu ei werth ar y farchnad agored os yw'n ased anweithredol) llai'r costau i'w hysgwyddo wrth wireddu'r ased. |
| **Prydles Weithredu** | Mae prydles weithredu yn golygu bod y lesddeiliad yn talu rhent am logi ased am gyfnod sy'n llai o lawer na'i oes economaidd ddefnyddiol. Mae'r lesydd yn cadw'r rhan fwyaf o risgiau a buddion perchenogaeth. |
| **Cost Gwasanaeth Blaenorol** | Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig mae'r rhain yn deillio o benderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn y flwyddyn gyfredol ond y mae eu heffaith ariannol yn deillio o flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol. |
| **PCC** | Y talfyriad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r PCC yn gorfforaeth undyn ar wahân a sefydlwyd ar 22 Tachwedd 2012 o dan Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Cyfeirir ato fel Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd. |
| **Menter Cyllid Preifat (PFI)** | Menter gan y Llywodraeth ganolog sy'n ceisio cynyddu lefel y cyllid sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus trwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. |
| **Praesept** | Y swm sy'n cael ei godi a'i gasglu gan bum Awdurdod Gwent (Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen) a'i dalu i Grŵp y PCC. |
| **Darpariaethau** | Gall Grŵp y PCC neilltuo symiau fel darpariaethau i dalu am rwymedigaethau neu golledion sy'n debygol o godi yn y dyfodol. |
| **Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)** | Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn sefydliad a ariennir gan y Llywodraeth. Mae'n benthyca arian i awdurdodau'r heddlu ar delerau penodol fel y gallant brynu eitemau cyfalaf. |
| **Partïon Cysylltiedig** | Y Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol (praeseptio), is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig. Aelodau etholedig, uwch swyddogion o lefel Gyfarwyddwr ac uwch, a'r Cronfeydd Pensiwn. Ar gyfer unigolion a nodir fel partïon cysylltiedig: aelodau'r teulu agos, neu aelodau o'r un aelwyd; a phartneriaethau, cwmnïau, ymddiriedolaethau neu endidau eraill y mae gan yr unigolyn, neu aelod o'i deulu agos neu'r un aelwyd, fuddiant rheoli ynddynt. |
| **Cronfeydd Wrth Gefn** | Balansau sy'n cynrychioli adnoddau a neilltuir at ddibenion fel cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rheoli llif arian. Mae cronfeydd wedi'u clustnodi yn cael eu neilltuo at ddibenion polisi penodol. Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn ar gronfeydd wrth gefn Grŵp y PCC. |
| **Cronfa Ailbrisio** | Swm sy'n cynrychioli enillion cronedig asedau sefydlog Grŵp y PCC sy'n deillio o gynnydd mewn gwerth, o ganlyniad i chwyddiant a ffactorau eraill, i'r graddau nad yw'r enillion hyn wedi'u colli oherwydd symudiadau dilynol mewn gwerth. |
| **Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI)** | Mesur swyddogol lefel gyffredinol chwyddiant fel y'i hadlewyrchir ym mhris manwerthu basged o nwyddau a gwasanaethu, gan gynnwys costau morgeisi, y dreth gyngor a chostau cartref eraill. |
| **Cyllideb Refeniw** | Amcangyfrif o'r gofynion incwm a gwariant blynyddol sy'n nodi goblygiadau ariannol polisïau Grŵp y PCC a sylfaen y praesept blynyddol i'w godi ar gronfeydd casglu. |
| **Grant Cynnal Refeniw (RSG)** | Grant cyffredinol gan y Llywodraeth sy'n cefnogi gwariant awdurdodau lleol (gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu) a'i bennu bob blwyddyn mewn perthynas â lefelau gwariant. |
| **Gweithwyr Cyflogedig Lefel Uwch** | Gweithiwr cyflogedig sy'n ennill cyflog dros £150,000 y flwyddyn neu o leiaf £60,000 y flwyddyn (wedi'i gyfrifo pro rata ar gyfer gweithiwr cyflogedig rhan-amser) ac sy'n bennaeth dynodedig y gwasanaeth cyflogedig ac yn brif swyddog statudol. Fel arfer, mae'n cynnwys Prif Weithredwr y Comisiynydd, Pennaeth y Staff a Phrif Swyddogion statudol (ACPO). |
| **Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaeth (SerCOP)** | Cod Ymarfer Adrodd Gwasanaeth CIPFA sy'n dangos Cost Net Gwasanaethau'r Heddlu gan gynnwys gwasanaethau cymorth yn ôl categorïau gorfodol o wasanaethau neu weithgareddau plismona (a adolygir yn flynyddol). |
| **Y Cod** | Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau yn unol ag IFRS, IPSAS a Safonau Cyfrifyddu GAAP y DU. Mae'n nodi'r arfer cyfrifyddu priodol i'w fabwysiadu ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon er mwyn sicrhau eu bod yn 'cyflwyno'n deg ' sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae gan y Cod statws statudol trwy ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 2003. |